
PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

www.aber.ac.uk/prom

# PROM



Cam-drin Pobl Hŷn

Y Rhamantwyr Meintiol

Maint Corff

Ymwybyddiaeth Ofalgar

Cloc Ffractal

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Cyfleoedd Uwchraddedig

## ym Mhrifysgol Aberystwyth

***Gyda'r dewis helaeth o gynlluniau gradd uwchraddedig trwy ymchwil neu gwrs a gynigir i'w hastudio'n amser llawn, yn rhan-amser neu i ddysgu-o-bell, mae sawl ffordd i hybu eich gyrfa academaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth.***



## Cymorth ariannol ac ysgoloriaethau

(rhestr gyflawn i'w gweld yn www.aber.ac.uyk/cy/postgrad/funding-fees/calculator)

### Ysgoloriaethau Aberystwyth i Raddedigion

I raddedigion sydd â gradd Baglor (Anrh) 2:1 neu 2:2, gwerth yr ysgoloriaeth yw 10% o ffioedd eich cwrs Meistr arfaethedig. I raddedigion sydd â gradd Baglor (Anrh) Dosbarth Cyntaf, gwerth yr ysgoloriaeth yw 20% o ffioedd eich cwrs Meistr.

*Dyddiad cau derbyn ceisiadau yw: 29 Gorffennaf 2016*

### Ysgoloriaethau Rhagoriaeth i Uwchraddedigion Rhyngwladol (IPES)

Gall myfyrwyr o wledydd y tu allan i'r Deyrnas Gyfunol/Undeb Ewropeaidd sy'n dechrau ar gynllun Meistr trwy gwrs yn amser llawn ym Medi 2016 wneud cais am ysgoloriaeth gwerth £2500. Dyfernir yr ysgoloriaethau ar sail rhagoriaeth.

### Benthyciadau Uwchraddedig i Fyfyrwyr Meistr

Bydd myfyrwyr cynlluniau Meistr trwy gwrs neu ymchwil ar dir i gael benthyciad uwchraddedig newydd o hyd at £10,000 am y flwyddyn academaidd 2016/17. Gweler ein gwefan i gael rhagor o fanylion.

### Ysgoloriaethau PhD AberDoc

Ysgoloriaethau hael gwerth tua £18,609 y flwyddyn am hyd at 3 blynedd a ddyfernir ar sail cystadleuol.

*Gweler y Gyfrifiannell Gyllid i weld y dyddiadau cau i wneud cais.*

I gael rhestr gyflawn o'r cyrsiau:

**Manylion pellach a gwybodaeth am yr ysgoloriaethau:**
Swyddfa Derbyn Graddedigion
**Ffôn:** 01970 622270 | **Ebost:** pg-admissions@aber.ac.uk

**www.aber.ac.uk/cy/postgrad/**

# Cynnwys

## Erthyglau


10 

**Cam-drin Pobl Hŷn**

*Cyfiawnder i ddioddefwyr*

14 


**Y Rhamantwyr Meintiol**

*Beth rydym yn ei deimlo mewn gwirionedd*

18 

**Maint Corff:**

*Mater moesol*

20 


**Ymchwil Ymwybyddiaeth Ofalgar**

*Ydych chi'n talu sylw?*

24 

**Cloc Ffractal**

*Barddoniaeth geometreg ffractal a'r gofod*


### Colofnau


4........Yr Is-Ganghellor
28........Cyfweliad: Mitch Robinson o Aber i Guantanamo
32........Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr
40........Teyrngedau
46........Cicio'r Bar


### Newyddion


8........Cydnabod Dyngarwch
22........Dathlu ein Sylfaenwyr
34........Graddio a Chymrodyr 2015
36........Penodiadau, Gwobrau a Chyflawniadau
38........Silff Lyfrau


Cylchgrawn Prifysgol Aberystwyth yw PROM.

PROM is available in Welsh and English. If this copy is not in your preferred language, please contact **development@aber.ac.uk** or phone 01970 621568 and we'll send you anther copy.

Os ydych am dderbyn y newyddion alumni diweddaraf yn gyson o Brifysgol Aberystwyth, diweddarwch eich cyfeiriad e-bost cyfredol ar **www.aber.ac.uk/alumni/diweddarumanylion**, dilynwch ni ar Twitter neu ymunwch â Chyswllt Aber neu ein grwpiau alumni ar Facebook a LinkedIn. Gweler **www.aber.ac.uk/alumni** i gael dolenni.

*Barn yr awduron unigol a fynegir yn yr erthyglau, ac nid ydynt yn cynrychioli'r Brifysgol oni nodir hynny. Er bod pob ymdrech wedi'i wneud i sicrhau bod y deunydd a gyhoeddir yn gywir ac yn ddibynadwy, nid yw'r cyhoeddwyr yn derbyn atebolrwydd am unrhyw honiadau a wneir gan gyfranwyr.*

PROM 24 | Cylchgrawn Prifysgol Aberystwyth

*Cyhoeddiad gan: Prifysgol Aberystwyth University*

*Dyluniwyd gan: Y Stiwdio Ddylunio, Prifysgol Aberystwyth*

# Seiliau Cryfion

Ar fore'r 15fed Hydref, dathlodd Prifysgol Aberystwyth a'n cymuned leol Ddiwrnod y Sylfaenwyr, a hynny am y tro cyntaf ers 1872 yn ôl pob tebyg. Cefais y fraint o siarad yn y digwyddiad yn yr Hen Goleg, ochr yn ochr â'r Dirprwy Faer, Llywydd Undeb ein Myfyrwyr a chynrychiolydd lleol o Gymdeithas Cyn-fyfyrwyr Aberystwyth. Roedd hyn yn ffordd wych o'n hatgoffa sut mae ein cymunedau - y dref, myfyrwyr presennol, y staff ac alumni - yn rhyngweithio ac yn chroestorri, ac yn gyfle cadarnhaol iawn i ddangos pwysigrwydd y dref a'r Brifysgol i'r naill a'r llall. Ni chyrhaeddodd y digwyddiad uchelderau 1872, gan nad oes gennyf, mae'n ddrwg gen i ddweud, y grym i ganiatáu gwyliau i'r dref. Roedd y fwydlen hefyd braidd yn wahanol - cafodd y dyrfa yn 1872 fwynhau 'tyrcwn, cywion ieir, hamiau, tafodau, hwyaid, grugieir, petris, ffesantod, pasteiod codi, pasteiod cwningod, pasteiod cig llo a ham, asbig a jelïau eraill, ayyb' - yn ôl yr adroddiad yn *The Welshman* y 18fed Hydref. Roedden ni ychydig bach yn fwy cymedrol gydag amrywiaeth o ganapés brecwast cyfoes rhagorol - er fel yn yr adroddiad am 1872, llwyddodd ein cydweithwyr lletygarwch i sicrhau bod 'y lluniaeth wedi ei gyflwyno yn y modd gorau ac wedi ei weini yn dda'.


Roedd Diwrnod y Sylfaenwyr yn rhan o'n dathliadau i nodi llwyddiannau 2015. Mae Aberystwyth nid yn unig wedi cael ei chydnabod 'Y Dref Orau' gan yr Academi Trefoli; mae'r Brifysgol wrth ei bodd am ein bod yn agor Fferm Penglais, ein llety gwych i fyfyrwyr, am ein bod yn symud ymlaen gyda cheisiadau cyllido ar gyfer 'Bywyd Newydd i'r Hen Goleg'; ac yn chwifio'r Faner Werdd ar Gampws Penglais – y Brifysgol gyntaf yng Nghymru i gael ei chydnabod am ei mannau gwyrdd nodedig. Rydyn ni wedi bod yn cymryd camau breision wrth ddarparu gwaith cyflogedig a phrofiad o brosiectau ochr yn ochr â hyfforddi er mwyn cynyddu hyder ein myfyrwyr a'n graddedigion, ac yn rhannol drwy'r cynllun AberYmlaen rydyn ni wedi gweld cynnydd anferth yn ein perfformiad cyflogadwyedd. Yn naturiol, mae'r gwelliannau hyn yn barod yn cael eu hadlewyrchu yn ein perfformiadau tablau cynghrair, gydag Aber yn un o'r prif ddringwyr yn *Good University Guide* / y Times / Sunday Times 2016, 14 o leoedd yn uwch. Yn y cyfamser, symudwyd ymlaen i'r 52ain yn y DG yn y '*QS international rankings*', gan gyrraedd y 501-550 o brifysgolion y byd, cynnydd o hyd at 149 safle; tra yn y '*World University Rankings*' rydyn ni nawr yn 39fed yn y DG, ac ymhlith y 350 uchaf yn y byd. Mae hyn oll yn gynnydd ardderchog, ond rydyn ni'n dal i fod angen gwelliannau pellach mewn bodlonrwydd myfyrwyr, rhywbeth sy'n cael ei dargedu ar hyn o bryd drwy ein cynllun Llwyddiant Myfyrwyr.

Rydyn ni hefyd eisiau gwneud rhagor i ymgyrraedd at ein alumni. Mae gennym garfan ragorol o aelodau staff, myfyrwyr cyfredol, alumni a chyfeillion y mae eu rhoddion i'r Brifysgol yn ein helpu i fwrw ymlaen gyda llawer o brosiectau gwahanol. Nid ag arian yn unig y mae a wnelo hyn - mae cyfrannu **eiddo** yn bwysig, ond mae **amser** a **thalent** yr un mor hanfodol. Ar ymweliad â Thaleithiau Unedig America y gwanwyn eleni, braint oedd llongyfarch Mitch Robinson, alumnus sy'n byw yn Washington DC ar ennill Gwobr ddechreuol Cyrhaeddiad Proffesiynol yng Ngwobrau Addysg y Cyngor Prydeinig - ceir rhagor o wybodaeth am hyn mewn rhan arall o PROM. Mae ein Cymdeithasau Alumni diweddaraf yn Efrog Newydd a Washington DC yn cael eu datblygu a byddant yn gweithio'n galed gyda ni i ddod yn gyfartal â Chlwb Alumni egnïol Malaysia, a sefydlwyd yn 1998! Dichon mai'r nesaf yn y rheng fydd Singapore… a llawer o ddiolch i Anne Davies, alumna ac aelod o Fwrdd Ymgynghorol Datblygu a Chyngor y Brifysgol am gynnal aduniad alumni yn Singapore yn Uchel Gomisiwn Prydain ym mis Medi. Rydyn ni'n ymestyn ein diolch cynhesaf i Myra Kinghorn, Cadeirydd Cyntaf y Bwrdd Cynghori Datblygu; ac yn croesawu a llongyfarch ei holynydd dawnus Lynton Jones.

Rydyn ni hefyd yn dathlu ein rhodd ariannol fwyaf oddi wrth roddwr sy'n dal yn fyw, gan fod Peter Hancock a'i bartner Pat Pollard (Trevitt gynt), alumni Aberystwyth sydd nawr yn byw yn Seland Newydd, wedi cyflwyno rhodd arbennig o hael o £506,000 er mwyn sefydlu Cronfa Ysgoloriaeth Angen a Theilyngdod Peter Hancock. Mae Peter eisiau dweud diolch wrth Aberystwyth - ac mae hefyd 'am wneud gwahaniaeth trwy ddarparu ysgoloriaethau i fyfyrwyr addawol anghenus er mwyn eu galluogi i roi cychwyn ar yrfaoedd gwerth chweil sy'n cyfrannu at gymdeithas **ac yna yn ei dro yn helpu eraill.'** Mae'r rhodd hon yn gweddu'n berffaith gyda blaenoriaethau'r Brifysgol o lwyddiant myfyrwyr, rhagoriaeth a chefnogi a chadw myfyrwyr o lawer o gefndiroedd gwahanol.

Mae'r holl enghreifftiau calonogol hyn yn ymwneud â phartneriaethau – yn yr un modd ag roedden ni'n dathlu'r cysylltiad rhwng tref Aberystwyth a'r Brifysgol ar Ddiwrnod y Sylfaenwyr, rydyn ni'n dathlu'r cyswllt sy'n bodoli rhwng y Brifysgol a'n alumni. Peidiwch, os gwelwch yn dda, a holi beth all y Brifysgol ei wneud i chi; rydyn ni'n gobeithio y byddwch chithau hefyd yn agored i'r cyfleoedd lawer sydd ar gael i chi helpu eich Prifysgol.

**Yr Athro April McMahon, Is-Ganghellor**





# Gwyddonwyr y gofod yn cyfrannu at ddarganfod Beagle 2 ar y blaned Mawrth

Mae gwyddonwyr y gofod ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi chwarae rhan bwysig yn narganfyddiad gweddillion Beagle 2, y glaniwr gofodol a gollwyd ar y ffordd i'r blaned Mawrth ar Ddydd Nadolig 2003.

Daethpwyd o hyd i Beagle 2, a oedd yn rhan o daith ofod *Mars Express* yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd, wedi agor yn rhannol ar wyneb y blaned Mawrth.

Mae'r darganfyddiad yn dangos bod trefn 'Mynediad, Disgyn a Glanio' Beagle 2 wedi gweithio a'i fod wedi glanio yn llwyddiannus.

Cysylltodd y tîm a oedd yn chwilio am Beagle 2 â Dr Laurence Tyler a Dr Matt Gunn o Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg gan ofyn iddynt ddarparu delweddau 3D manwl o'r ardal lle y credwyd iddo lanio.

Gan ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadurol pwerus 'Shape from Shading' a ddatblygwyd gan Grŵp Roboteg y Gofod, darparodd Dr Tyler fap o dirwedd yr ardal gan ddefnyddio delweddau a dynnwyd gan gamera HiRISE llong ofod NASA – Mars Reconnaissance Orbiter.

Mae Dr Tyler yn gobeithio defnyddio'r un dechneg i astudio'r safleoedd glanio arfaethedig ar gyfer taith crwydrwr ExoMars yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd yn 2018.

Yr Athro Colin Pillinger o'r Brifysgol Agored oedd arweinydd Beagle 2 ac roedd yr Athro Dave Barnes o Brifysgol Aberystwyth yn allweddol i ddatblygiad un o nodweddion diffiniol y glaniwr, sef y fraich robotig.

Bu farw yr Athro Pillinger Mai 2014 a bu farw'r Athro Barnes ym mis Gorffennaf 2014.

Wrth sôn am ddarganfod Beagle 2, dywedodd Dr Tyler: "Mae'r newyddion wedi dod â lwmp i'm gwddf. Rwy'n falch iawn o glywed ei bod yn debygol fod Beagle 2 wedi glanio'n llwyddiannus ond yn drist nad yw Dave yma i weld hyn. Byddai wedi bod wrth ei fodd bod Beagle 2 wedi glanio'n ddiogel a heb ei losgi yn yr atmosffer."


*Dr Laurence Tyler, aelod o Grŵp Roboteg y Gofod*

Yn sgìl marwolaeth annhymig yr Athro Barnes ym mis Gorffennaf 2014, mae Dr Tyler a Dr Gunn yn arwain y cyfraniad pwysig y mae Aberystwyth yn ei wneud i ExoMars.

Stori lawn: **www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2015/01/title-162231-cy.html**

# Bysedd-y-blaidd - 'arch-borthiant' a fydd yn darparu protein cystal â soia o ffermydd Prydain



Ym mis Mawrth, profodd gwyddonwyr Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylchedd a Gwledig bod tyfu bysedd-y-blaidd (Lupinus) yn darparu ffynhonnell amgen o brotein, cystal â soia, i borthiant anifeiliaid a physgod yng ngwledydd Prydain.

Daeth potensial tyfu bysedd-y-blaidd ar gyfer porthiant yn hytrach na mewnforio soia yn amlwg trwy'r prosiect tair blynedd hwn a ddangosodd fod da byw, ieir a physgod a gafodd borthiant yn cynnwys bysedd-y-blaidd yn perfformio llawn cystal, ac mewn rhai achosion yn well, na'r rhai a gafodd ddognau tebyg o borthiant yn cynnwys soia.

Mae oblygiadau'r ymchwil yn bellgyrhaeddol i'r diwydiant bwyd a ffermio, lle bu soia a fewnforiwyd yn ffynhonnell allweddol o brotein mewn porthiant anifeiliaid ers amser hir. Cafodd ei ariannu gan ddeg partner diwydiannol, Innovate UK a'r Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC).


Stori lawn: **www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2015/03/title-165258-cy.html**

# Adfer llythyrau cyfansoddwr y Wedding March

Mae llythyrau a ysgrifennwyd gan Felix Mendelssohn (1809-1847), sydd fwyaf adnabyddus am gyfansoddi'r *Wedding March* sydd yn dal i fod y gerddoriaeth a ddefnyddir amlaf mewn seremonïau priodas heddiw, wedi eu hadfer yn ddiweddar ac ar gael i genedlaethau'r dyfodol ar gyfer astudio ac ymchwil ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Mae'r dogfennau, a adawyd i'r Brifysgol dros ganrif yn ôl drwy garedigrwydd Syr Hugh Owen a George Powell (o Nanteos 1842-1882), yn cynnwys 17 o lythyrau a dau sgôr corawl a dybir sydd wedi'i llofnodi gan y pianydd, yr arweinydd a'r cyfansoddwr Rhamantaidd o'r Almaen.

Stori lawn: **www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2014/08/title-155056-cy.html**



# £750,000 I ARCHWILIO
## SUT Y MAE AWDURON FFUGLEN WYDDONOL A DARLLENWYR YN RHAGWELD Y DYFODOL



*Yr Athro Iwan Morus a coil anwythiad oedd yn cael eu defnyddio or 1830au. Rhwng o ddeutu 1890 a 1920 roeddent yn cael eu defnyddio i gynhyrchu foltedd uchel er mwyn creu tonnau (radio) electromagnetig.*

Mae'r Athro Iwan Morus o Adran Hanes a Hanes Cymru, ynghyd ag ymchwilwyr o brifysgolion Efrog a Newcastle, wedi derbyn £750,000 er mwyn astudio sut y rhagwelai awduron a darllenwyr ffuglen wyddonol yn yr 20fed ganrif y dyfodol drwy ddatblygiadau gwyddonol newydd.

Bydd y prosiect tair blynedd yn ymchwilio'r berthynas rhwng gwyddoniaeth, ffuglen a diwylliant poblogaidd drwy gydol yr 20fed ganrif dechnolegol hir (1887-2007), gan ganolbwyntio ar sut y cafodd dyfeisiadau newydd ym maes gwyddoniaeth, technoleg a meddygaeth eu defnyddio gan awduron, llunwyr polisi a'r cyhoedd yn gyffredinol i ragweld a meddwl am y dyfodol.

Bydd yr Athro Morus yn arwain ar ymchwil i dechnolegau a pherfformiadau a ddefnyddiwyd i ddychmygu dyfodol ar droad yr 20fed ganrif a'r diwylliant 'dyfodolaeth' a ffynnodd mewn llyfrau a chylchgronau ffuglen a ffeithiol yn ystod y cyfnod Fictoraidd ac Edwardaidd hwyr.

Dywedodd yr Athro Morus: "Byddaf yn edrych ar optimistiaeth a chyffro'r cyfnod o ddatblygiadau arloesol mewn ffiseg a diwylliannau arbrofol yn ystod y cyfnod Fictoraidd hwyr ac Edwardaidd cynnar.

"Y nod cyffredinol yw dangos sut y mae gwyddoniaeth wedi bod yn ffynhonnell o newid cymdeithasol cythryblus wrth i wybodaeth newydd agor posibiliadau newydd a gobeithion, ond hefyd ofnau newydd, gwrthdaro a chanlyniadau anfwriadol.

"Ar yr un pryd, byddwn yn archwilio sut y mae ffuglen a diwylliant yn ehangach wedi ansefydlogi sicrwydd gwyddonol drwy wneud gwyddoniaeth yn ffynhonnell o adloniant, rhyfeddod a phleser, a galluogi darllenwyr a'r cyhoedd i herio gwybodaeth arbenigol drwy ofyn cwestiynau anodd am oblygiadau moesegol, cymdeithasol a gwleidyddol ar gyfer y dyfodol."

Stori lawn: **www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2015/01/title-162841-cy.html**

# CROESAWU'R MYFYRWYR CYNTAF I FFERM PENGLAIS

Eleni croesawodd y Brifysgol y myfyrwyr cyntaf i'w llety myfyrwyr newydd ar Fferm Penglais sy'n cynnig ystafelloedd eang en-suite o'r ansawdd gorau.

Mae'r llety wedi'i leoli o fewn pellter cerdded i adeiladau academaidd y Brifysgol ac mae'n cynnig ansawdd byw ac astudio uchel mewn ystafelloedd en-suite a fflatiau stiwdio gan gynnwys mynediad i'r rhyngrwyd yn ddiwifr ac yn wifredig. Ceir man canolog cyfleus gyda chyfleusterau golchi dillad, storfeydd a chyfleusterau chwaraeon a chymdeithasol.

Ceir ardal benodedig o fewn Llety Myfyrwyr Fferm Penglais sydd wedi'i neilltuo ar gyfer dysgwyr a siaradwyr rhugl Cymraeg sydd am fyw mewn amgylchedd lle siaredir Cymraeg yn gyson.

Dywedodd y Dirprwy Is-Ganghellor, Rebecca Davies: "Mae'r datblygiad hwn yn fuddsoddiad sylweddol i'r Brifysgol ac yr wyf yn hyderus bod y llety hwn gyda'r gorau yn unrhyw brifysgol yn y Deyrnas Gyfunol."

**Stori lawn: www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2015/09/title-173077-cy.html**



# DATGELU HANES BRIDIAU DEFAID CYNHENID CYMREIG

Cafodd defaid eu dofi 10,000 o flynyddoedd yn ôl, ond ychydig oedd yn hysbys cyn hyn am hanes, amrywiaeth genetig a pherthynas rhwng bridiau Cymreig â rhai Ewropeaidd. Mi fydd deall y berthynas rhwng bridiau o fewn Cymru, y DG a gweddill Ewrop yn cynorthwyo strategaethau bridio. Nod y strategaethau hyn yw gwella cynhyrchu drwy gostau is, gwell effeithlonrwydd, gwella iechyd anifeiliaid a monitro mewnfridio.

Ym mis Mehefin, cyhoeddwyd papur yn *BMC Genetics* yn nodi canfyddiadau Sarah Beynon, myfyrwraig PhD yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol Amgylcheddol a Gwledig (IBERS); Dr Gancho Slavov IBERS, a Dr Denis Larkin gynt o IBERS ond bellach yn y Coleg Milfeddygol Brenhinol yn Llundain. Dengys y canfyddiadau bod geneteg y bridiau Cymreig brodorol a thechnegau cyfoes o ddethol genetig yn cynnig cyfle i fridwyr yng Nghymru ddatblygu diadelloedd masnachol y gellir eu cymharu â bridiau masnachol tebyg i Texel, ond sy'n addasu'n well i'r amgylchedd lleol.

Stori lawn: **www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2015/06/title-168102-cy.html**



*Sarah Beynon*

# Cronfa Ysgoloriaeth Angen a Theilyngdod Peter Hancock



Peter a Pat

Graddiodd Peter Hancock o'r Adran Ddaeareg yn Aber yn 1962, a chydag addysg Aber yn gefn iddo, cychwynnodd ar yrfa a'i denodd i bedwar ban byd, fel nifer o'i gyfoedion. Ei swydd gyntaf oedd helpu i fapio daeareg rhannau o Ganolbarth Awstralia, ond ehangodd ei yrfa a bu'n gweithio mewn llywodraeth, diwydiant ac ymgynghoriaeth fel peiriannydd a daearegydd archwilio yn Awstralia, Seland Newydd, UDA a Chanada, yn darganfod adnoddau mwynau newydd ac ymchwilio i, neu oruchwylio, prosiectau adeiladu pibellau nwy mawr, prosiectau trydan dŵr a dyfrhau, gweithfeydd gwaredu elifion, sefydlogrwydd tir ac adrodd ar ddiwydrwydd dyladwy ar adnoddau mwynol.

Trwy gydol ei yrfa, nid anghofiodd Peter y cyfnod a dreuliodd yn Aber a chofiodd bob amser fod heriau a rhwystrau yn wynebu pobl wrth iddynt geisio cael addysg. Wrth iddo astudio ar gyfer ei radd yn Aber, roedd Peter yn ffodus fod ganddo ysgoloriaeth i'w gefnogi'n ariannol, a Dr Nancy Kirk, cymeriad cofiadwy iawn o blith staff academaidd yr adran ddaeareg i'w fentora'n bersonol. I gydnabod y cymorth hwn, a'i galluogodd i orffen ei astudiaethau a chychwyn ei yrfa, mae Peter, gyda'i bartner, Pat Pollard (née Trevitt) a raddiodd mewn botaneg a daeareg o Aber, wedi gwaddoli cronfa i helpu myfyrwyr cyfredol Aber i gael y cymorth angenrheidiol i orffen eu hastudiaethau. Mae Peter a Pat o'r farn na ddylai'r un myfyriwr teilwng deimlo na all orffen ei astudiaethau oherwydd diffyg arian, ac mae'r ddau wedi rhoi gwaddol o £500,000 i Brifysgol Aberystwyth i ddarparu ar gyfer hynny. Mae rhodd ychwanegol o £6,000 gan Peter a Pat wedi sicrhau bod modd rhoi'r ysgoloriaeth ar waith eleni.

Yn Seland Newydd mae Peter wedi cynrychioli nifer o gleientiaid mewn tribiwnlysoedd barnwrol a'r llys cyflafareddu mewn achosion yn ymwneud ag archwilio mwynau, gwaith cloddio a pheirianneg. Bu'n athro, darlithydd, ymchwilydd a daearegydd gyda'r llywodraeth a chwmnïoedd. Sefydlodd a rheoli ei gwmni ymgynghori ei hun yn Seland Newydd, Awstralia a Gogledd America. Arweiniodd y gwaith ymchwil a wnaeth ar gyfer ei lyfr, *Green & Gold: Sustaining mineral wealth, Australians and their environment* sy'n trafod canfyddiadau a gwirioneddau datblygu adnoddau, at ei yrfa ddiweddar fel hwylusydd yn datrys gwrthdaro ar ddatblygu adnoddau amgylcheddol, a materion hiliol ac anfantais frodorol. Bu'n ddarlithydd ym Mhrifysgol De Awstralia (ANU) a Phrifysgol Waikato a bu'n Gymrawd Gwadd yn yr ANU am 19 blynedd, gan ddarparu cyrsiau darlithio ac aseiniadau ymchwil amlddisgyblaethol.

Cafodd Peter yrfa arbennig o lwyddiannus, heb os, ac mae'n dweud mai'r profiad a roddodd y boddhad mwyaf iddo oedd meithrin cytgord rhyng-hiliol a rhyng-lwythol trwy drafodaethau adeiladol fel Cyfarwyddwr Sefydlol Canolfan Ddeialog ANU, sydd wedi helpu i leihau trais a gwella ansawdd bywyd i rai o bobl frodorol yr Aborigini.

Meddai Peter, "Yr elfen allweddol drwy gyflwyno'r rhodd hon yw rhoi rhywbeth yn ôl i fywyd myfyriwr ac i'r Brifysgol a roddodd, hanner canrif yn ôl, gymaint i mi yn academaidd, yn gymdeithasol ac o ran datblygu fy sgiliau arweinyddiaeth a busnes. Ar yr un pryd, rwy'n gobeithio y bydd yn gwneud gwahaniaeth drwy ddarparu ysgoloriaethau i fyfyrwyr addawol, sydd mewn angen er mwyn eu galluogi i ddechrau gyrfaoedd gwerth chweil sy'n cyfrannu at gymdeithas ac felly, yn eu tro, yn helpu pobl eraill."

Rydym yn ddiolchgar iawn i Peter a Pat am eu rhodd hael o Gronfa Ysgoloriaeth Angen a Theilyngdod Peter Hancock ar gyfer '*myfyrwyr haeddiannol, disglair mewn angen ym Mlwyddyn 2 Anrhydedd neu gyfwerth, mewn unrhyw ddisgyblaeth ac o unrhyw genedl ac sy'n dangos potensial i fod o fudd i gymdeithas drwy gwblhau eu Graddau Anrhydedd neu gyfwerth yn llwyddiannus.*' Wrth i genedlaethau newydd o raddedigion Aber ddechrau eu gyrfa, bydd rhai yn gwybod ac yn ddiolchgar fod Peter a Pat wedi'u helpu i wneud eu hastudiaethau'n bosibl, a hyderwn y bydd hynny yn arwain at lwyddiant tebyg iddynt hwythau.

# Gwobr Dyngarwch
## y Sefydliad Elusennol yng Nghymru



*Alumni a staff PA yn dathlu dyfarnu Gwobr Dyngarwch y Sefydliad Elusennol yng Nghymru i alumnus a chymwynaswr PA Peter Hancock (chwith i'r dde) Dr Martin Price, Cathy Piquemal, Dr Hywel Ceri Jones, Steve Lawrence, yr Athro April McMahon, Dr Stuart Owen-Jones, Dr Susan Davies, Louise Jagger a Kay Powell.*

Dyfarnwyd Gwobr Dyngarwch y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru i Peter Hancock i gydnabod pwysigrwydd ei gefnogaeth i Aber, ac fe'i cyflwynwyd yn Nerbyniad a Gwobrau Blynyddol y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd 2015. Gan nad oedd Peter a Pat yn gallu bod yn bresennol, derbyniwyd y wobr ar eu rhan gan yr Is-Ganghellor, yr Athro April McMahon.

Yn ei hanerchiad yn y noson Wobrwyo dywedodd yr Athro McMahon: "Braint o'r mwyaf yw cael bod yma i dderbyn Gwobr Dyngarwch y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru ar ran ein cyn-fyfyriwr, cymwynaswr a chyfaill, Peter Hancock.

"Mae Peter yn hynod o glir mai un o'i brif gymhellion wrth sefydlu'r gronfa hon yw annog pobl eraill i roi. Mae'n credu yn gryf fod yr yrfa broffesiynol ac ariannol lwyddiannus y mae wedi ei mwynhau fel peiriannydd a daearegydd wedi bod yn bosibl yn sgil ysgoloriaeth a ddarparwyd drwy'r Brifysgol. Heb yr ysgoloriaeth, ni fyddai wedi gallu cwblhau gradd anrhydedd - a dyma'r rheswm pam fod y Gronfa yn canolbwyntio ar gynorthwyo myfyrwyr yn ei hail flwyddyn i orffen eu graddau yn llwyddiannus.

"Mae geiriau Peter yn ysbrydoli, a gwn bod ein myfyrwyr yn teimlo hyn hefyd. Ar ben hyn oll, mae ei rodd yn cyd-fynd yn dda iawn â blaenoriaethau'r Brifysgol, sef llwyddiant myfyrwyr, rhagoriaeth, a gweithio i gefnogi a chadw myfyrwyr o nifer o gefndiroedd gwahanol.

"Hoffwn ddiolch i chi am gydnabod haelioni ac uchelgais Peter a Pat; ac mae'n bleser mawr gennyf ar ran Prifysgol Aberystwyth dderbyn y Wobr Dyngarwch i Peter Hancock."




# Dathlu 50 mlynedd dan ddaear

Galw ogofäwyr! Ar y penwythnos 29 - 31 Ionawr 2016, bydd Clwb Ogofäwyr Aberystwyth yn cynnal dathliad 50fed penblwydd. Mae'r clwb yn gwahodd ei holl aelodau, o'r presennol a'r gorffennol i ymuno â ni yn Aberystwyth ar gyfer y dathlu a fydd yn cynnwys cyfres o ddigwyddiadau yn ystod y penwythnos. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at eich gweld!

Cysylltwch â David Greenwell drwy **datblygu@aber.ac.uk** (01970 621568) neu dudalen Facebook y clwb **www.facebook.com/groups/AberCavers/?fref=nf**

# Cyfiawnder i Bobl Hŷn sy'n cael eu Camdrin:



## Cynllunio Dull Newydd o Weithio gyda Phobl Hyn





*Alan Clarke, Sarah Wydall a John Williams*

*Bydd prosiect Dewis yn Aberystwyth, sy'n brosiect tair blynedd a gyllidir gan y Loteri Fawr, yn gweithio gyda phobl hŷn sy'n cael eu cam-drin ac yn eu helpu i gael y math o gymorth a chefnogaeth sydd ei angen arnyn nhw. Yr Athro John Williams sy'n amlinellu'r broblem a sut mae prosiect Dewis yn bwriadu mynd i'r afael â hi.*

Y ewyddion da yw ein bod yn byw yn hirach. Mae amcangyfrifon yn dangos y bydd nifer y bobl hŷn sy'n byw yng Nghymru yn cynyddu o tua 615,000 heddiw i yn agos i 900,000 erbyn 2039. Nid yw'r ffaith ein bod yn byw yn hirach yn broblem - mae'n rhywbeth i'w ddathlu. Fodd bynnag, daw â heriau yn enwedig o ran iechyd, gofal cymdeithasol, trafnidiaeth a gwasanaethau hamdden. Mae Cymru wedi arloesi yn ei hagwedd at ei phoblogaeth sy'n heneiddio. Mae Strategaeth Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-23 bellach yn ei thrydedd cam. Mae gwledydd eraill wedi dilyn y syniad arloesol hwn. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i benodi Comisiynydd Pobl Hŷn gyda chylch gorchwyl i ddiogelu hawliau pobl hŷn. Ers creu'r swydd drwy *Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006*, mae'r Comisiynydd wedi cynnal adolygiadau o gartrefi gofal preswyl, urddas a pharch mewn ysbytai yng Nghymru, ac eiriolaeth mewn cartrefi gofal. Y farn gyffredinol yw bod Cymru'n lle da i dyfu'n hŷn ac mewn sawl ffordd, mae hynny'n wir.

Fodd bynnag, nid yw holl bobl hŷn Cymru'n cael profiad da. Mae tlodi, tai gwael, tlodi tanwydd ac unigedd yn effeithio ar fywydau rhai pobl hŷn yng Nghymru. Maen nhw'n rhannu llawer o'r rhain gyda chenedlaethau iau. Yn anffodus, mae pobl hŷn yng Nghymru hefyd yn profi cam-drin ac esgeulustod. Canfu astudiaeth ar fynychder cam-drin pobl hŷn ar ran yr Adran Iechyd yn 2007 fod 6% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg oedd yn byw yng Nghymru wedi profi cam-drin – dyna'r mynychder uchaf yn y Deyrnas Unedig. Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod 35,000 o bobl hŷn yng Nghymru yn profi cam-drin neu esgeulustod, sy'n cyfateb yn fras i boblogaeth Port Talbot neu Bontypridd.

Cafwyd nifer o achosion o gam-drin pobl hŷn mewn gofal preswyl sydd wedi cael sylw helaeth. Canfu Cyrch Jasmine bod dros gant o ddioddefwyr hŷn wedi dioddef cam-drin mewn grŵp o gartrefi gofal yn ne Cymru. Dynododd canfyddiadau'r ymchwiliad i driniaeth cleifion hŷn yn Ysbyty Glan Clwyd fethiannau o ran gofal pobl hŷn agored i niwed. Mae'n bryderus fod yr achosion hyn wedi digwydd mewn amgylcheddau sydd i fod yn ddiogel ac yn ofalgar. Yn ogystal â lleoliadau sefydliadol, mae pobl hŷn yn cael eu cam-drin yn eu cartrefi eu hunain. Mae pobl mewn sefyllfa o ymddiriedaeth yn cam-drin pobl hŷn, er enghraifft aelodau o'r teulu a phobl maen nhw'n eu hadnabod. Gall cam-drin gynnwys gweithredu neu anwaith. Mae'n achosi niwed anfesuradwy i lawer o bobl hŷn a gall arwain at unigedd, tlodi, diffyg maeth a marwolaeth gynamserol.

Dyfarnwyd £890,000 i'r Ganolfan Astudio Heneiddio, Cam-drin ac Esgeulustod yn Adran y Gyfraith gan y Loteri Fawr fel rhan o brosiect ymchwil £1.3m ar Gam-drin Pobl Hŷn a Chyfiawnder. Deiliaid y grant yw Alan Clarke, John Williams a Sarah Wydall. Aelodau eraill y tîm yw Sarah Cairns, Jeremy Newman a Rebecca Zerk. Caiff dau unigolyn ychwanegol eu

penodi yn y dyfodol agos. Yn ogystal, mae nifer o wirfoddolwyr yn cael eu recriwtio. Enw'r Prosiect yw *Dewis Choice*.

Mae'r Prosiect yn adeiladu ar ymchwil y Ganolfan ar gam-drin pobl hŷn gan ganolbwyntio ar y rheini sy'n profi cam-drin neu esgeulustod yn eu cartrefi eu hunain gan aelod o'r teulu neu 'ffrind'. Mae'r ymchwil yn datgelu nifer o bethau. Efallai mai'r hyn sy'n peri'r mwyaf o bryder yw ei bod yn ymddangos bod rhywbeth yn digwydd pan fydd unigolion sy'n cael eu cam-drin yn cyrraedd chwe deg oed. Mae'n ymddangos eu bod yn cael eu symud i brosesau eraill lle nad yw dewisiadau cyfiawnder y gellid eu harchwilio ar gyfer dioddefwyr iau yn cael eu hystyried. Er bod llawer o gam-drin pobl hŷn yn gam-drin domestig, nid yw'n cael ei weld felly gan asiantaethau ac nid yw'r opsiynau cyfiawnder sydd ar gael yn cael eu dilyn na hyd yn oed eu cyflwyno fel opsiwn. Caiff dull yn seiliedig ar les ei fabwysiadu. Mae gofal a chymorth cymdeithasol yn bwysig, ond gall fethu â sicrhau cyfiawnder i'r unigolyn hŷn. Ambell waith, gall olygu bod pobl hŷn yn gorfod gadael eu cartref a symud i ofal preswyl, sy'n golygu eu bod yn dioddef am yr ail dro.

Datgelodd yr ymchwil mai prin yw'r defnydd o gyfraith droseddol. Yn y mwyafrif o achosion, mae cam-drin yn dramgwydd troseddol. Nid yw hynny'n awgrymu y dylai cyfraith droseddol fod yn ateb bob tro, nac yn ateb yn y mwyafrif o achosion. Fodd bynnag, mae ffigurau isel erlyniadau neu rybuddion, sef rhwng 1% a 2% o achosion a gaiff eu hatgyfeirio, yn gorfod bod yn destun pryder. Ydyn ni i bob pwrpas wedi dad-droseddoli cam-drin pobl hŷn? Ydyn ni'n gwrthod amddiffyniad y gyfraith droseddol i bobl hŷn?

Drwy gydol ymchwiliadau i gam-drin pobl hŷn, dangosodd yr ymchwil nad oes gan bobl hŷn rym. Mae'n rhywbeth sy'n cael ei wneud iddyn nhw yn hytrach na gyda nhw. Mae'r diffyg eiriolaeth i gefnogi'r dioddefwr yn amlwg. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd diffyg galluedd meddwl gan y dioddefwr, ond mae'n wir am bobl eraill hefyd.

> Mae cyfiawnder yn fwy nag achos sifil neu droseddol yn unig

Mae dioddefwyr cam-drin pobl hŷn yn dymuno cael tri pheth. Yn gyntaf, maen nhw am i'r cam-drin ddod i ben. Yn ail maen nhw am i'r sawl sy'n cam-drin gydnabod bod yr hyn mae'n ei wneud yn anghywir. Yn drydydd, maen nhw am deimlo eu bod yn cael cyfiawnder. Mae cyfiawnder yn fwy nag achos sifil neu droseddol yn unig. Os yw'r sawl sy'n cam-drin yn aelod o'r teulu, er enghraifft yn ŵyr, efallai na fydd y nain neu'r taid am ei weld yn cael ei droi'n droseddwr neu'n gorfod wynebu achos llys. Mae'n bwysig cydnabod dynameg cam-drin pobl hŷn.

Os yw cam-drin pobl hŷn yn digwydd o fewn teulu, gall arwain at ymateb cymysg. Gallai troi aelod o'r teulu'n droseddwr fod â chanlyniadau trychinebus i'r teulu. Efallai y bydd aelodau eraill o'r teulu'n dewis ochrau. Mae'n bosibl y bydd teulu sy'n darparu cymorth a chwmnïaeth yn gadael y person hŷn ac yn ochri gyda'r sawl sy'n cam-drin. Fodd bynnag, mae'n annerbyniol mai'r pris y mae'n rhaid i'r person hŷn ei dalu am y cymorth hwn yw parhad y cam-drin.

Yn nodweddiadol, tybir fod y dioddefwr yn ddibynnol ar y sawl sy'n cam-drin. Yn aml mae hyn yn wir – efallai fod y sawl sy'n cam-drin yn galluogi'r dioddefwr i barhau i fyw gartref. Ond ar adegau mae'r ymchwil yn dangos bod y naill yn dibynnu ar y llall. Er enghraifft efallai fod y sawl sy'n cam-drin yn dwyn oddi wrth y dioddefwr i fwydo caethineb.

Arweiniodd y canfyddiadau hyn y tîm i gasglu bod angen ymchwil pellach i ganfod unrhyw ddiffygion cyfiawnder mewn gweithdrefnau presennol ac i gynllunio, gyda phobl hŷn, dull adferol newydd ar gyfer dioddefwyr cam-drin pobl hŷn. Nod y dull adferol hwn yw cadw ac adeiladu ar yr hyn sy'n dda yn y berthynas, ond sicrhau bod y cam-drin yn dod i ben a bod y sawl sy'n cam-drin yn cydnabod bod yr ymddygiad yn anghywir.

Bydd Prosiect Dewis yn gweithio gyda nifer o randdeiliaid allweddol gan gynnwys awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin a Dinas Caerdydd. Bydd yn dechrau gydag ymarfer i godi ymwybyddiaeth a gynhelir gan wirfoddolwyr o bob grŵp oed, i sicrhau bod y prosiect yn pontio'r cenedlaethau'n wirioneddol. Yn aml dyw pobl hŷn ddim yn cael fawr o wybodaeth am ba opsiynau sydd ar gael, os o gwbl, felly'r ail gam fydd penodi a hyfforddi Gweithwyr Cyfiawnder arbenigol a fydd, gyda'r person hŷn, yn dynodi'r opsiynau cyfiawnder ac unrhyw wasanaethau gofal cymdeithasol a allai fod ar gael, gan roi digon o wybodaeth i'r person hŷn i wneud dewis gwybodus ynghylch eu defnyddio ai peidio. Yn ogystal, bydd y Gweithiwr Cyfiawnder yn cynnig cyfle i ddioddefwyr gyfranogi yn y gwaith o ddatblygu a gwerthuso dull adferol â'r bwriad o sicrhau bod y cam-drin yn dod i ben, a bod y person hŷn yn teimlo bod cyfiawnder wedi'i gyflawni heb ddinistrio'r hyn a allai fod yn rhwydwaith cymorth hanfodol ac yn glymau emosiynol cryf.

Mae Dewis yn ceisio symud oddi wrth oruchafiaeth y dull sy'n seiliedig ar les ac yn lle hynny cynnig dewis i ddioddefwyr hŷn. Hawliau dynol sy'n sail i'r prosiect ac mae cam-drin yn torri llawer o hawliau dynol.

Yn bwysicaf oll, y bwriad yw gwneud yn siŵr fod dioddefwyr yn cael eu grymuso i wneud dewisiadau gwybodus am sut y gallwn ni ddileu cam-drin pobl hŷn.

**Os hoffech wybod rhagor am *Dewis Choice* cysylltwch â Jeremy Newman, Cydlynydd y Prosiect ar jen11@aber.ac.uk (ffôn 01970 622516), neu ewch i'r wefan choice.aber.ac.uk/. Yn ogystal gallwch ein dilyn ar Twitter - @choiceolderppl.**

Dewis Choice

# Aber Dramor





Mae cyn-fyfyrwyr Aber wedi cyrraedd pob cyfandir ym mhedwar ban y byd, ac er eu bod wedi'u gwahanu gan bellter maent oll yn unedig o ran rhannu profiad o gymuned addysgol unigryw mewn tref glan môr yng Nghymru sydd ag agwedd ryngwladol. Mae amrywiaeth o ddigwyddiadau wedi'u cynnal i gyn-fyfyrwyr yn Unol Daleithiau America, Singapôr, Awstralia, Maleisia, Mawrisiws a Taiwan, yn aml gyda staff sy'n ymweld o Aber a hwythau wedi cael croeso cynnes bob tro.

Yn Washington DC, Efrog Newydd, Singapôr a Mawrisiws, mae cyn-fyfyrwyr wedi bod yn awyddus i ddilyn esiampl ein cymdeithas cyn-fyfyrwyr rhyngwladol hynaf ym Maleisia ac wedi gwirfoddoli i ddechrau grwpiau lleol gyda'r bwriad o sefydlu cymdeithasau cyn-fyfyrwyr. Mawr yw ein diolch i Mitch Robinson yn Washington DC; Jeffrey Bradford yn Efrog Newydd; Yves Hein ym Mawrisiws; ac Anne Davies am drefnu derbyniad yn Singapore, gan osod y sylfaen ar gyfer cymdeithas newydd yno ac i bawb a ddaeth draw i gefnogi'r digwyddiadau hyn.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno neu helpu i sefydlu un o'r grwpiau newydd hyn, cysylltwch â'r tîm Datblygu a Chysylltiadau Alumni ar +44 1970 621568 neu **datblygu@aber.ac.uk** ac fe'ch rhown mewn cysylltiad â'r bobl berthnasol.

Mae cynlluniau teithio ar gyfer 2016 hyd yma yn cynnwys Mawrisiws a Dubai ac ymweliad arall â'r Unol Daleithiau, ond os hoffech wybod a ydym yn ymweld â'ch rhan chi o'r byd, neu os hoffech ystyried sefydlu eich grŵp cyn-fyfyrwyr Aber eich hun, cysylltwch â ni a byddem yn fwy na pharod i'ch helpu â'r cynlluniau. Mae staff y Swyddfa Ryngwladol yn Aber hefyd yn crwydro'r byd a gallwch weld i ble maen nhw'n mynd drwy dudalen digwyddiadau'r Swyddfa Ryngwladol ar **www.aber.ac.uk/en/international/events-news**.

## Rhwydwaith Cyfleoedd Aber:

# Sut mae e-Fentora gan gyn-fyfyrwyr Aber yn gwneud gwahaniaeth

Cwmni brwshys colur moethus Prydeinig yw Britannia Beauty a sefydlwyd gan yr artist colur, entrepreneur, masnachwr digidol Lucy Newman, a raddiodd o Aber yn 2015, ym mis Ionawr 2015.


Ers ei blwyddyn olaf, cafodd Lucy ei mentora gan gyn-fyfyrwyr eraill o Aber sydd eisoes wedi sefydlu yn eu gyrfa.

Dyma, yng ngeiriau Lucy, y manteision y mae hi'n eu gweld yn sgil ei chyswllt â chyn-fyfyrwyr Aber, yng nghyd-destun myfyriwr blwyddyn olaf / sydd wedi graddio'n ddiweddar, sy'n dechrau busnes newydd ac sy'n edrych am fentora:

"Wrth adael Aber a dechrau fy musnes fy hun, mae cymorth gan gyn-fyfyrwyr drwy e-fentora wedi bod yn hynod o werthfawr i fi. Mae gallu cysylltu â gweithwyr proffesiynol sydd wedi graddio o Aber ac sydd wedi 'bod yna a gwneud hwnna' yn dawelwch meddwl i fi ac wedi fy helpu ar fy nhaith mewn busnes mewn ffordd y byddai'n amhosib i unrhyw lyfr neu daflen ffeithiau ei wneud!

"Rwyf i'n ddiolchgar am yr holl gymorth ac arweiniad rwyf i wedi'i dderbyn drwy e-fentora; boed yn ariannol, cyngor cyfreithiol neu dim mwy na gweithio gyda chyflenwyr. Allaf i ddim ei argymell yn ormodol!"

Os hoffech chi wybod mwy am ddod yn fentor, neu sut mae Aber yn annog ysbryd mentrus ei myfyrwyr, cysylltwch drwy **datblygu@aber.ac.uk** neu siaradwch â Tony Orme ar 01970 62203 **awo@aber.ac.uk**



# Y Rhamantwyr Meintiol:

## technoleg arloesol sy'n dweud wrthym (ac eraill) beth rydym yn ei 'deimlo' mewn gwirionedd...

*Geiriau: Matthew Pryce-Barnett*

*Satan Summoning His Legions (1792) gan Richard Westall, o Amgueddfa ac Oriel yr Ysgol Gelf, Prifysgol Aberystwyth*

*Efallai y byddai wedi bod wrth fodd Byron, yn destun difyrrwch i Syr Walter Scott a chwilfrydedd i J M W Turner.*

Un peth yw llunio barddoniaeth a rhyddiaith sy'n llifo, a phaentio golygfeydd lliwgar llawn emosiwn, ond pa effaith mae hyn yn ei chael ar y darllenydd neu'r gwyliwr?

Yn awr, diolch i gydweithrediad creadigol a fyddai wedi creu argraff ar bob un ohonynt, mae dau Athro o Brifysgol Aberystwyth wedi cyfuno eu harbenigedd a'u diddordebau i ddod â'r Mudiad Rhamantaidd a gwyddoniaeth gyfrifiadurol yr 21ain ganrif at ei gilydd i ddarganfod yn union hynny.

Arbrawf yw'r 'Rhamantwyr Meintiol' (*Quantified Romantics*) a allai gael goblygiadau pellgyrhaeddol i bopeth o'r diwydiant hysbysebu i ffasiwn a Facebook. Fel rhan o'r ŵyl genedlaethol '*Being Human*', a gynhaliwyd fis Tachwedd diwethaf, bu'r rhamantydd Richard Marggraf Turley a'r gwyddonydd cyfrifiadurol Reyer Zwiggelaar yn cynnal digwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd.

Mewn gofod tywyll pwrpasol, 'Y Trobwll', roedd aelodau o'r cyhoedd yn cael eu gwahodd i edrych ar ddelweddau wedi eu taflunio o baentiadau gothig a darnau allan o nofelau Rhamantaidd tra bod data biometrig yn cael eu casglu gan ddefnyddio breichledau sydd wedi eu creu yn benodol at y pwrpas. Gobaith y ddau oedd adnabod 'effaith' delweddau a geiriau o'r fath ar y gynulleidfa gyfoes.

Esbonia Marggraf Turley: "Y nod yw archwilio rhai o'r agweddau mwyaf diddorol o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn ddynol yn y byd modern. A yw nofelau gothig wir yn cyffroi'r galon, fel y byddai eu hawduron Rhamantaidd yn hawlio? A all paentiadau o geudyllau anferthol, creaduriaid hunllefus, adfeilion abatai mewn coedwigoedd tywyll a chlogwyni creigiog wir godi arswyd y gellir ei fesur? Mewn ffordd, mae delweddau o'r fath yn oesol, ac yn cynnig cliw i'n sensitifrwydd cynhenid i rai pethau sy'n tanio ac yn ennyn ymateb emosiynol."

Cychwynnodd y prosiect chwe blynedd yn ôl pan ddechreuodd Marggraf Turley a Zwiggelaar astudio sut y gallai delweddu thermol gael ei ddefnyddio i fesur ymateb emosiynol person yn arbennig drwy gyfrwng llenyddiaeth a barddoniaeth.

Mae pethau wedi symud ymlaen i freichledau clyfar. Gyda chymorth y myfyriwr PhD, Tom Blanchard, ymgorfforwyd system gymhleth o synwyryddion sy'n monitro symudiad, curiad y galon, tymheredd a hefyd ansawdd a chyflwr y croen, o un eiliad i'r llall.

Fel y noda Zwiggelaar, mae'r prosiect yn delio nid yn unig â'r rhyngwyneb celf a gwyddoniaeth, ond hefyd sut y gall cyfuno dau faes arwain at ganlyniadau hynod ddiddorol.

"Rydym yn byw mewn byd emosiynol '*supercharged*' lle mae pobl yn profi symbyliadau heriol ac emosiynol yn gyson drwy bob math o gyfryngau, o'r cymdeithasol i ffilm a cherddoriaeth. Ar yr un pryd, mae llawer ohonom hefyd yn hapus i rannu a datgelu ein teimladau a'n hemosiynau mewn ffordd nad oedd yn bosib tan ddyfodiad Facebook a Twitter, ac nac oedd wir yn dderbyniol. Faint o hyn sy'n ddilys? Rydym yn byw ac yn symud mewn byd o rith, ond efallai o dwyll hefyd. Roeddem yn ceisio dangos sut y gall defnyddio rhai technolegau ddatgelu ein hymatebion a'n teimladau gwirioneddol, weithiau hyd yn oed i ni ein hunain."

Ond does gan Zwiggelaar ddim amheuaeth ynghylch grym y dechnoleg. "Drwy ddigwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd fel hyn, a mesur ymateb pobl i ddelweddau Rhamantaidd, gallwn ddatblygu ein technoleg mewn sefyllfa go iawn.

"Y gwir yw ein bod ni fel pobl yn rhagweladwy iawn - mae'n anhygoel pa mor rhagweladwy ydym ni. Er enghraifft, ar Facebook, pan fydd rhywun yn dweud sut maen nhw'n teimlo amdanynt eu hunain neu rywun arall, petai gennych ddyfais a oedd yn dangos eu gwir deimladau, gallai hynny fod yn ddiddorol. Byddai goblygiadau amlycach o fewn y byd ffasiwn neu hysbysebu lle gallai busnesau a dylunwyr fesur effaith eu cynnyrch.'

Ychwanega Marggraf Turley: "Mae'r digwyddiad hefyd yn codi cwestiynau hynod ddiddorol am ein rhagdueddiad i gyfarwyddo â synhwyro o bell. Ydyn ni wir eisiau bod mor dryloyw i gorfforaethau a hysbysebwyr? A ydym yn gyfforddus i ganiatáu dyfeisiau mesur biometrig i mewn i'r rhan fwyaf preifat o'n bydoedd - y synhwyrau?

"Mae biometreg yn cynnig gwerth gwirioneddol, ac i'r rhai sy'n dymuno "gwella" eu hunain, mae argaeledd eang technoleg hunan-fesur yn beth da. Ond mae yna ochr dywyll, sef byd holl-weladwy parhaus a gwyliadwriaeth ochrol."

**Athro yn yr Adran Cyfrifiadureg yw Reyer Zwiggelaar. Mae ei ddiddordebau ymchwil cyfredol yn cynnwys Deall Delweddau Meddygol, yn enwedig Ffocysu ar Ddata Mamograffig a Phrostad, Adnabod Patrymau, Dulliau Ystadegol, Segmentiad yn Seiliedig ar Wead, a Thechnegau Datgelu Nodweddion.**

**Athro yn yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol yw Richard Marggraf-Turley. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys diwylliant llenyddol a gwleidyddol Rhamantaidd, Shakespeare a diogelwch bwyd, a barddoniaeth gyfoes. Bu'n cymryd rhan mewn nifer o brosiectau cydweithredol rhwng y celfyddydau a'r gwyddorau.**

# Rhamantwyr Meintiol

## A nawr dewch i gwrdd â'r myfyrwyr

Yn gweithio'n agos gyda'r Athrawon Marggraff a Zwiggelaar, ac yn helpu i greu'r breichledau biometrig roedd Tom Blanchard, myfyriwr PhD cyfrifiadureg yn Aberystwyth.

Yn wreiddiol o Brighton a bellach yn ei nawfed flwyddyn yn Aberystwyth, graddiodd Tom yn gyntaf mewn deallusrwydd artiffisial a roboteg a oedd yn cynnwys blwyddyn o ymchwil ddiwydiannol a dreuliodd yn yr adran gyfrifiadureg. Cafodd flas ar weithio gyda myfyrwyr PhD ac felly ar ôl cwblhau ei radd gyntaf cyflwynodd gais llwyddiannus am arian APRS i ennill doethuriaeth. 'Ar y cychwyn, fy PhD oedd gweithio gyda synwyryddion gweddol sylfaenol a rhad wedi eu cyfuno â rhai mwy soffistigedig i ddadansoddi ac asesu ffenomenau naturiol,' eglurodd Tom. 'Roedd yn waith generig, ond fel achos prawf cymhwysais y dechnoleg i flaen rhewlifoedd, y rhan sy'n cwympo i'r môr, gan gynnal asesiadau i weld yn gliriach pa rannau oedd wedi disgyn ac ymhle.

'Tua'r amser yma gofynnodd yr Athro Zwiggelaar i mi a oedd gennyf ddiddordeb mewn gweithio ar y prosiect Rhamantwyr Meintiol. Nid oedd fy mhrofiad mewn gwirionedd gymaint mewn monitro biometrig ac mewn llunio pethau, ond roeddwn wedi gweithio ar brosiect cyffelyb tua blwyddyn cyn hynny a oedd yn ymwneud â mesur pryder mewn pobl, felly roedd yn swnio'n ddiddorol a chytunais.'

**A yw wedi mwynhau'r cydweithio?**


'Yn fawr iawn - rwyf wrth fy modd yn tincran gyda thechnoleg ac yn chwarae gyda theganau! Ond o ddifrif, mae chwarae yn aml yn esgor ar ddarganfyddiadau a datblygiadau diddorol ac arloesol. Yn ystod y camau cyntaf o greu rhywbeth fel hyn mae'n fwy i'w wneud ag arbrofi gyda synwyryddion gwahanol, chwarae gyda'r dechnoleg ac ysgrifennu tameidiau newydd o godau - gwneud ychydig o bopeth bron i gael rhyw system sy'n gweithio.

'Yr hyn rydw i wedi bod yn ei wneud mewn gwirionedd yw'r cam cyntaf i weld a yw syniad yn gweithio, ac ar ôl hynny ei roi i dîm a fydd yn ei gynllunio a'i bacedu ymhellach. Yna bydd y dechnoleg yn mynd yn llai, yn gryfach ac yn fwy esthetaidd atyniadol, ond mae'r gwaith rydw i wedi bod yn ymwneud ag ef mewn rhai ffyrdd yn fwy cyffrous gan ei fod yn cynrychioli dechreuad cynnyrch.'

Fel y dywed Tom, roedd y prosiect 'Rhamantwyr Meintiol' yn dilyn y thema o 'chwarae' ac roedd yn fwy o ddigwyddiad â'r cyhoedd na phrawf clinigol, ond roedd yn werthfawr er hynny. Meddai Tom, 'Roedd yn fwy am siarad â'r cyhoedd – cyfathrebu – na rhedeg arbrawf gwyddonol. Ond mae'n dangos sut y gall gwyddoniaeth ymrwymo gyda disgyblaethau a syniadau eraill mewn ffordd gyffrous ac anghyffredin.'

**Felly, ac yntau ar fin cwblhau ei PhD, sut mae Tom yn gweld ei ddyfodol yn datblygu?**

'Mae gen i brosiect ymchwil yma yn Aberystwyth am y ddwy flynedd nesaf sy'n ymwneud â monitro cnydau a macsimeiddio cynnyrch, gan ddefnyddio monitro systematig o'r hyn sy'n digwydd mewn gwahanol rannau o'r cae. Felly mae'n amlwg, os gellir cyflawni cynnydd o un y cant yng nghynnyrch biliwn o aceri, y bydd hynny'n arwyddocaol a hefyd yn gwneud gwahaniaeth ariannol anferth.'




*Richard Marggraf Turley (Chwith) gyda Tom Blanchard (Dde)*

Wrth lwc, nid gwaith yw popeth. Mae gan Tom nifer o hobïau sy'n ymwneud â gweithgareddau awyr agored – felly mae'n byw mewn man delfrydol. Yn wir, fel y mae'n egluro, dyna'r union reswm pam y dewisodd Aberystwyth yn y lle cyntaf.

'Roeddwn i wedi bod yn hoff o chwaraeon a gweithgareddau awyr agored megis dringo a beicio mynydd, ac ar y cychwyn roeddwn i'n ansicr iawn ynglŷn â mynd i brifysgol. Ond roedd Aberystwyth yn fy ngalluogi i wneud hyn i gyd, ac felly roedd y ddau beth yn dod yn un. Bûm yn gwneud y rhan fwyaf o'r pethau hyn am gryn amser nes i mi ddechrau ar fy ngwaith PhD, yna bu'n rhaid i mi roi'r gorau i lawer o'r hobïau hyn. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi golygu ysgrifennu a gwneud gwaith rhan amser i ariannu'r cwbl; felly nid wyf wedi cael y cyfle ond mae'n bosibl y byddaf yn ail-gydio yn rhai o'r gweithgareddau hyn unwaith eto nawr.'

**Ac mae ganddo ddiddordeb arall, mwy anghyffredin.**

'Rydw i wedi bod yn mynd i lawr i roi help llaw gyda bad achub Aberystwyth ers peth amser erbyn hyn. Mae gen i ddiddordeb mewn hwylio ac yn ystod fy mywyd rydw i wedi mynychu amryfal gyrsiau cymorth cyntaf a phethau o'r fath, felly rwy'n tybied mai estyniad rhannol o hynny ydyw. Mae math o ddrama ynglŷn â'r peth hefyd, ei hanes ac ymrwymiad y gymuned. Rwy'n ei gael yn ddiddorol ac mae'n bosibl y byddaf yn ei ddilyn ymhellach.'

Yn y cyfamser mae Tom yn rhagweld y bydd yn Aberystwyth ac o gwmpas yr ardal am o leiaf bedair neu bum mlynedd arall, ond nid yw'n sicr beth fydd yn digwydd ar ôl hynny. Mae 'fymryn yn ochelgar' o'r 'effaith Aberystwyth' enwog.

'Mae'n lle rhyfeddol ac rwyf wrth fy modd yma, ond rwyf hefyd yn gwybod bod pobl yn tueddu i aros yma am ei bod yn hyfryd a chysurus yma, a dydw i ddim eisiau aros am fod hynny rywsut yn haws. Felly, tra fy mod yn hoff iawn o Aberystwyth ac mai dyma fy nghartref ar sawl cyfrif ni fyddaf yn ymrwymo i ddim a dichon y byddaf yn mynd i weld rhyw gymaint ar y byd. Ond nid am dipyn eto....'

# Hen lynnoedd yn Affrica yn taflu goleuni newydd ar esblygiad dyn



*Prosiect Tyllu Chew Bahir: Paratoi i dynnu rhan o'r craidd sydd o fewn llawes fewnol o'r rod dyllu isaf © Verena Foerster, Prifysgol Potsdam*

Sut y dylanwadodd newidiadau hanesyddol yn yr hinsawdd ar esblygiad a mudo dyn?

Dyma'r cwestiwn sydd wedi arwain ymchwilwyr o Brifysgol Aberystwyth i dyllu ddydd a nos, ac i ddyfnderoedd mawr, mewn llyn sydd wedi sychu yn nwyrain Affrica.

Bydd Prosiect Tyllu Bahir Chew, mewn rhan anghysbell o dde Ethiopia, yn darparu cofnod gwaddodol o newidiadau mewn glaw, tymheredd a llystyfiant sy'n ymestyn dros y 500,000 o flynyddoedd diweddaraf esblygiad dyn.

Mae Chew Bahir, un o gadwyn o fasnau llyn yn Nyffryn Hollt Mawr Affrica, yn agos at safleoedd canfod y ffosilau cynharaf o'n rhywogaethau, yr Homo sapiens dynol modern.

Wrth sôn am bwysigrwydd y prosiect, dywedodd yr Athro Henry Lamb o Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear Prifysgol Aberystwyth: "Mae syniadau am sut y gallai newid yn yr hinsawdd fod wedi dylanwadu ar ymddangosiad a'r modd y gwasgarodd bodau dynol modern wedi parhau'n ddirgelwch i raddau helaeth. Byddwn nawr yn gallu cymharu data ffosilaidd ac archeolegol â chofnod manwl o amrywiadau yn yr hinsawdd. Bydd hyn yn ein galluogi i brofi'n fwy trylwyr y damcaniaethau hyn."

Stori lawn: **www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2015/02/title-164073-cy.html**

# Ymchwil £2.76 miliwn
## ar gyfer cynaliadwyedd economaidd ceirch a'r diwydiant melino

Mae tîm bridio ceirch arobryn IBERS Prifysgol Aberystwyth wedi sicrhau cyllid newydd gan y BBSRC ar gyfer ymchwil gyda'r nod o wella cynaliadwyedd economaidd ceirch.



*Yr Athro Athole Marshall gydag aelodau tîm bridio ceirch IBERS yng Nganolfan Genedlaethol Ffenomeg Planhigion a ariennir gan y BBSRC*

Mae'r galw am geirch gradd bwyd o safon uchel yn cynyddu yn flynyddol, a'r galw hwnnw yn cael ei yrru gan ei fanteision iechyd sydd wedi eu profi, a thrwy ddatblygu cynnyrch newydd gan y diwydiannau melino a grawnfwydydd. Er gwaethaf marchnad sy'n ehangu, mae'r cnwd ceirch yn parhau i gael ei herio gan y buddsoddiadau uchel sy'n cael eu gwneud mewn cnydau amgen ac mae hyn yn dwysau cystadleuaeth.

Mae'r prosiect LINK yma dan arweiniad IBERS, yn cynnwys ymchwil ar y cyd rhwng partneriaid gwyddonol (IBERS, Prifysgol Heriot-Watt a NIAB) a phartneriaid mewn diwydiant, a fydd yn chwarae rhan ganolog mewn arfarnu ansawdd y mathau newydd o geirch.

Bydd y prosiect BBSRC LINK 5 mlynedd newydd hwn yn mynd i'r afael â rhai o'r prif heriau sy'n wynebu amaethyddiaeth yn y DG o ran cynhyrchu bwyd diogel a maethlon mewn modd cynaliadwy.

Stori lawn: **www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2015/02/title-162996-cy.htm**

## Yn ôl y *Guardian* mae un o raddedigion Aber ymhlith

# 'Wynebau Newydd Ffuglen'

Yn ôl *The Guardian*, Kate Hamer, a raddiodd mewn Ysgrifennu Creadigol, yw un o awduron newydd mwyaf addawol 2015, ac mae wedi ei chynnwys ar restr 'New Face of Fiction' y papur, sef rhestr o nofelwyr sydd wedi cyhoeddi am y tro cyntaf ac sy'n debygol o wneud argraff.

Disgrifiwyd stori Kate, *The Girl in the Red Coat*, fel ail adroddiad o hanes yr Hugan Fach Goch a ysbrydolwyd gan y ddelwedd o ferch fach, mewn côt coch, ar goll mewn coedwig.

Tra'n tyfu i fyny yn Sir Benfro, roedd yr awydd yno i wneud bywioliaeth drwy ysgrifennu ond bu'n gweithio ym myd teledu am ddegawd yn cynhyrchu rhaglenni dogfen cyn cychwyn ar radd Meistr mewn Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Disgrifiodd ei chyfnod yn Aberystwyth fel un a roddodd iddi'r "cyfle i arbrofi gydag, ac archwilio fy arddull ysgrifennu personol. Deuthum ar draws tiwtoriaid a oedd yn angerddol, yn agored i syniadau ac yn dalentog, dyma'n union yr hyn yr oedd ei angen yn y cyfnod hwn o'ng ngyrfa ysgrifennu."

**Stori lawn: www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2015/02/title-163691-cy.html**



# Nôl i'r Ysgol

Ydych chi'n gweithio mewn addysg uwchradd neu bellach? Mae Tîm Cyswllt Ysgolion a Cholegau'r Brifysgol ar gael trwy gydol y flwyddyn i'ch cynorthwyo chi a'ch myfyrwyr. Mae'r tîm yn cynnig ystod gynhwysfawr o gyflwyniadau a gweithdai sy'n cwmpasu pob agwedd ar ymchwilio, gwneud cais a pharatoi ar gyfer addysg uwch. Yn ogystal, mae staff o adrannau academaidd y Brifysgol ar gael i gynnig sgyrsiau penodol i gynorthwyo gyda chyfoethogi'r maes llafur. Am fanylion llawn, cysylltwch â **cyswllt-ysgolion@aber.ac.uk** / 01970 622065.




# Maint corff,
## mater moesol

Geiriau: Dr Sarah Riley

*Mae hysbyseb ar gael sy'n dangos dyn gyda'i grys yn agored yn iro cynnyrch dros ei frest fawr lipa tra mae merched mewn swyddfa cynllun agored yn edrych arno gydag edmygedd. Yna mae'r persbectif yn newid ac rydyn ni'n gweld mai ffantasi'r dyn yw hyn a'i fod mewn gwirionedd yn wrthrych ffieidd-dod. Mae neges yr hysbyseb yn eglur: mae'r dyn hwn yn ffiaidd am ei fod yn defnyddio cynnyrch sy'n cystadlu gyda chynnyrch yr hysbysebwr ac am ei fod yn dew.*

Mae'r hysbyseb yn gweithio'n rhannol oherwydd ein bod ni wedi cael ein dysgu i ffieiddio at gyrff sydd ddim yn cydymffurfio â diffiniadau cul o'r hyn sy'n ddeniadol. Mae ffieidd-dod yn emosiwn sylfaenol a phwerus. Mae'n gysylltiedig â llygriad, yn wreiddiol mewn perthynas â bwyd, ond wrth i bobl ddatblygu daeth ffieidd-dod yn gysylltiedig â moesoldeb. Ac yng nghymdeithas heddiw mae maint ein cyrff yn fater moesol.

Mae pobl bob amser wedi cael eu barnu yn ôl eu cyrff. Yn y gorffennol roedd bod yn gyhyrog yn golygu eich bod yn gweithio i ennill eich bywoliaeth, doedd dim rhaid i chi ond edrych ar ddyn er mwyn gwybod os oedd yn gweithio mewn ffowndri neu yn y meysydd. Erbyn hyn mae corffolaeth gyhyrog yn debycach o fod yn ganlyniad 'ffordd o fyw', o amser a dreulir yn y gampfa. Mae'r symudiad hwn o gyrff yn cynrychioli'r cymunedau rydyn ni'n rhan ohonynt i rai sy'n cynrychioli ein dewisiadau unigol wedi creu'r posibilrwydd o ddyfarniad mwy; os yw ein cyrff yn cynrychioli ein dewisiadau unigol yna gallwn gael ein barnu'n unigol ganddynt.

Ond mae meddwl am ein cyrff fel pethau sy'n cynrychioli dewisiadau mewn ffyrdd o fyw yn anwybyddu'r materion y mae gan bobl lai o reolaeth drostynt, pethau fel gwahaniaethau naturiol mewn ffurf a maint cyrff, anghydraddoldebau cymdeithasol sy'n cael effaith ar yr hyn y gallwn ei fwyta a'r ffordd rydyn ni'n ymarfer, dymuniadau anymwybodol ynglŷn â bwyd a'r grymoedd masnachol sy'n elwa ar ein pryderon am ein delweddau corfforol a'r hyn a eilw'r seicolegydd Deb Burgard yn ddiwydiannau 'cylchu pwysau'. Drwy anwybyddu'r materion hyn a chanolbwyntio ar yr unigolyn



rydyn ni'n galluogi i ddiwylliant beirniadol ffynnu. Dengys ymchwil bod pobl sy'n siopa yn edrych yn slei ar drolïau ei gilydd mewn archfarchnadoedd, bod merched yn treulio oriau yn paratoi cyn mynd allan, a hynny nid er mwyn tynnu sylw dynion ond am eu bod yn ofni'r ffordd y bydd merched eraill yn edrych arnynt, ac mae ein cyfryngau yn ein hannog i archwilio a chymharu ein cyrff â chyrff pobl eraill, a chanlyniad hyn yw anfodlonrwydd gyda'n cyrff. Cynlluniodd 'Sport England' eu hymgyrch 'gall y ferch hon' er mwyn herio'r hyn a welent fel y rhwystr pennaf i ferched gymryd rhan mewn chwaraeon: ofn cael eu barnu.

Mae byw mewn diwylliant o archwilio a barnu yn creu emosiynau negyddol: ofn, cywilydd a phryder. Gellir ychwanegu ffieidd-dod pan gysylltwn ni'r diwylliant beirniadol â'r ffordd rydyn ni'n meddwl am iechyd. Ers nifer o flynyddoedd rydyn ni wedi dechrau cysylltu iechyd â phwysau nes bod pwysau wedi dod yn hafal i iechyd. Ac yn y cyd-destun lle rydyn ni'n fel unigolion yn gyfrifol am ein hiechyd o fewn system iechyd sy'n gyfyng ei hadnoddau, mae pwysau person wedi dod nid yn unig yn arwydd o'i iechyd ond o'i foesoldeb yn ogystal.

> “mae ffin hynod o fain i'r hyn sy'n esthetig dderbyniol ac nid yw'r rhan fwyaf ohonom yn ei ffitio”

Ond mae'r berthynas rhwng iechyd a phwysau yn un gymhleth. Mae'r model 'calorïau i mewn / egni allan' yn or-syml, mae diffiniadau o bwysau iachus yn newid, ac mae tystiolaeth y gall ychydig o bwysau 'ychwanegol' fod yn amddiffynnol. Mae ymchwil mewn seicoleg, cymdeithaseg a bio-feddygaeth i gyd wedi herio'r syniad o ordewdra fel achos uniongyrchol o waeledd yn ogystal ag effeithiolrwydd tynnu sylw pobl at y ffaith eu bod dros bwysau. Er hynny, mae'r dulliau hyn yn parhau.

Mae effaith gweld pwysau ond meddwl am iechyd yn broblem. Mae ymchwil yn dangos y gall pobl weithio ar eu cyrff er mwyn edrych yn iach. A gall cost hyn gynnwys pryderu obsesiynol ynglŷn â bwyta neu ymarfer, clefyd bwyta ac ysmygu. Y gost i bobl fawr eu maint yw bod yn wrthrych ffieidd-dod, ac o beidio rhoi iddynt eu statws haeddiannol fel pobl - gweler er enghraifft y ffordd y mae pobl ordew yn cael eu portreadu yn y cyfryngau mewn modd annynol - heb bennau , neu mewn dillad sydd dan straen oherwydd eu cyrff sydd bob amser yn ehangu. Mae hyn yn golygu bod pobl fawr eu maint yn llai tebyg o fynd i weld meddyg ynglŷn â phryderon am eu hiechyd, ac yn debycach o gael eu symptomau wedi eu hanwybyddu neu eu beio ar eu pwysau, gan greu anghydraddoldeb iechyd.

Pa un bynnag, mae digon o dystiolaeth ar gael nad yw codi cywilydd ar bobl dew yn cael yr effaith a ddymunir sef eu cael i golli pwysau. Gall gynyddu anfodlonrwydd â'r corff, ond mae ymchwil hydredol wedi dangos bod anfodlonrwydd uwch â'r corff yn cael ei gysylltu â llai o golli pwysau a mwy ag ennill pwysau yn y tymor hir mewn pobl ifanc a oedd wedi bod yn blant mawr eu maint.


Mae codi cywilydd ar bobl dew yn fater moesol, nid oherwydd bod cysylltiad rhwng pwysau ac iechyd, ond am ei fod yn fath o fwlio ac yn rhan o ddiwylliant beirniadu lle mae pawb yn cael eu hannog i deimlo'n bryderus ynglŷn â'u cyrff. Mae gan bobl denau hefyd storïau i'w hadrodd am sylwadau a beirniadaethau. Mae hyn yn dweud wrthym ni fod ffin hynod o fain i'r hyn sy'n esthetig dderbyniol ac nid yw'r rhan fwyaf ohonom yn ei ffitio. Y canlyniad yw ei bod hi'n anodd i ni gael teimladau da ynglŷn â'n cyrff. Gofynnais unwaith i lond darlithfa o fyfyrwyr a oedd rhywun yn teimlo'n euog am nad oeddynt yn mynd i'r gampfa yn amlach a chododd bron pawb ei law.

Fy nadl yw bod yr emosiynau negyddol hyn sydd gennym ynglŷn â byw yn iach yn ei gwneud yn anoddach i fyw bywydau iach. Mae meddwl am ein cyrff fel rhywbeth y mae gofyn i ni weithio arnynt, sydd angen gwyliadwriaeth barhaus ac yn agored i'w beirniadu, yn gwneud iechyd yn waith caled, annymunol, anodd a chysylltiedig â theimladau negyddol.

Nid dweud wrthych am beidio â mynd i'r gampfa yr wyf. Fy mhryder yw, boed chi'n un sy'n mynd i'r gampfa'n fynych neu'n un o'r nifer arwyddocaol (30-40% yng Nghymru) sy'n dweud nad ydynt yn cymryd unrhyw ymarfer corfforol mewn wythnos, rhaid i chi wneud synnwyr o'ch cyrff o fewn i ddiwylliant beirniadol. Hoffwn ein gweld yn dod o hyd i ffyrdd cyfunol i wrthsefyll y diwylliant beirniadol hwn. Yn eironig gall ein gwneud yn genedl feinach.

**Mae Dr Sarah Riley yn Gyfarwyddwr Ymchwil ac yn Uwch-Ddarlithydd yn yr Adran Seicoleg. Mae hi'n ymchwilydd hunaniaeth sy'n ymddiddori yn y modd rydyn ni'n gwneud synnwyr ohonom ein hunain, yn arbennig mewn perthynas â'n rhyw, ein cyrff, ein hymddangosiad neu grwpiau cymdeithasol megis diwylliannau ieuenctid.**






# Ydych chi'n talu sylw?

*Hanes ymchwil ymwybyddiaeth ofalgar arloesol*

*Geiriau: Yr Athro Mark Whitehead*

Pa mor dda rydych chi'n gallu canolbwyntio ar rywbeth? Os ydych chi'n debyg i mi mae'n debyg mai cymharol ychydig o sylw rydych chi'n ei gymryd o'ch sylw eich hun ac y byddwch chi'n cael ateb y cwestiwn hwn yn eithaf anodd. Dyma un ffordd i asesu eich gallu i ganolbwyntio. Ceisiwch ganolbwyntio ar rywbeth syml fel eich anadl. Sylwch arno'n symud i mewn i'ch corff fel aer cymharol oer, yn mynd drwy eich ceg a'ch ffroenau. Sylwch ar y ffordd y mae eich anadlu i mewn yn achosi i'ch ysgyfaint ehangu ac i'ch brest ymgodi. Nawr sylwch ar eich anadlu allan, sylwch ar eich abdomen yn ymestyn, aer cynhesach yn symud drwy eich trwyn, a'r ymdeimlad cyffredinol o ymlacio y gall eich corff ei deimlo. Nawr ceisiwch ganolbwyntio ar eich anadl ac ar ddim arall am bum munud. Mae'n anodd, onid yw? Sylwch fel y bydd eich meddwl yn crwydro, yn trigo o bosibl ar sgwrs braidd yn lletchwith a gawsoch â'ch pennaeth yn gynharach yr un diwrnod, neu'r dyddiad cwblhau rhyw waith sy'n dynesu'r prynhawn hwnnw. Wedi sylwi i ble mae eich meddyliau wedi crwydro, a heb feio eich hun am fethu canolbwyntio eich sylw, ewch yn ôl at eich anadl. Enghraifft o hyfforddi ymwybyddiaeth ofalgar syml yw hon.

Ychydig o bobl fyddai'n dadlau nad yw ymwybyddiaeth ofalgar yn y ffasiwn ar hyn o bryd. O'i ddefnyddio mewn ysgolion fel cymorth dysgu hyd ei dderbyn gan gwmnïau rhyngwladol o bwys fel Google, Ebay, a Twitter fel ffordd o wella effeithiolrwydd eu gweithwyr, bellach does ond ychydig sectorau lle nad yw ymwybyddiaeth ofalgar yn ymddangos fel pe bai'n cael rhyw fath o ddylanwad. Ymhlith yr holl weithgarwch hwn mae tîm o Adran Daearyddiaeth a

Gwyddorau Daear Prifysgol Aberystwyth yn ymwneud ag ymchwil arloesol yn archwilio cyfraniad potensial ymwybyddiaeth ofalgar yn cefnogi newid cymdeithasol yn y gweithle ac yn y byd eangach.

Fel ymarfer sydd wedi ymroi i feithrin ymwybyddiaeth anfeirniadol a gyflwynir yn ganolog mewn unigolion, tarddodd ymwybyddiaeth ofalgar tua dwy fil a hanner o flynyddoedd yn ôl fel traddodiad myfyriol Bwdhaidd. Yn ystod y 40 mlynedd ddiwethaf mae ymarferion ymwybyddiaeth ofalgar wedi cael eu haddasu er mwyn rhoi sylw i gyfres o heriau seciwlar. Datblygiad Lleihad Straen Seiliedig ar Ymwybyddiaeth Ofalgar (MBSR) (a gyflwynwyd gan Jon Kabat-Zinn fel ymarfer rheoli poen) a Therapi Wybyddol Seiliedig ar Ymwybyddiaeth Fyfyriol (MBCT) (sydd wedi ei ddefnyddio i leddfu rhai mathau o salwch meddyliol) efallai yw'r cymwysiadau seciwlar mwyaf cyfarwydd o ymwybyddiaeth ofalgar. Yn fwy diweddar, yn y DG gwelwyd diddordeb llywodraethol cynyddol yn y defnydd potensial o ymwybyddiaeth ofalgar. Mae hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth ofalgar yn cael ei gynnig i Aelodau Seneddol a'r Arglwyddi yn San Steffan ac i Aelodau'r Cynulliad yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae llywodraeth y DG hefyd wedi sefydlu Grŵp Seneddol Hollbleidiol i astudio manteision dod ag ymwybyddiaeth ofalgar yn rhan o bolisi cyhoeddus. Mae'r Grŵp Seneddol yn cael ei gefnogi gan Menter Ymwybyddiaeth, clymblaid o Brifysgolion Rhydychen, Caerwysg a Bangor sy'n gweithio i 'hyrwyddo

> "Ychydig o bobl fyddai'n dadlau nad yw ymwybyddiaeth ofalgar yn y ffasiwn ar hyn o bryd"

gwell dealltwriaeth o ymwybyddiaeth ofalgar a'i botensial mewn ystod o wasanaethau cyhoeddus'. Gan ganolbwyntio yn gyntaf ar iechyd, addysg a chyfiawnder troseddol, mae'r Grŵp Seneddol yn archwilio'r dystiolaeth a allai gefnogi defnydd ehangach o dechnegau ymwybyddiaeth ofalgar. Yr hyn sy'n ategu'r holl weithgaredd yw'r sylweddoliad deublyg bod pobl yn tueddu i fod yn hapusach ac yn fwy effeithiol pan fyddant yn gallu canolbwyntio eu sylw. Y broblem yw bod y byd aml-gyfrwng rydyn ni'n byw ynddo nawr yn ffynnu ar amldasgio a hyrwyddo ffurfiau cronig bron o sylw rhanedig.


Ym Mhrifysgol Aberystwyth mae tîm o ymchwilwyr dan arweiniad yr hyfforddwraig ymwybyddiaeth ofalgar Rachel Lilley gyda chefnogaeth yr Athrawon Mark Whitehead a Rhys Jones, wedi bod yn archwilio rhan hyfforddiant ymwybyddiaeth ofalgar fel cyd-destun i gefnogi ymgymerwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu polisïau sy'n hyrwyddo amrywiol ffurfiau o newid ymddygiad (yn arbennig mewn perthynas â hyrwyddo ffordd o fyw carbon isel). Drwy weithio gydag arbenigwyr newid ymddygiad yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector (gan ganolbwyntio'n arbennig ar y gwasanaeth sifil yng Nghymru) mae'r tîm wedi bod yn astudio'r effaith a gaiff cymryd rhan mewn rhaglen hyfforddi ymwybyddiaeth ofalgar 8 wythnos o hyd ar waith y bobl broffesiynol hyn o ddydd i ddydd. Mae'r canlyniadau hyd yma wedi bod yn galonogol iawn. Mae'r rhai fu'n cymryd rhan yn adrodd bod y rhaglen hyfforddi ymwybyddiaeth wedi newid y ffordd maent yn meddwl am ymddygiad pobl eraill ac yn eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth fwy cynnil o'r rhesymau pam mae pobl yn cael newid i ffyrdd o fyw carbon isel mor heriol. Maent hefyd yn dweud bod y rhaglen wedi eu galluogi i ddelio â straen yn y gweithle yn fwy effeithiol, i ddarganfod ffyrdd newydd o ymwneud a chydweithio â'u cydweithwyr, a'i fod hyd yn oed wedi cael effaith fuddiol ar eu bywydau y tu allan i'r gwaith. Hyd yma mae tua chant o bobl wedi cymryd rhan yn y rhaglen Ymwybyddiaeth Ofalgar a Newid Ymddygiad a ddatblygwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'r Gwasanaeth Sifil yng Nghymru wedi cael ei blesio gymaint gyda chanlyniadau'r rhaglen fel eu bod yn ystyried ehangu'r hyfforddiant ymhellach ymhlith gweision sifil. Gofynnwyd yn ddiweddar i dîm ymchwil Aberystwyth gyfrannu at y dystiolaeth sy'n cael ei chasglu gan y Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar Ymwybyddiaeth Ofalgar.

Ar ôl gweld y manteision y gall hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth ofalgar ei gynnig i weithfannau dros ystod o sectorau, mae tîm ymchwil Aberystwyth nawr yn cefnogi ymdrechion i greu prifysgol fwy ystyriol yma yn Aberystwyth. Dechreuodd yr ymdrechion hyn gyda sesiwn hyfforddi ymwybyddiaeth ofalgar o dan arweiniad Rachel Lilley ac fe'i cynigiwyd i Fforwm Weinyddol y Brifysgol. Bu'r ymateb ymhlith y staff yn galonogol iawn hyd yma. Cyn belled ag y gwyddys, Aberystwyth yw'r Brifysgol gyntaf yn y DG i archwilio potensial datblygu sefydliad mwy ystyriol. Yn nhermau ymwybyddiaeth ofalgar mae'n ymddangos bod Prifysgol Aberystwyth ar flaen y gad mewn ystod o feysydd gwahanol.



**Gŵr gradd o Aberystwyth yw'r Athro Mark Whitehead. Yn 1997 dyfarnwyd iddo Wobrau James Fairgreave a Gregynog am Ddaearyddiaeth. Dyfarnwyd ei PhD iddo yn 2001 am waith yn archwilio ymddangosiad cynllunio datblygiad trefol cynaliadwy. Fe'i benodwyd yn ddarlithydd yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn 2000.**

# Dathlu ein Sylfaenwyr



*Y Prifathro Cyntaf, Thomas Charles Edwards*



*Syr Hugh Owen*

Mae hanes sefydlu'r brifysgol gyntaf yng Nghymru yn 1872 yn hanes unigryw, ac wedi digwydd yn sgil dychymyg y cyhoedd, ton o gefnogaeth boblogaidd a haelioni unigolion. Llwyddodd grŵp bychan o wladgarwyr, dan arweiniad Hugh Owen, Cymro yn Llundain, i godi digon o arian drwy danysgrifiad cyhoeddus a phreifat i sefydlu coleg o statws prifysgol yng Nghymru.

Eleni, mae Prifysgol Aberystwyth yn dathlu'r hanes hwn, yn ogystal â dathlu ei phresennol a'i dyfodol, drwy gynnal dathliad ffurfiol o'i Sylfaenwyr. Ar 15 Hydref 2015, cynhaliwyd Brecwast Diwrnod y Sylfaenwyr yn yr Hen Goleg yn Aberystwyth, i goffáu sefydlu'r brifysgol gyntaf yng Nghymru. Gan ddwyn ynghyd cynrychiolwyr o'r Brifysgol, Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr a'r gymuned leol i frecwast dathlu, roedd y digwyddiad yn adlewyrchu'r ethos y tu ôl i'r dathliadau gwreiddiol yn yr Hen Goleg ar 15 Hydref 1872 pan ddaeth 100 o bobl, gan gynnwys 26 o fyfyrwyr a phedwar aelod o staff academaidd, yn garreg filltir yn hanes addysg yng Nghymru.

Ac fel yn 1872, cynhelir dathliad hefyd yn Llundain ar 27 Tachwedd 2015 i adleisio'r cinio yng Ngwesty City Terminus, Stryd y Cannon, Llundain, ar 27 Tachwedd 1872. Roedd hwnnw yn ddigwyddiad yn llawn sirioldeb a gobaith mawr am lwyddiant y Coleg yn ôl *College by the Sea* gan Ewan Morgan (t.16).

Bydd dathliadau Diwrnod y Sylfaenwyr yn Llundain yn cael eu cynnal yng ngwesty godidog St Pancras Renaissance, gan adlewyrchu'r achlysur llawen a gynhaliwyd yn 1872 pan ddaeth cymwynaswyr a chefnogwyr y brifysgol newydd ynghyd i ddathlu agor y coleg yn Aberystwyth.

Gan dynnu ar weledigaeth, uchelgeisiau a chyflawniadau ein Sylfaenwyr a hanes hir y cyn-fyfyrwyr yn codi arian i gefnogi'r Brifysgol a'n myfyrwyr, roedd dathliad 2015 wedi gwahodd cyn-fyfyrwyr a chyfeillion i ymuno â ni i helpu myfyrwyr mewn tair ffordd benodol: lleihau caledi; hyrwyddo lles a ffyniant, a chreu mwy o gyfleoedd.

Roedd y digwyddiad hwn mor boblogaidd gwerthwyd y tocynnau i gyd yn fuan, a chyflawnwyd y targed codi arian gwreiddiol bythefnos yn gynnar, gan alluogi'r holl brosiectau i symud ymlaen.

Meddai'r Athro April McMahon, Is-Ganghellor: "Sefydlu Prifysgol Aberystwyth yw un o'r straeon mawr rhamantaidd, os nad arwrol, yn hanes Cymru fodern. Fel man geni ysgolheictod prifysgol yng Nghymru, rydym yn ymfalchïo'n fawr yn ein treftadaeth ac yn edrych ymlaen at goffáu un o'r digwyddiadau mwyaf arbennig yng nghalendr ein prifysgol."

Bydd dathliadau Diwrnod y Sylfaenwyr yn 2016 yn datblygu'r digwyddiadau llawen hyn ymhellach a bydd apêl Cronfa Aber sydd newydd ei lansio yn hyrwyddo llwyddiannau'r Gronfa Flynyddol wrth adeiladu ar sylfeini'r haelioni sydd wedi bod yn sail i'n hanes. Os hoffech ymuno yn y dathliadau neu roi eich cefnogaeth i'n hymdrechion, yna cysylltwch â Cathy Piquemal yn y tîm Datblygu a Chysylltiadau Alumni 01970 621568 neu **datblygu@aber.ac.uk**

*Is-Ganghellor, Yr Athro April McMahon a'r Farwnes Kay Andrews (rhes flaen, ail o'r dde) gyda gwesteion yn dathlu Diwrnod y Sylfaenwyr*





# Ethol deuddeg o gyn-fyfyrwyr Aberystwyth i San Steffan

*Mae deuddeg o gyn-fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth wedi eu hethol i Dŷ'r Cyffredin yn San Steffan yn dilyn Etholiad Cyffredinol 2015*

**Guto Bebb AS**

Graddiodd Guto o Aberystwyth yn 1990 gyda BA mewn Hanes. Cafodd ei ethol i'r Senedd yn 2010 ar ôl ennill sedd Aberconwy dros y Blaid Geidwadol. Cynyddodd ei fwyafrif yn 2015 i 3999.

**Rehman Chishti AS**

Astudiodd yr Aelod Seneddol Ceidwadol Rehman Chishti y Gyfraith yn Aberystwyth, gan raddio yn 2000. Yn enedigol o Muzaffarabad, Kashmir Pacistanaidd yn 1978, enillodd sedd Gillingham a Rainham oddi wrth y Blaid Lafur yn 2010. Yn yr etholiad diweddar cynyddodd ei fwyafrif i 10,530.

**Glyn Davies AS**

Ar hyn o bryd mae'r Cyn-aelod Cynulliad Cymru dros y Blaid Geidwadol Glyn Davies yn gwasanaethu fel Aelod Seneddol dros Sir Drefaldwyn am yr ail dymor, ar ôl iddo ennill y sedd yn 2010. Mynychodd Glyn Brifysgol Aberystwyth yn 50 oed, gan ennill diploma mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol ym 1995.

**Jonathan Edwards AS**

Arweinydd Plaid Cymru yn San Steffan, graddiodd Jonathan Edwards o Brifysgol Aberystwyth yn 1999 gyda gradd mewn Gwleidyddiaeth a Hanes. Mae wedi bod yn Aelod Seneddol dros Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr ers 2010.

**Arglwyddes Sylvia Hermon AS**

Yn Aelod Seneddol Annibynnol, etholwyd yr Arglwyddes Sylvia Hermon i sedd North Down yng Ngogledd Iwerddon fel aelod o Blaid Unoliaethwyr Ulster yn 2001. Graddiodd o Adran y Gyfraith yn 1977.

**Dan Jarvis AS**

Mae Dan Jarvis yn Aelod Seneddol Llafur dros Ganol Barnsley. Graddiodd o Brifysgol Aberystwyth yn 1996 gyda gradd mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol ac Astudiaethau Strategol. Yn ddiweddarach ymunodd â'r fyddin lle gwasanaethodd yn Kosovo, Irac ac Affganistan.

**Will Quince AS**

Cipiodd Will Quince sedd Colchester dros y Ceidwadwyr, ar ôl dod yn ail i ymgeisydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn y sedd yn 2010. Astudiodd y Gyfraith yn Aberystwyth, gan raddio yn 2005.

**Liz Saville-Roberts AS**

Mae Liz Saville-Roberts yn dal sedd Dwyfor Meirionnydd ar ôl i'w rhagflaenydd Elfyn Llwyd roi'r gorau iddi yn etholiad 2015. Yn wreiddiol o Eltham, Llundain, symudodd i Aberystwyth yn 18 oed i astudio ieithoedd, gan raddio mewn Astudiaethau Celtaidd yn 1987.

**Cyrnol Bob Stewart AS**

Graddiodd y Cyrnol Bob Stewart o Aberystwyth yn 1977 gyda gradd mewn-swydd mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol. Yn ystod ei yrfa filwrol o 27 o flynyddoedd bu'n gwasanaethu yn Bosnia a Gogledd Iwerddon, cyn ennill y sedd dros y Blaid Geidwadol yn Beckenham yn 2010.

**Gareth Thomas AS**

Yn Gyn-weinidog Gwladol dros yr Adran Datblygu Rhyngwladol, enillodd Gareth Thomas ei sedd dros Orllewin Harrow ar ran y Blaid Lafur am yr eildro yn 2015. Graddiodd yn 1988 gyda BSc mewn Gwleidyddiaeth o Brifysgol Aberystwyth. Mae Gareth hefyd yn gadeirydd y Blaid Gydweithredol.

**Mark Williams AS**

Yn Aelod Seneddol dros etholaeth Ceredigion, ymunodd Mark Williams â Phrifysgol Aberystwyth yn 1984, i astudio gwleidyddiaeth. Ar ôl cyfnod fel athro ysgol gynradd, daeth yn Aelod Seneddol yn 2005 ar ôl adennill Ceredigion dros y Democratiaid Rhyddfrydol.

**Mike Wood AS**


Enillodd Mike Wood sedd De Dudley dros y Blaid Geidwadol yn etholiad 2015, ar ôl i Chris Kelly roi'r gorau i'r sedd. Mynychodd Mike Brifysgol Aberystwyth gan raddio mewn Economeg a'r Gyfraith yn 1997. Mae hefyd yn gyn-gynghorydd ar Gyngor Bwrdeistref Metropolitan Dudley.

Meddai'r Is-Ganghellor April McMahon:

"Hoffwn longyfarch pob un o'n cyn-fyfyrwyr sydd newydd eu hethol i San Steffan. Rydym yn falch iawn bod ein traddodiad nodedig o gynrychiolaeth yn San Steffan yn parhau."

# Gwaith Celf i herio'r synhwyrau:

## Cloc Ffractal Richard Downing



*Mae wedi cymryd pum mlynedd i'r senograffydd a'r artist Richard Downing i greu'r hyn sy'n sicr ddigon yn un o ddarnau celf mwyaf gwreiddiol, mwyaf technolegol heriol a mwyaf treiddgar yng Nghymru a'r Deyrnas Gyfunol*



*Richard Downing*

Mae ei Gloc Ffractal wir yn hardd, yn gwmwl pyramidaidd enfawr sy'n cynnwys 81 darn o lechi trionglog yn hongian o'r to, ac wedi'u goleuo oddi uchod i greu argraff gyfriniol bron o dawelwch a threfn ddwyfol.

Ac eto nid yw popeth fel yr ymddengys. Fel rhan o arbrawf cymhleth i ystyried y ffyrdd rydym yn reddfol yn ymateb i gymhlethdodau diddiwedd geometreg ffractal sydd ym myd natur, mae pob darn (sy'n berffaith gymesur) wedi'u rhaglennu i droi yn araf dros gyfnod o awr, gan newid a symud eich canfyddiad o'r cyfanwaith cyn dychwelyd i'w safle gwreiddiol.

Mae hefyd yn arbrawf ynghylch y ffordd rydym yn ystyried gofod, sydd yr un mor bwysig, fel yr eglura Downing, â'r elfennau o'i gwmpas. Yn ôl ef, gellid disgrifio ei waith celf fel "dawns tyllau dros gyfnod o awr".

Dechreuodd y prosiect yn dilyn sgwrs gyda'r Athro Richard Taylor, academydd a pholymath o Oregon, am ffractalau ym myd natur a'r ffordd rydym yn reddfol yn ymateb i batrymau o'r fath ac yn cydweddu ein canfyddiadau i gyd-fynd â nhw. Mae'r ddeialog wedi parhau, gan fod yn wraidd i flynyddoedd o arbrofi gan Downing ac erthygl yn *Performance Research* sydd ag 81 elfen iddi ac yn archwilio cysyniad geometreg ffractal, gofod a'i bosibiliadau barddonol (1). O'r gwead hwn o feddwl a gwneud, datblygodd y Cloc Ffractal yn raddol.

> "dawns tyllau ar draws llwyfan o awr"

Esbonia: "Dyma hanes syniad pum munud yn cymryd pum mlynedd i'w wireddu. Ond fe hoeliodd fy sylw a'r her oedd mynegi hyn rywsut mewn cyd-destun artistig. Mae patrymau ffractal mewn celf wedi tueddu i fod yn graffig ac yn ddau ddimensiwn. Roedd Richard a minnau'n chwilfrydig am y posibilrwydd o ffractalau fel amgyffrediad diriaethol – adeiladweithiau wedi'u creu o ganfyddiad yn unig. Mi wnes y gwaith i ganfod sut beth fyddai hynny, sut y gallai wneud i berson deimlo ac ymateb."

Mae cefndir Downing fel darlithydd mewn senograffi wedi helpu, ar ôl treulio 30 mlynedd yn cynhyrchu perfformiadau a chreu gosodweithiau, yn ogystal â'i ddiddordeb blaenorol mewn ysgrifennu creadigol. Meddai: "Roedd y testun roeddwn wrthi'n ei ysgrifennu wedi troi yn theatr o ddelweddau gan felly fynd yn fwy cerfluniedig. Ar un adeg cafodd ei ddisgrifio yn 'theatrig afresymol', a minnau'n hoff o hynny. Rwy'n amheus o ffiniau – rhwng celf a gwyddoniaeth, er enghraifft. Mae'r ffiniau yn arbennig o aneglur yn y darn hwn."

Mae'r gwaith celf cyfan yn llenwi 125 metr ciwbig o ofod, ac mae'n hongian o ffrâm sy'n debyg i we pry cop. Mae pob un o'r 81 o drionglau llechi yn hongian ar barau o wifrau copr main o siafftiau o fodur camwr. Mae modd rheoli pob modur er mwyn pennu rhythmau unigol i'r symudiadau ac i batrymau'r aliniad.


Roedd y syniad o fynegi ei gysyniad fel hyn yn seiliedig ar batrwm ffractal a elwir yn Driongl Sierpinski, sydd yn fathemategol gywir ar raddfa ailadrodd. Mae hefyd yn siâp pwerus iawn a hyd yn oed yn emosiynol iawn, ac wedi ymddangos drwy gydol hanes – er enghraifft ym mosaigau Cosmati o'r 13eg ganrif yn Eglwys Gadeiriol Anagni.

Ychwanega Downing: "Mae manyldeb ynghylch Triongl Sierpinski, ond drwy wneud i bob elfen gylchdroi ar wahanol gyflymder rydym yn tarfu ar y manyldeb hwn, ac felly mae ffractalau mwy ystadegol, neu 'naturiol', yn dod i'r amlwg fel ffurfiannau cwmwl lle mae darn llai o faint yn debyg i'r cyfanwaith, ond byth yr un fath. Mae'n dod yn fwy organaidd ac entropig. Amrywiad ar thema, fel mewn darn o gerddoriaeth, efallai."

Mae wedi'i leoli yn Theatr y Castell, Aberystwyth, oherwydd ei natur a'r angen iddo gael ei weld a'i ymdeimlo dros gyfnod o awr, ac mae'n well gan Downing petai un neu ddau berson yn edrych arno ar y tro.

"Mae'n well gen i fod pobl yn gallu treulio amser arno, os ydynt yn dymuno. Rwy'n credu ei fod yn offeryn myfyrio, yn y pen draw, yn offeryn i ddirnad ac amgyffred. Bydd hefyd yn dweud yr amser wrthoch chi – mewn sawl ffordd – os gwnewch chi adael iddo wneud hynny."


[1] *Richard Downing (2013) Setting the Fractal Clock(s): The coordinates of a spatial expression, Performance Research, 18:3, 169-178.*



**Ceir mwy o wybodaeth a hysbysiadau am gyfleoedd i'w weld yma: rod36.wix.com/richard-downing-fractal**
**Mae ffilm ddiweddar Pete Telfer am y Cloc Ffractal i'w gweld yma www.artplayer.tv/video/1322/fractal-clock**

Yn ogystal â dysgu yn yr adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, mae Richard wedi bod yn Gyfarwyddwr Artistig ar y grŵp perfformio rhyngddisgyblaethol U-Man Zoo ers ei sefydlu yn 1994, gan ddylunio a chyfarwyddo deuddeg o berfformiadau a gosodiadau cyn 2006 a hynny'n cynnwys *Vision 20/20* (Glasgow Tramway, 1996) *32 Wardrobes* (Project Arts, Dulyn, 2001); *The Water Banquet* (Grenland Friteater, 2003). Cefnogwyd y gwaith hwn gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, y BBC, a Chynllun PACT yr UE (Cydweithrediad a Theithio gyda'r Celfyddydau Perfformio).

# Mecanwaith Newydd ar gyfer adeiladu cyfrifiaduron cwantwm



Mae mecanwaith newydd ar gyfer adeiladu cyfrifiaduron cwantwm wedi ei gynnig gan dîm rhyngwladol o wyddonwyr sy'n cael ei arwain gan Dr Daniel Klaus Burgarth ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Mae gwyddonwyr bellach yn rhan o ymdrech fyd-eang i adeiladu cyfrifiaduron cwantwm mawr a fydd yn gallu perfformio rhai cyfrifiadau cymhleth iawn mewn amser byr iawn, tasgau a fyddai'n cymryd miloedd o flynyddoedd i'r cyfrifiaduron mwyaf pwerus mewn bodolaeth heddiw i'w cwblhau.

Mewn papur yr y cyfnodolyn gwyddonol *Nature Communications*, mae Dr Burgarth *et al* yn disgrifio sut mae arsylwi yn aml ar floc adeiladu sylfaenol system cwantwm, 'cwbit', yn gallu arwain at greu cyfrifiaduron llawer mwy pwerus.

Stori lawn: **www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2014/10/title-157770-cy.html**

# Astudiaeth ryngwladol o gynulleidfaoedd yr Hobbit

Ar y 12 Rhagfyr 2014 dangoswyd yr olaf o dair ffilm yr *Hobbit*, *The Battle of the Five Armies* am y tro cyntaf mewn sinemâu yn y Deyrnas Gyfunol. Ar yr un dydd, lansiodd y prosiect ymchwil mwyaf uchelgeisiol a gynhaliwyd erioed i gynulleidfaoedd ffilm gan academyddion o Brifysgol Aberystwyth.



*Yr Athro Martin Barker (chwith) a'r Athro Matt Hills*

Bu hyd at 140 o ymchwilwyr mewn 46 o wledydd yn cydweithio ar Brosiect Hobbit y Byd, www.worldhobbitproject.org, i gael ymatebion i arolwg a gynlluniwyd er mwyn deall holl ystyron ffantasi i bobl ledled y byd.

Stori lawn: **www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2014/12/title-160859-cy.html title-160859-en.html**

# £3.7 miliwn i ymladd heintiau llyngyr lledog



*Yr Athro Karl Hoffmann, Athro Parasitoleg yn IBERS*

Mae Ymddiriedolaeth Wellcome, y cyllidwr preifat mwyaf yn y DG ar gyfer ymchwil biofeddygol a milfeddygol, wedi cyflwyno Dyfarniad Strategol Gwyddorau Biolegol werth £3.7M dros 5 mlynedd i dîm rhyngwladol o wyddonwyr o'r DG, yr Almaen, Ffrainc ac UDA dan arweiniad yr Athro Karl Hoffmann yn Athrofa Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig Prifysgol Aberystwyth.

Teitl y prosiect yw 'the Flatworm Functional Genomics Initiative (FUGI)' a bydd yn datblygu pecynnau ymchwil fydd yn newid y maes ar gyfer astudio a thrin rhywogaethau llyngyr lledog parasitig sy'n gyfrifol am y clefydau dinistriol echinococcosis (clefyd hydatid) a schistosomiasis (bilharzia), ac a fydd yn llywio ymchwil llyngyr lledog i'r unfed ganrif ar hugain.

Ar ôl sicrhau'r dyfarniad clodfawr hwn dywedodd yr Athro Hoffmann "Rydym ni'n hynod o falch fod Ymddiriedolaeth Wellcome wedi dewis ein tîm ni i ddatblygu'r adnoddau diweddaraf hyn, fydd yn chwyldroi ein gallu i astudio a thrin llyngyr lledog parasitig, gan gynnwys llyngyr gwaed a llyngyr rhuban.

"Llyngyr lledog parasitig sy'n achosi rhai o'r clefydau heintus mwyaf dinistriol ar y blaned ac maen nhw'n gyfrifol am feichiau sylweddol a llethol mewn pobl a da byw. Tra bo'r dull rheoli cyfredol yn bennaf yn seiliedig ar gemotherapi, mae risg gwirioneddol bod y strategaeth hon yn anghynaliadwy oherwydd bod parasitiaid yn datblygu sy'n gallu gwrthsefyll y cyffuriau cyfyngedig sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd."

Dyma'r tro cyntaf erioed i dîm mor amrywiol o arbenigwyr rhyngwladol ddod at ei gilydd yn y modd hwn i ymladd y clefydau dinistriol sy'n cael eu hachosi gan barasitiaid llyngyr lledog.

Stori lawn: **www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2015/05/title-167342-cy.html**

# Pynciau Aberystwyth ymysg y gorau yn y byd

Mae pum pwnc academaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi eu cynnwys ymhlith goreuon y byd yn ôl cynghrair pynciau'r *QS World University Rankings* a gyhoeddwyd yn Ebrill 2015.

Mae Gwyddor yr Amgylchedd yn ymddangos am y tro cyntaf yn y 300 uchaf yn y byd, yn ogystal â Iaith a Llenyddiaeth Saesneg. Mae Daearyddiaeth ac Amaethyddiaeth a Choedwigaeth yn parhau ymhlith y 150 uchaf; ac mae Gwleidyddiaeth (Gwleidyddiaeth ac Astudiaethau Rhyngwladol o 2015) yn dringo i'r 150 uchaf am y tro cyntaf.

Bellach yn ei phedwaredd flwyddyn, gwerthuswyd 3,467 o brifysgolion a rhestrwyd 971 o sefydliadau yn y *QS World University Rankings* yn ôl pwnc. Dadansoddwyd dros 82 miliwn o ddyfyniadau a briodolwyd, a gwiriwyd darpariaeth 13,132 o raglenni.

Stori lawn: **www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2015/04/title-166437-cy.html**



*Y cyfreithiwr hawliau dynol rhyngwladol Mitch Robinson yn edrych yn ôl ar ei gyfnod ym Mhrifysgol Aberystwyth a'r dref y mae'n alw yn 'ail gartref'*




*Geiriau: Matthew Pryce-Barnett*

Cyn-fyfyriwr o Aberystwyth sydd bellach yn arbenigwr ar gyfraith ryngwladol yw Mitch Robinson, ac mae'n dweud fod ganddo ddau gartref, Mississippi ac Aberystwyth.

Ac efallai fod miloedd o filltiroedd rhyngddynt, ond gyda'i gilydd maent wedi creu gyrfa sydd wedi mynd ag ef i galon y sefydliad yn yr Unol Daleithiau a golygu ei fod wedi bod yn rhan o un o bynciau llosg mwyaf heriol hanes modern – Bae Guantanamo. Yno mae ei waith wedi bod yn allweddol wrth gael adroddiadau a chynseiliau arloesol gan y Cenhedloedd Unedig o ran hawliau proses briodol ac adsefydlu dioddefwyr artaith.

Cafodd Mitch Robinson ei fagu ym Mherfeddion y De yn yr Unol Daleithiau ac yno daeth i gysylltiad yn ifanc iawn â materion hawliau sifil. Ar ôl astudio yn Birmingham, Alabama, daeth ysgoloriaeth ag ef i Brifysgol Caeredin i astudio am radd Meistr mewn gwleidyddiaeth ryngwladol. Digwyddodd hynny hefyd ar adeg allweddol mewn hanes, fel yr esbonia:

"Roedd fy awyren yn hwyr yn hedfan oherwydd yr ymosodiad ar Ganolfan Masnach y Byd ar 9/11 a hynny wedi newid y byd modern.

"Peth diddorol i mi oedd sylwi nad oedd neb yn y gymuned academaidd yng Nghaeredin fel petaent wedi rhagweld digwyddiad o'r fath, tra bod yr holl lyfrau mwy proffwydol wedi'u hysgrifennu gan bobl o Brifysgol Aberystwyth – felly penderfynais fynd yno am dro."

Teithio yno ar y trên wnaeth Mitch a rhoddodd hynny ynddo'i hun deimlad ychydig yn hudol braidd iddo wrth droelli drwy'r cefn gwlad dramatig i gyrraedd Aberystwyth. Dyma dref oedd yn ymddangos yn berffaith ym mhob ffordd iddo, ac mae'n sôn bron yn delynegol am ei ymweliad cyntaf.

"Roedd y dref yn union beth roeddwn yn chwilio amdano. Roedd yn lle cyfeillgar, bach ond heb fod yn rhy fach, arfordir prydferth – dydw i erioed wedi byw wrth y môr. Roedd yn anhygoel i mi pa mor fywiog oedd y lle a faint o amrywiaeth y gallech ei gael mewn lle mor fach.

"Wrth edrych yn ôl, roedd y dref a'i hawyrgylch rhyfeddol wedi fy nenu cymaint â'r brifysgol a'i henw da. Rydych yn dod i Fachynlleth ac yna am y 30 munud olaf rydych ond yn ymlacio, ac mae'r daith yna yn un mor arbennig i mi oherwydd bod yna wir ymdeimlad o fynd i mewn i rywle sydd bron yn hudol. Mae yna synnwyr o ddirgelwch a gallaf ddeall sut yr oedd pobl 1500 o flynyddoedd yn ôl yn arfer edrych i mewn i'r bryniau ac rydych bron yn gallu synhwyro'r dreigiau a'r marchogion. Yn fy marn i mae'n wirioneddol hudolus a chyfareddol.

"Mae yna rywbeth hefyd am y daith trên yna sy'n gwneud i chi deimlo eich bod yn gadael popeth y tu ôl i chi – mae'r rhamantiaeth sy'n gysylltiedig â threnau efallai yn cyd-fynd â'r lle ei hun. Ychwanegwch at hynny y daith o gwmpas yr aber a'r Borth ac rydych yn teimlo eich bod yn mynd i le gwahanol ac i amser gwahanol."

> "Roedd y dref yn union yr hyn roeddwn yn chwilio amdano. Roedd yn gyfeillgar, bach ond nid yn rhy fach, ac arfordir hardd ger y môr"

Cafodd ei daro hefyd gan egni ac amrywiaeth y lle. "Mae Aberystwyth yn dref ryfeddol o gosmopolitan ac organaidd, a rhywbeth rwyf wedi sylwi arno ers i mi adael yw'r adfywiad mawr yng Nghymru. Mae'r holl gaffis a llefydd diwylliannol sydd wedi agor yn datgelu cymdeithas flaengar iawn, ond hefyd un sy'n cofleidio ei threftadaeth. Mae'n gyfuniad o'r gorffennol a'r dyfodol – roedd hi felly bryd hynny hefyd mewn llawer o ffyrdd ac roedd yn llawer o hwyl. Hefyd, doedd neb arall o Mississippi yno ac felly roeddwn i'n chwilfrydig, ond roedd pobl yn groesawgar iawn; roedd yn teimlo fel gartref."

I ychwanegu at yr ymdeimlad o ddirgelwch, mae gan Mitch dras Gymreig ac mae wedi meddwl yn aml tybed a oedd rhywfaint o gof genetig ynddo, rhyw ymdeimlad o ddod adref. "Roedd rhai o fy hynafiaid yn Forganiaid, ac wrth edrych yn ôl rwy'n sylweddoli fod gen i etifeddiaeth Gymreig nad oeddwn erioed yn gwybod amdano. Felly rwy'n meddwl bod rhywbeth eithaf teuluol am y peth, rhywbeth sydd efallai yn y gwaed a rhywbeth dydych chi ddim bob amser yn ei ddeall. Dyma bobl a oedd yma yng Nghymru ers miloedd o flynyddoedd, ac yna am ychydig o genedlaethau roedd yna ymfudwyr ac rwy'n meddwl fod yna rywbeth anniffiniol, rhywbeth yn atseinio ynof ar y lefel honno."

Yn Aberystwyth dechreuodd ar gwrs LLM, gan ymgolli'n llwyr mewn amgylchedd academaidd heriol, bywiog a oedd yn amheuthun o ddadansoddol a chreadigol. A chafodd dau unigolyn yn arbennig effaith ddofn arno ef a'i ffordd o feddwl: Chris Harding yn Adran y Gyfraith a Ken Booth yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

"Roeddent yn ddeallusion a meddylwyr rhagorol, ac eto yn ddynion gwahanol iawn. Roeddwn yn gweithio ar ddau ben y sbectrwm o ran arddull addysgu ac astudio, ond y ddau yr un mor drwyadl. A'r un peth sydd ganddynt yn gyffredin yw eu bod yn rhoi myfyrwyr yn gyntaf, maent yn ddynion sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr. Felly roedd gen i ddau fentor a oedd yn hollol wahanol, ac mae'r hyn rwy'n ei wneud nawr yn gyfuniad o'r ddau ddull.

"Mae agwedd Chris tuag at y gyfraith yn un artistig iawn ac yn un drwy brofiadau – rwy'n aml yn dweud fod ganddo 'gyfreitheg trwy brofiad' (*experiential jurisprudence*). Roedd yn gallu gwneud cysylltiadau rhwng meysydd gwahanol y gyfraith, celf, dynoliaeth a'r byd academaidd ac roedd hynny'n ysbrydoledig. Byddem yn mynd i'r dafarn a thrafod y gyfraith ond byddai'n taflu cerddoriaeth a darlleniadau llenyddol i'r pair hefyd – caem ddosbarth meistr ar y dyniaethau. Roedd hynny ynddo'i hun yn broses ddysgu o ran sut i feddwl, roedd yn graff ac yn ddirfodol iawn tra bod y gyfraith yn gallu bod yn bwnc difywyd.

"Ar yr un pryd, mae gan Ken Booth feddwl hynod feirniadol a llym. Mae'n berson sy'n gallu troi syniad neu gysyniad wyneb i waered mewn eiliad: mae fel petai pawb yn gweld un peth, ond mae o'n gweld rhywbeth arall. Yn fwy na dim, byddai'n gweld sut y gellid gwella rhywbeth, taflu deinameit at ragdybiaeth a'i ffrwydro, ond yna mynd ati'n drylwyr iawn i adeiladu damcaniaeth neu fodel arall mwy addas. Nid meddwl yn radical yw hyn: mae'n ymwneud â meddwl yn radical o drylwyr. Dydi hi ddim yn ddigon dweud bod rhywbeth yn ddrwg, neu'n anghywir, rhaid i chi wneud gwaith trylwyr o egluro sut y gall fod yn well."

Roedd hi hefyd yn gyfnod o 'dwf personol eithriadol' i Mitch. Yn ei eiriau ef: "Mae Aberystwyth yn rhyw fath o swigen, er yn un ysgogol iawn. Roeddwn yn cymysgu gyda llawer o bobl o wahanol rannau o'r byd, ac mae hynny yn gallu bod yn anodd. Mi wnaeth yn sicr helpu i hogi fy ffordd o feddwl ac ehangu fy meddwl mewn ystyr hollol gadarnhaol ac roedd yn brofiad dwys, yn ddeallusol ac yn emosiynol. Ac mi gredaf mai dyma wnaeth greu'r cwlwm go iawn rhyngof i a'r brifysgol a'r dref. Rwyf bob amser yn dweud mai dim ond dau le yr ydw i erioed wedi'u galw'n gartref: Mississippi yw un ac Aberystwyth yw'r llall. Mississippi yw cartref fy enaid, ond popeth a ddysgais erioed, mi wnes ei ddysgu yn Aberystwyth."

Ar ôl cwblhau ei radd Meistr, gweithiodd Mitch am gyfnod byr yn Beijing cyn dechrau ar ddoethuriaeth mewn Cyfraith Ryngwladol yn Sefydliad Graddedigion Astudiaethau Rhyngwladol Genefa, gan ganolbwyntio ar lafur gorfodol a masnachu mewn pobl. Ond nid oedd yn hir cyn bod hud Aberystwyth yn dechrau cael effaith arno, ac fe'i cafodd ei hun yn dychwelyd i'w 'ail gartref'.



*Chwith i'r dde*

*Yr Athro John Williams, Pennaeth Adran y Gyfraith; yr Athro Jenny Mathers, Pennaeth yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol; Mitch Robinson a'r Is-Ganghellor yr Athro April McMahon mewn trafodaeth banel ar hawliau dynol a chyfraith ryngwladol a gynhaliwyd yn Aberystwyth.*

"Roeddwn wrth fy modd yn Aberystwyth ac roeddwn angen y sefydlogrwydd a'r gefnogaeth oedd yno, felly es yn ôl i fyw yn y Borth a chymudo i'r Llyfrgell Genedlaethol. Roedd misoedd olaf fy PhD yn berffaith – roedd gen i gydbwysedd. Gallu edrych allan ar y môr eto, cael fy ffrindiau o 'nghwmpas a mynd i Ganolfan y Celfyddydau. Y peth gwych am fod yn ôl yn Aberystwyth oedd bod y PhD yn rhan o fy mywyd, ond nid fy mywyd i gyd."

Ar ôl cwblhau ei ddoethuriaeth, teithiodd Mitch i Oslo i swydd ôl-ddoethur gwadd, ac ar ôl hynny cafodd alwad gan y Pentagon. Mae ei waith nawr ymhlith rhai o'r mwyaf amlwg a heriol unrhyw le yn y byd, ac yntau'n gweithio ar y tîm amddiffyniad cyfreithiol sy'n cynrychioli carcharor yn Guantanamo sy'n cael ei roi o flaen ei well gan dribiwnlys milwrol cyfrinachgar.

Esbonia Mitch: "Mae'r unigolyn wedi cael ei arteithio, ac fe gafodd y tribiwnlys ei sefydlu i osgoi cyfansoddiad yr Unol Daleithiau a threialon sifil. Yr enw ar y math o waith penodol rwy'n ei wneud yw cyfreitha anuniongyrchol (*collateral litigation*), sef bod treial wedi'i gynnal sydd yn gam anghyfiawn yn erbyn hawliau dynol sylfaenol, ond yn bwysicaf oll, treial sy'n groes i gyfansoddiad yr Unol Daleithiau. Mae hefyd yn torri cyfraith ryngwladol, ac felly cefais fy nghyflogi gan lywodraeth yr Unol Daleithiau i fynd ag amgylchiadau ei achos a'r drosedd yn erbyn ei hawliau unrhyw le yn y byd i fforwm cyfreithiol rhyngwladol i glywed ei achos a cheisio cymryd camau o blaid yr unigolyn."

> "Rwyn gwneud yn union yr hyn y gwnaeth Aberystwyth fy hyfforddi i'w wneud"

Yn rhannol o ganlyniad i'r gwaith hwn a'i gyfraniad at achos cyfraith hawliau dynol, yn gynharach eleni dyfarnwyd Gwobr Cyflawniad Proffesiynol iddo yng Ngwobrau Alumni Addysg y Deyrnas Unedig gan Gyngor Prydeinig yr Unol Daleithiau 2015. Mae ei deimladau am y wobr yn rhai cymysg:

"Roedd hi'n fraint aruthrol, wrth gwrs, ond rwy'n amheus amdano oherwydd bod y person rwy'n gweithio i'w dîm yn dal i ddioddef ym Mae Guantanamo. Y peth pwysig yw fy mod yn gwneud yn union yr hyn y gwnaeth Aberystwyth fy hyfforddi i'w wneud, ac felly mae'r wobr yn fwy i'r brifysgol lle es i 10 mlynedd yn ôl."

Felly, beth mae Mitch yn teimlo ei fod wedi cael gan Aberystwyth, nid yn unig o ran ei waith ond o ran pwy ydyw?

Ar ôl saib hir, meddai: "Dywedodd fy nhaid wrthyf unwaith, ychydig cyn iddo farw, mai'r un peth nad oes modd ei gymryd oddi arnoch yw eich addysg. Mae popeth arall yn gallu cael eu cymryd oddi arnoch. Ac ar ôl gweithio yn Guantanamo mae hynny'n wir iawn - rwyf wedi gweld popeth wedi'i gymryd oddi ar rywun. Mi wnaeth Aberystwyth fy addysgu, ac felly mae wedi rhoi'r un peth hwnnw nad oes modd ei gymryd oddi arnaf. Rwyf innau wedyn yn gallu defnyddio hynny i helpu i sicrhau bod y carcharor yn cael ei hawliau sylfaenol yn ôl ac amddiffyn rheolaeth y gyfraith. Mi wnaeth hefyd roi tair blynedd wych i fi y byddaf yn eu cofio am byth, rhai o flynyddoedd hapusaf fy mywyd."

# BYWYD NEWYDD I'R HEN GOLEG

## Y DIWEDDARAF O'R TÎM PROSIECT

Cyrhaeddodd ein cynlluniau ar gyfer yr Hen Goleg, sy'n annwyl i bawb, garreg filltir bwysig gyda chyflwyno cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri ym mis Rhagfyr 2015. Cymeradwyodd Bwrdd Prosiect *Bywyd Newydd i'r Hen Goleg,* sy'n cynnwys aelodau o Gyngor y Brifysgol, staff y Brifysgol a chynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol, Cyngor y Dref, Undeb y Myfyrwyr a Chymdeithas Cyn-fyfyrwyr Aberystwyth, ein cynlluniau i ymgeisio am £9.93 miliwn tuag at gostau llawn y prosiect sef £19.47 miliwn.

Mae'r Hen Goleg yn adeilad rhestredig Gradd 1 ac yn un o adeiladau mwyaf nodedig Prydain o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn arddull yr adfywiad Gothig. Bwriad y Brifysgol yw adfer yr adeilad i'w ogoniant blaenorol a'i drawsnewid yn ganolfan treftadaeth, dysgu a menter lewyrchus i'r brifysgol a'r dref, gan ddenu cynulleidfa genedlaethol a rhyngwladol. Disgwylir y caiff y gwaith ei gwblhau erbyn dathliadau canmlwyddiant a hanner y Brifysgol yn 2022.

Yn ôl Louise Jagger, Cyfarwyddwr y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni: "Mae barn a brwdfrydedd ein cyn-fyfyrwyr a'n cefnogwyr ledled y byd wedi bod yn rhan hanfodol bwysig o'r cynlluniau, ac o ddiddordeb penodol i Gronfa Treftadaeth y Loteri a chyrff cyllido eraill rydym ni wedi ymgynghori â nhw. Maen nhw wedi ein helpu ni i ddynodi anghenion a chyfleoedd ar gyfer ailbennu diben yr adeilad, a chynorthwyo ein penderfyniad i agor dros 75% ohono i'r cyhoedd ochr yn ochr â chyfleusterau addysgu a chymorth i fyfyrwyr. Rydyn ni am annog perthynas agosach rhwng y brifysgol a'r dref a meithrin cydlyniad cymunedol."

Yn benodol bydd yr Hen Goleg 'newydd' yn gartref i'r canlynol:

- Profiad ymwelydd sy'n dehongli ein casgliadau treftadaeth a'n harchifau drwy arddangosfeydd;
- Ystafelloedd y gellir eu harchebu a phecynnau lletygarwch hyblyg ar gyfer cyfarfodydd preifat/cyhoeddus, digwyddiadau, perfformiadau, cynadleddau ac achlysuron;
- Gofodau y gellir eu prydlesu ar gyfer entrepreneuriaid ifanc, artistiaid a chwmnïau newydd o'r gymuned a'r Brifysgol;
- Gofod â chyfleusterau digonol i wneuthurwyr sy'n galluogi myfyrwyr a'r gymuned;
- Gofodau addysgu/astudio hyblyg ar gyfer mentrau rhyngddisgyblaethol, fel dysgu a sgiliau i gynorthwyo pobl ddi-waith i gael swyddi, a Chymraeg i Oedolion;
- Cyfleusterau cymorth a llesiant i fyfyrwyr, gan gynnwys Canolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiad Cymdeithasol y Brifysgol;
- Cyfleuster arlwyo, lletygarwch a masnachu i fyfyrwyr, y gymuned, ymwelwyr a digwyddiadau, yn canolbwyntio ar gynhyrchion lleol a Chymreig.

Mae'r Hen Goleg yn adeilad eiconig ar bromenâd y dref, ac mewn safle delfrydol i ddenu pobl i ymweld yn rheolaidd fel rhan o rythmau dyddiol bywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Aberystwyth ac sydd - yn bwysig - yn cynnig cyfle i gynulleidfaoedd annhraddodiadol a rhyngwladol ymgysylltu a ffurfio perthynas â'r Brifysgol ac â'r dreftadaeth.

Daeth y Brifysgol i fod drwy gefnogaeth gyhoeddus ac fe'i seiliwyd ar egwyddor cynwysoldeb. Drwy ailwampio'r Hen Goleg er budd y cyhoedd rydym yn cydnabod y dyledion hynny. Rydym yn ddiolchgar am yr holl gefnogaeth ac anogaeth a byddwn yn parhau i'ch hysbysu am ddatblygiadau mawr y prosiect a chanlyniad ein cais, a ddisgwylir ym mis Mai 2016. Yn y cyfamser, cysylltwch â'r Tîm Prosiect ar **hengoleg@aber.ac.uk** neu 01970 621568 os hoffech ragor o wybodaeth am ein cynlluniau neu os hoffech drafod sut y gallech chi eu cynorthwyo.



# Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr

Sefydlwyd y Gymdeithas yn 1892, a thros 120 o flynyddoedd yn ddiweddarach, mae ganddi dros 8000 o aelodau ar draws y byd, gyda hoffter am y Brifysgol hanesyddol ac annwyl hon rhwng y mynydd a'r môr yn eu huno.

Drwy gydol ei hanes, gan ddechrau yn y 1890au pan helpodd i godi arian i gwblhau adeilad y coleg, mae'r Gymdeithas wedi cefnogi'r Brifysgol ac wedi bod yn bwynt cyswllt ar gyfer cynnal ac ailgynnau cysylltiadau a chyfeillgarwch rhwng myfyrwyr. Erbyn heddiw caiff y nod hwn ei barhau mewn digwyddiadau cymdeithasol, ymgyrchoedd codi arian a hyrwyddo Prifysgol Aberystwyth yn weithredol i'r byd. Mae Pwyllgor y Gymdeithas yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn ac yn trefnu aduniad bob blwyddyn, a hwnnw bron bob amser yn Aber – ac eithrio yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Fyddai hi ddim wedi bod yn bosib i'r Gymdeithas barhau ers 1892 oni bai ei bod yn barod i addasu a newid, a chadw ei llais annibynnol a'i pherthynas gefnogol gynnes â Phrifysgol Aberystwyth yr un pryd. Os hoffech helpu i ffurfio dyfodol y Gymdeithas, cysylltwch â'r Ysgrifennydd Mygedol ar osaadmin@aber.ac.uk neu 01970 621568.



## Neges gan y Llywydd, Steve Lawrence

Anrhydedd o'r mwyaf yw cael gwasanaethu am ail dymor yn Llywydd ar Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr. Fel y dywedais yn rhifyn diwethaf PROM, rwy'n teimlo'n arbennig o freintiedig fy mod wedi fy ethol o ystyried yr unigolion eithriadol a'm rhagflaenodd. Daeth y newyddion trist am farwolaeth un o'r cyn Lywyddion hynny, Ken Young CBE, yn gynharach eleni, a cheir teyrnged iddo ar dudalen 41. Roedd Ken yn ŵr caredig, deallus a haelfrydig, ac roedd ganddo feddwl mawr iawn o'i *alma mater*. Gweithiodd yn ddiflino i hybu cyfleoedd i gyn-fyfyrwyr Aberystwyth i gadw cysylltiad â'r Brifysgol, gan gynnig anogaeth iddynt, lle bo angen hynny, i roi cefnogaeth weithredol i brosiectau a rhaglenni. Gwyddai, wrth gwrs, am yr amryw grwpiau anffurfiol ymhlith cyn-fyfyrwyr Aber, ond roedd ei falchder yng Nghymdeithas y Cyn-fyfyrwyr fel cynrychiolydd swyddogol iddynt bob amser yn amlwg. Fel y dywedodd droeon, nid ar ddamwain na thrwy gyd-ddigwyddiad y mae'r gymdeithas hon, yn ôl pob tebyg, wedi para'n ddi-dor yn hwy na'r un gymdeithas arall o'r fath ym Mhrydain. Mae ganddi ganghennau ledled y DU a thramor – yn fwyaf nodedig ym Malaysia ac yn Hong Kong. O ystyried yr hanes clodwiw hwn, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Brifysgol i ddatblygu ymhellach ei chysylltiadau â chyn-fyfyrwyr yn rhyngwladol, ac mae Efrog Newydd a Washington eisoes wrthi'n trefnu canghennau. Rwy'n siŵr y cewch glywed y newyddion diweddaraf am y mentrau hyn, ac eraill, mewn rhifynnau o'r cylchgrawn hwn yn y dyfodol.

Rhan bwysig arall o hanes Aber yw'r Hen Goleg. Y Coleg ger y Lli oedd sefydliad prifysgol cyntaf Cymru ac mae safle'r Hen Goleg yn dal i fod yn symbol nodedig o addysg uwch yng Nghymru heddiw. Mae wedi rhoi cyfle gwych i fyfyrwyr o Gymru, o wledydd eraill Prydain ac o bob cwr o'r byd i ehangu eu doniau nid yn unig drwy ddysgu ond hefyd drwy'r ffenomen gymdeithasol a diwylliannol a adwaenir fel 'Ysbryd Aber'. Heddiw, mae'n adeilad rhestredig gradd 1 yn arddull Gothig Canol Oes Fictoria ac mae ymhlith yr adeiladau mwyaf arwyddocaol a godwyd yn y 19eg ganrif yng ngwledydd Prydain. Daeth yn amlwg drwy ein gwaith ymgynghori ei fod yn allweddol i ddelwedd a chanfyddiad pobl o ardal glan y môr a'r 'hen dref' hanesyddol. Ac eto, mae'n gymharol 'anodd ei drin', oherwydd ei statws rhestredig, ei bensaernïaeth eclectig a'r anawsterau niferus, yn ôl safonau heddiw, o safbwynt hygyrchedd. O'r herwydd, ni chaiff ei ddefnyddio ryw lawer ar hyn o bryd ac mae'r Brifysgol yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â hynny. Oni chaiff ei ailwampio'n llwyr mae perygl y bydd yr Hen Goleg yn dadfeilio a chydnabyddir y byddai peidio â'i adfer a'i adfywio nid yn unig yn methu â pharchu a gwerthfawrogi ein treftadaeth ond hefyd yn creu

## DIGWYDDIADAU I'W NODI YN 2016

Cynhelir yr Aduniad Blynyddol yn Aber ddiwedd mis Mehefin 2016 ac mae ar agor i aelodau Cymdeithas y Cyn-Fyfyrwyr a hefyd y rheini nad ydyn nhw'n aelodau. Rydyn ni wrthi'n gweithio ar y rhaglen a byddwn yn lledaenu'r neges yn gynnar yn 2016 felly edrychwch am wybodaeth yn dod i'ch cyfeiriad chi yn y cylchlythyr alumni, yn eich mewnflwch a chofiwch ddiweddaru eich manylion gyda ni drwy'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn anfon i'r lle cywir!

gwendid mawr yn strategaethau adfywio tref Aberystwyth a'r Canolbarth. O ganlyniad, sefydlwyd Bwrdd Prosiect, dan gadeiryddiaeth Dirprwy Ganghellor y Brifysgol, Gwerfyl Pierce Jones, ac arno gynrychiolaeth o Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr yn rhinwedd aelodaeth y Llywydd o'r grŵp. Ei nod yw helpu i sefydlu, datblygu a gwireddu 'Bywyd Newydd i'r Hen Goleg' yn brosiect blaenllaw yn strategaeth Prifysgol Aberystwyth i feithrin cyswllt â'r cyhoedd. Bydd hyn yn creu cyfleoedd integredig a chynhwysol i gynulleidfaoedd amrywiol i ymwneud â'r adeilad ac â chasgliadau hanesyddol y Brifysgol. Y nod yw gwireddu'r weledigaeth hon erbyn pen-blwydd ein Prifysgol yn 150 yn 2022. Gwneir hyn gyda chefnogaeth y gymuned leol, partneriaid, cyllidwyr a rhanddeiliaid - gan gynnwys 60,000 o gyn-fyfyrwyr ledled y byd - a bydd yn adeiladu ar y cyfoeth o deimladau cadarnhaol tuag at yr Hen Goleg a'i dreftadaeth unigryw.

Gwyddom o brofiad fod gan y cyn-fyfyrwyr lawer iawn i'w roi'n ôl i Aber a hynny'n aml iawn yn deillio o awydd i gefnogi'r myfyrwyr presennol. Amlygwyd hynny'n ddiweddar drwy rodd hynod hael gan Peter Hancock a Pat Pollard (née Trevitt). Cefais y fraint o gwrdd â'r ddau pan ddaethant i ymweld â Champws Penglais yn gynharach eleni a gwnaeth eu hymdeimlad cryf o fod eisiau rhoi rhywbeth yn ôl i rywle a oedd yn amlwg yn bwysig iawn iddynt argraff fawr arnaf. Cewch glywed mwy am y datblygiad cyffrous ac allweddol hwn yn nhudalennau PROM!

Os hoffech gael gwybod mwy am y Gymdeithas a'i gweithgareddau, gan gynnwys darlithoedd, aduniadau, canghennau ac yn y blaen, mae croeso i chi gysylltu â Louise Perkins, yr Ysgrifennydd er Anrhydedd, **lnp@aber.ac.uk**, neu ffonio 01970 622081.

## DARLITH LLANYMDDYFRI:
## *DR NATASHA DE VERE USING DNA BARCODING TO UNDERSTAND THE WORLD OF POLLINATORS*



Uchafbwynt arall fydd Darlith Llanymddyfri a gynhelir ddydd Sadwrn 4 Mehefin yng Ngholeg Llanymddyfri. Rydyn ni'n ffodus iawn ein bod wedi gallu denu Dr Natasha De Vere i siarad eleni. Mae Dr De Vere yn gweithio i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru gan gyfuno hyn gyda'i gwaith yn Uwch-ddarlithydd rhan amser yn IBERS yn Aber.

Botanegydd yw Natasha ac mae ganddi ddiddordeb arbennig mewn bioleg cadwraeth, sydd wedi profi llwyddiant o ran ymchwil gyda chreu cod bar DNA ar gyfer holl fflora brodorol Cymru - y genedl gyntaf drwy'r byd i gyflawni hyn. Mae'r prosiect bellach wedi ehangu i ffurfio Cod Bar y DU a datblygu cymwysiadau sy'n defnyddio'r adnodd ar gyfer bioamrywiaeth. Mae Natasha'n ymwneud yn eang ag ymgysylltu'r cyhoedd â gwyddoniaeth, ac mae ganddi ddiddordebau penodol yn datblygu prosiectau cydweithredol rhwng y celfyddydau a'r gwyddorau, gan ddatblygu cysylltiadau a phrosiectau cydweithredol drwy'r byd.

Cost tocynnau'r ddarlith yw £22 sy'n cynnwys coffi a chinio, a'n gobaith yw cynnig taith grŵp o'r Ardd Fotaneg Genedlaethol yn y prynhawn (mynediad £7.50). Mae tocynnau ar gael oddi wrth Kay Powell drwy'r Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr d/o DARO, Adeilad Cledwyn, Penglais, Aberystwyth SY23 3DD neu **osaadmin@aber.ac.uk** neu 01970 621568.

Cynhelir derbyniad blynyddol Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf a'r aduniad ar y Maes yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst, ynghyd â digon o weithgareddau lleol drwy ganghennau Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr yn y gogledd orllewin, Caerdydd, Llundain ac wrth gwrs, Aberystwyth. Croeso i bawb!

# Anrhydeddau Graddio 2015



*Wythnos y graddio yw uchafbwynt gorfoleddus y flwyddyn academaidd, pan fo Aberystwyth yn dathlu llwyddiannau ei myfyrwyr gyda'u teuluoedd, eu cyfeillion a'r staff academaidd a'u cynorthwyodd i gyrraedd eu nodau academaidd yn Aberystwyth.*

# Cymrodorion

*Mae'r Brifysgol hefyd yn dathlu ac yn anrhydeddu'r unigolion hynny a wnaeth gyfraniad eithriadol i'r sefydliad, neu i fywyd proffesiynol a chyhoeddus Cymru, drwy gynnig Cymrodoriaethau er Anrhydedd, ac am y tro cyntaf eleni, Graddau er Anrhydedd.*

## Julia Gillard




Yn 2010 cafodd Ms Gillard ei hethol yn arweinydd Plaid Lafur Awstralia, a hi oedd y fenyw gyntaf i ddod yn Brif Weinidog ar y wlad. Bu Ms Gillard, a anwyd yn y Barri, yn Brif Weinidog am dair blynedd, a chyflwynodd bolisïau a weddnewidiodd y genedl gan gynnwys diwygio system addysg Awstralia ar bob lefel o blentyndod cynnar i addysg prifysgol, creu cynllun masnachu allyriadau, gwella darpariaeth gofal iechyd a datblygu a chryfhau polisi tramor.

## Eurwen Richards




Yn un o gyn-fyfyrwyr Aberystwyth, Eurwen yw'r fenyw gyntaf i'w phenodi'n Feistr Caws yn y DU. Ar ôl gweithio yn uned laeth y Brifysgol, aeth ymlaen i weithio i Marks & Spencer a Dairy Crest a daeth yn Llywydd y Gymdeithas Technoleg Llaeth. Mae wedi ennill nifer o wobrau ac mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru wedi enwi gwobr ar ei hôl, 'Gwobr Eurwen Richards am y Caws Gorau o Gymru'.

## Yr Athro Robin Williams CBE



Yn ymchwilydd ac yn aelod o fwrdd ymgynghorol Canolfan Deunyddiau a Dyfeisiau Swyddogaethol Uwch Prifysgol Aberystwyth, yn 2004 cafodd yr Athro Robin Williams ei dderbyn yn Gymrawd y Gymdeithas Frenhinol a dyfarnwyd CBE iddo am ei gyfraniad i ymchwil mewn addysg uwch. Mae'n dal nifer o swyddi uchel eu bri, ac yn eu plith mae'n aelod o Gyngor Cynghori ar Wyddoniaeth Cymru.

## Yr Athro Miguel Alario-Franco



Yr Athro Franco yw sylfaenydd y Grŵp Cemeg Cyflwr Soled ym Mhrifysgol Complutense ym Madrid, lle mae bellach yn Athro Emeritws. Mae hefyd wedi dal swydd bwysig Llywydd Academi Frenhinol y Gwyddorau yn Sbaen. Bu'n gweithio yn Aberystwyth am ddwy flynedd a hanner o 1972 ymlaen ac mae wedi ysgrifennu pedwar patent a 290 o bapurau ymchwil y cyfeiriwyd atynt dros 3000 o weithiau.

## Arglwydd Bourne o Aberystwyth




Mae'r Arglwydd Bourne yn Arglwydd Preswyl (Gweision EM) (Chwip) ac yn gyn-fyfyriwr o Brifysgol Aberystwyth, ac mae ganddo gysylltiadau cryf â'r Brifysgol o hyd. Ar ôl Etholiad Cyffredinol 2015, cafodd ei benodi yn Is-Ysgrifennydd Seneddol yn yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd ac mae'n aelod o Fwrdd Ymgynghorol Canolfan Materion Cyfreithiol Cymreig Prifysgol Aberystwyth.

## Debbie Moon



A hithau'n un o gyn-fyfyrwyr Adran Ddrama'r Brifysgol, mae Debbie wedi datblygu portffolio o waith ysgrifennu ac ysgrifennu ar gyfer y sgrin. Hi greodd y gyfres deledu i blant a enwebwyd am BAFTA, *Wolfblood*, a ddangosir ar CBBC, a chyfrannodd Debbie hefyd at ail gyfres *Y Gwyll*. Mae ganddi gysylltiadau cryf â'r Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes, Canolfan Celfyddydau Aberystwyth a'r Brifysgol yn ehangach.

## Dr Lyn Evans



Yn ystod ei yrfa hir ym maes Ffiseg, mae Lyn Evans wedi cymryd rhan ym mron pob un o brosiectau mawr y Sefydliad Ewropeaidd ar gyfer Ymchwil Niwclear (CERN). Ers 1993, arweiniodd y tîm fu'n gyfrifol am gynllunio, adeiladu a chomisiynu'r Peiriant Gwrthdaro Hadron Mawr (LHC), ac yn 2012 dyfarnwyd iddo'r Wobr Ffiseg Sylfaenol Arbennig am ei gyfraniad i ddarganfod boson Higgs.

## Dr Francesca Rhydderch



Enillodd Dr Francesca Rhydderch ddoethuriaeth mewn Llenyddiaeth Saesneg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Cyrhaeddodd ei nofel gyntaf *The Rice Paper Diaries* restr hir Gwobr Nofel Gyntaf Orau Clwb yr Awduron ac enillodd Wobr Ffuglen Llyfr y Flwyddyn yn Saesneg yn 2014. Mae'n gyn-olygydd y *New Welsh Review*, ac yn Athro Cysylltiol mewn Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Abertawe.


## Iolo Williams



Yn frodor o Lanwddyn ym Mhowys, enillodd Iolo Williams radd mewn ecoleg yng Ngholeg Polytechnig Gogledd-ddwyrain Llundain. Ar ôl bron i 15 mlynedd yn Swyddog Rhywogaethau'r RSPB yng Nghymru, dechreuodd weithio i BBC Cymru ac S4C, lle mae wedi gwneud dros 20 o gyfresi ac wedi cyflwyno sawl cyfres ar y rhwydwaith, gan gynnwys *Birdman*, *Wild Wales* a *Springwatch*.

# Graddau Doethur er Anrhydedd

## Dylan Iorwerth



Mae Dylan Iorwerth yn newyddiadurwr ac yn un o gyn-fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth. Cafodd ei benodi'n ohebydd gwleidyddol BBC Cymru yn Llundain ac roedd yn un o gyd-sylfaenwyr y papur Sul Cymraeg *Sulyn*, a'r cylchgrawn wythnosol *Golwg*. Mae wedi ennill nifer o wobrau llenyddol ac mae'n awdur ac yn gyflwynydd radio a theledu. Dylan yw Golygydd Gyfarwyddwr Golwg Cyf sy'n cyhoeddi *Golwg* a'r gwasanaeth newyddion ar-lein *Golwg360*.


## Yr Athro Huw Cathan Davies OBE



Yn un o gyn-fyfyrwyr Aberystwyth, enillodd yr Athro Huw Cathan Davies ddoethuriaeth ym Mhrifysgol Llundain, cyn mynd ymlaen i weithio fel Ymchwilydd yn yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yn NASA yn Virginia. Mae hefyd wedi bod yn aelod o Gyngor Ymchwil Cenedlaethol y Swistir a Chyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol yn y DG, ac mae'n Gymrawd y Gymdeithas Feteoroleg Frenhinol.

# Graddau Baglor er Anrhydedd

## Bryn Jones



Bryn Jones yw cydlynydd Fforwm Cymunedol Penparcau, grŵp y cynorthwyodd i'w sefydlu ar ôl i Cymunedau'n Gyntaf ddod i ben. Mae'n un o sylfaenwyr 'HAUL', grŵp celfyddydau a gofal iechyd lleol. Mae hefyd wedi bod yn Gadeirydd Cyngor Cymuned y Borth ac yn aelod cynorthwyol o Wylwyr y Glannau am 10 mlynedd, gan dderbyn tystysgrif am ei wasanaeth hir.

## Rhian Phillips



Mae Rhian Phillips yn gyn Bennaeth ar Ysgol Gynradd Plascrug, ac mae ganddi hanes hir ym myd addysg ac ymrwymiad cryf i'r maes. Mae'n angerddol dros ddarparu addysg o safon ragorol i ddisgyblion, ac mae'n eiriol dros ddimensiwn byd-eang mewn addysg. Fe'i penodwyd yn Llysgennad Dysgu Ysgolion Rhyngwladol dros Gymru gan y Cyngor Prydeinig, ac mae wedi teithio ar hyd a lled Ewrop yn hyrwyddo Dinasyddiaeth a Dysgu Byd-eang.

# GWOBRAU A CHYRAEDDIADAU

*Fel pob amser, mae cryn dipyn i'w ddathlu gan staff, myfyrwyr ac alumni Prifysgol Aberystwyth eleni. Isod ceir detholiad o'r rhain, a llongyfarchiadau i bob un ar ei lwyddiant.*

## PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

Enillodd partneriaeth yn cynnwys gwasanaethau llyfrgell Prifysgol Aberystwyth y categori Tîm Llyfrgell Arbennig yng Ngwobrau a Rheolaeth Addysg Uwch y *Times Higher Education 2015* (THELMAs).



Enillodd Prifysgol Aberystwyth Ddyfarniad Arian y Safon Iechyd Genedlaethol, sef y marc safon ar gyfer hyrwyddo iechyd yn y gweithle sy'n cael ei redeg gan Lywodraeth Cymru.

Enillodd IBERS *Variety Cup* NIAB am y math o laswellt AberGreen.

Aberystwyth yw'r 52ain yn y DG yn ôl y *QS World University Rankings*, gyda phum pwnc wedi eu rhestru ymhlith goreuon y byd.

Mae Aber wedi dringo 50 safle i gyrraedd y 501-550 ar gyfer 2015/16 yn y *Times Higher Education* World University Rankings.

Aberystwyth oedd y dringwr pennaf yn *The Times/The Sunday Times* Good University Guide, gan godi 14 safle eleni.

Campws Penglais oedd y campws prifysgol cyntaf yng Nghymru i ennill Gwobr y Faner Werdd, sy'n dynodi parc neu ofod gwyrdd o safon uchel. Mae'r wobr yn bartneriaeth ar draws y DG, sy'n cael ei gweithredu yng Nghymru gan Cadwch Gymru'n Daclus gyda chefnogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru.





Cydnabuwyd cyfraniad gwyddonydd y gofod, y diweddar Athro Dave Barns, pan dderbyniodd y prosiect Beagle 2 Wobr Syr Arthur Clarke 2015.



Cyrhaeddodd cynllun 'O'r Pridd i'r Plât' y Brifysgol y rhestr fer yng nghategori Bwyd a Diod y gwobrau cynaliadwyedd yng Ngwobrau'r Gynau Gwyrdd 2015.

## PENODIADAU

### PENODIADAU UWCH

**Daniel Benham** – Cyfarwyddwr Cyllid

**Dr Debra Croft** – Cyfarwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywioldeb

**Yr Athro Richard Beardsworth** – Cyfarwyddwr Moeseg

**Yr Athro Jo Crotty** – Ysgol Rheolaeth a Busnes

**John Glasby** – Pennaeth Gwasanaethau Masnachol

**Dr David Poyton** – Deon Campws Mauritius Prifysgol Aberystwyth

### PENAETHIAID ADRANNAU

**Dr Wini Davies** – Ieithoedd Modern

**Yr Athro Mike Christie** – Ysgol Rheolaeth a Busnes

### CADEIRIAU PERSONOL

**Yr Athro John Warren**, Athrofa'r Gwyddorau Biolegol ac Amgylcheddol

**Yr Athro Mike Humphreys**, Athrofa'r Gwyddorau Biolegol ac Amgylcheddol

**Yr Athro Marshall**, Athrofa'r Gwyddorau Biolegol ac Amgylcheddol

**Yr Athro Matthew Francis**, Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol

**Yr Athro Paul O'Leary**, Adran Hanes a Hanes Cymru

**Yr Athro Peter Merriman**, Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear

**Yr Athro Sian Eleri Pryse**, Adran Ffiseg

**Yr Athro Stephen Tooth**, Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear

**Yr Athro Ian Armstead**, Athrofa'r Gwyddorau Biolegol ac Amgylcheddol

**Yr Athro Paul Brewer**, Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear

**Yr Athro John Clifton-Brow**n, Athrofa'r Gwyddorau Biolegol ac Amgylcheddol

**Yr Athro Colin Cruise**, Yr Ysgol Gelf


**Yr Athro Joanne Hamilton**, Athrofa'r Gwyddorau Biolegol ac Amgylcheddol

**Yr Athro Glyn Jenkins**, Athrofa'r Gwyddorau Biolegol ac Amgylcheddol


**Yr Athro Judith Broady-Preston**, Astudiaethau Gwybodaeth

**Yr Athro Helen Roberts**, Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear

## Myfyrwyr a staff:



**Yn y gemau argyfwng Cyber 9/12** a gynhaliwyd yng Ngenefa cyrhaeddodd tîm ôl-raddedig Aberystwyth y rownd gynderfynol a chyrhaeddodd y tîm israddedig le yn y rownd derfynol, yn ogystal ag ennill y wobr am y 'Cyflwyniad Ysgrifenedig Gorau' yn y gystadleuaeth.




Cafodd **Dr Hannah Dee**, o'r Adran Cyfrifiadureg ei henwi gan *Computer Weekly* fel y **10fed wraig fwyaf dylanwadol mewn cyfrifiadura yn y DG**.



Enillodd **Jamie Harris** o'r Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol Wobr M Wynn Thomas am ysgolheictod arbennig mewn astudiaeth o ysgrifennu o Gymru yn Saesneg.



Cafodd tri o fyfyrwyr Aberystwyth, **Freya Boissonad**e, **Marc Diaper** a **Sophie Killer** eu coroni'n bencampwyr yn y gystadleuaeth Brolio / The Pitch, a drefnwyd gan y Sefydliad Siartredig Marchnata am yr ail flwyddyn yn olynol.



Enillodd **Jake Moses** a **Josh Lovell,** dau fyfyriwr y Gyfraith a Throseddeg o Gymdeithas Ymryson Prifysgol Aberystwyth y Gystadleuaeth Ymryson Genedlaethol Gymreig LexisNevis 2015.



Cafodd **Dr Jacqueline Jeynes** un o diwtoriaid yr Ysgol Addysg ac Astudio Gydol Oes ei henwi yn Ysgrifennwr y Flwyddyn gan *Freelance Market News/The Writer's Bureau.*



Enillodd myfyrwyr yn gweithio o dan yr enw '//no comment' yr ymgais gyffredinol orau am eu syniad 'bbc village' yn #newsHACK Wales



Rhian George sy'n fyfyrwraig yn IBERS yw Pencampwraig Prydain Beiciau Modur Oddi ar y Ffordd 2015



Hanner canrif ac yn parhau i gyhoeddi! Dathlodd yr Athro Ron Fuge o'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, hanner canrif o gyhoeddi gwyddonol pan dderbyniwyd ei bapur diweddaraf.



Enillwyd y gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2015 gan Dr Hywel Griffiths sy'n ddarlithydd yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear.



Yr Athro Emeritus Paul Ghuman (Ysgol Addysg a Dysgu Gydol OES) yw derbynnydd Gwobr 2015 Cymdeithas Seicolegol Prydain am Hyrwyddo Cyfleoedd Cyfartal am ei gyfraniad yn herio anghydraddoldebau yn y DG.




Mae Kate Hamer (MA Ysgrifennu Creadigol 2011) ar y rhestr fer ar gyfer Gwobr Costa am Nofel Gyntaf am ei llyfr *The Girl in the Red Coat*.



Cafodd Dr Rhian Hayward ei phenodi yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol Gwyddonol newydd Cronfa Pontio Gwyddorau Bywyd.



Mae delwedd o robot yn 'gwrando' ar blentyn heb ei eni a gymerwyd gan Sandy Spence o'r Adran Cyfrifiadureg wedi ennill y categori 'Pobl' yng Nghystadleuaeth Ffotograffiaeth Cyngor Ymchwil y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg eleni.



Ally Evans, myfyriwr PhD IBERS, yw un o dri enillydd Gwobrau Cenedlaethol Myfyrwyr 2014 y P1 Marine Foundation.



Mae'r myfyriwr ôl-raddedig, Nathan Hazlehurst, wedi ennill gwobr Oedolyn Ifanc y Flwyddyn Sant Ioan Cymru-Wales.



Enwyd A J S "Bill" Williams, Cymrawd Addysgu er Anrhydedd ym Mhrifysgol Aberystwyth, yn un o'r 175 o Wynebau Cemeg y Gymdeithas Gemeg Frenhinol.

## Alumni:



Enillodd **Mitch Robinson** (Cyfraith LLM 2005) Wobr Cyrhaeddiad Proffesiynol yng Ngwobrau Addysg Cyn-fyfyrwyr y Cyngor Prydeinig 2015 yn yr Unol Daleithiau.

Dyfarnwyd MBE i **Natasha Devon** (Drama a Saesneg 2003) yn rhestr anrhydeddau pen-blwydd y Frenhines.

Dyfarnwyd OBE i **Dylan Winer** (Swoleg 1990) yn rhestr anrhydeddau pen-blwydd y Frenhines.

**Sharon Maguire** (Saesneg a Drama 1982) yw Cyfarwyddwr y ffilm newydd *Bridget Jones' Baby* fydd yn cael ei dangos ym Medi 2016.

Mae **Judith Diment** (Daeareg a Daearyddiaeth 1967) wedi ei phenodi yn aelod o'r Pwyllgor *International Polio Plus* a dyfarnwyd iddi Wobr Gwasanaeth Rhyngwladol ar gyfer Byd heb Bolio yn gydnabyddiaeth o'i gwasanaeth personol sylweddol i sicrhau difodiant polio.

Mae **Roger Donbavand** (Daearyddiaeth 1975) wedi ei ddewis ac wedi derbyn bwrsari ar gyfer y *CSC Leaders challenge*, sy'n dod ag "arweinwyr hŷn at ei gilydd i wynebu heriau, ac i lunio'r cysylltiadau byd-eang ar gyfer arweinwyr yfory."

Enillodd **Nia Blackwell** (Gwyddor Daear Amgylcheddol 2015) y wobr ddechreuol am yr erthygl orau a gyhoeddwyd yn yr e-gylchgrawn academaidd *Gwerddon*.

Enillodd Manon Rhys (Cymraeg) y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2015.


Mae **Charley Genever** (Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol 2014) wedi ei goroni yn Fardd Llawryfog Peterborough.

Enillodd **Mari Lisa** (Cymraeg a Drama) Wobr Goffa Daniel Owen yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2015.

Mae **Lee Edgington** (Seicoleg 2015) wedi ymuno â thaith i Begwn y Gogledd Anhygyrch gyda'r Prosiect *Ice Warrior* a fydd yn cychwyn yn Chwefror 2016.

Ffuglen, llyfr yr awdures **Enid Jones** (Cymraeg 1998) yw un o'r monograffau Cymraeg cyntaf sydd i'w gael ar *Open Access*, ac mae hynny'n dynodi pennod newydd yn y byd academaidd Cymraeg.


Mae **Adrian Fowles** (Saesneg 1977, MSc Bioleg 1988) wedi derbyn Gwobr Cyflawniad Oes gan y *Marsh Christian Trust* am ei waith yn cofnodi a gwarchod lepidoptera.



Mae **Josephine Crabb** (Cyfraith 1969) wedi ei derbyn yn Aelod o Urdd Sant Ioan am wasanaeth gwirfoddol i'r elusen a'i phenodi i swydd lysgenhadol wirfoddol Llywydd Sirol Ambiwlans Sant Ioan yn Berkshire

# Y Silff Lyfrau


*Dyma rai o'r llyfrau lu a gynhyrchwyd gan academyddion Aberystwyth dros y flwyddyn ddiwethaf:*




## A Tolerant Nation?:
### Revisiting Ethnic Diversity in a Devolved Wales:

**Paul O'Leary, Hanes a Hanes Cymru**

Dyma'r ymdriniaeth gyntaf erioed ag amrywiaeth ethnig yng Nghymru dros y ddau gan mlynedd diwethaf. Mae'r traethodau sydd yn y casgliad hwn yn rhoi'r cyd-destun hanesyddol ac yn trafod y safbwyntiau blaenaf, ynghyd â'r ffyrdd y mae'r Cymry eu hunain wedi cael eu gweld fel lleiafrif ethnig, gan gynnig cipolwg ar amrywiaeth gyfoethog y Gymru gyfoes a llenwi bwlch yn yr ymchwil sydd ar gael.




## Adorno and Performance

**Karoline Gritzner,**
**Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu**


Mae gwaith Theodore W. Adorno, athronydd hynod ddylanwadol, wedi cael effaith aruthrol ar sawl maes, o gerddoleg i syniadaeth wleidyddol. Mae traethodau'r gyfrol hon yn trafod athroniaeth Adorno o safbwynt theatr, drama, cerddoriaeth, estheteg, bywyd bob dydd, y berthynas rhwng celf a chymdeithas, theori i ymarfer, a meysydd 'perfformio' eraill.



## Contemporary Military Culture and Strategic Studies:
### US and UK Armed Forces in the 21st Century

**Alastair Finlan, Gwleidyddiaeth Ryngwladol**


Mae'r llyfr hwn yn trafod ac yn cymharu diwylliannau milwrol cyfoes yr Unol Daleithiau a'r Deyrnas Unedig. Yng nghyd-destun digwyddiadau fel 9/11 ac ymgyrchoedd milwrol yn Afghanistan a Libya, mae'r llyfr yn trafod sut y caiff diwylliant milwrol cyfoes Prydain ac America ei ffurfio, gan ganolbwyntio'n benodol ar y chwe sefydliad milwrol mawr.



## Facing Down the Soviet Union:
### Britain, the USA, NATO and Nuclear Weapons, 1976-1983

**Kris Stoddart, Gwleidyddiaeth Ryngwladol**


Mae'r llyfr hwn yn datgelu am y tro cyntaf y trafodaethau a fu ynglŷn â phrosiect Chevaline i uwchraddio llu Polaris Prydain, y penderfyniadau i brynu system Trident C-4 ac yna D-5 oddi wrth yr Americanwyr yn 1980 ac yn 1982, a'r penderfyniad hynod ddadleuol i leoli Taflegrau Criws ar y Ddaear yn y DG yn 1983




## Globalization, Difference, and Human Security

**Mustapha Pasha,**
**Gwleidyddiaeth Ryngwladol**


Nod y llyfr hwn yw symud astudiaethau beirniadol ar ddiogelwch dynol yn eu blaen drwy ailosod cysyniad diogelwch y ddynoliaeth yn nhermau thema teg gwahaniaethau. Mae'r gyfrol hon, sy'n dwyn ynghyd amryw helaeth o gyfranwyr, yn ymdrin â sawl cwestiwn allweddol ynglŷn â Diogelwch Dynol a'r cysylltiad rhyngddo a gwahanol feysydd.




## Land of White Gloves?:
### A history of crime and punishment in Wales

**Richard Ireland, Y Gyfraith a Throseddeg**


Ymchwiliad academaidd pwysig i hanes trosedd a chosb yng Nghymru, sy'n olrhain eu hanes o'r oesoedd canol ymlaen ac yn dirwyn i ben drwy ystyried a oes nodweddion neilltuol i'w gweld mewn patrymau troseddu, a'r ymatebion i hynny yn yr oes fodern.




## Latin American and Caribbean International Institutional Law

**Marco Odello, Y Gyfraith a Throseddeg**

Y llyfr hwn yw un o'r ychydig weithiau cynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar sefydliadau isranbarthol yn ardal America Ladin a'r Caribî, megis y Mercosur, Cymuned yr Andes a sefydliadau ariannol isranbarthol yn ogystal â datblygiadau newydd gan gynnwys UNASUR a Chynghrair y Môr Tawel.




## Middle Powers in World Trade Diplomacy: India, South Africa and the Doha Development Agenda

**Charalampos Efstathopoulos,**
**Gwleidyddiaeth Ryngwladol**

Mae'r llyfr hwn yn ymdrin â'r modd y mae gwledydd blaenllaw sy'n datblygu yn dylanwadu fwyfwy ar drafodaethau economaidd rhyngwladol. Mae'n defnyddio India a De Affrica yn astudiaethau achos i ddangos y gall gwladwriaethau arfer dylanwad diplomyddol drwy wahanol strategaethau bargeinio a chynrychioli buddiannau'r byd sy'n datblygu o safbwynt llywodraethu byd-eang.





## Post-Cinematic Theatre and Performance

**Piotr Woycicki,**

**Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu**

Mae sinema heb gamerâu, actorion, fframiau sgrin na naratif yn swnio fel amhosibilrwydd llwyr, ond mae'r llyfr hwn yn diffinio math newydd a chyffrous o theatr ôl-sinematig sy'n datblygu, a cheisia wneud hynny drwy ddadansoddiad ôl-strwythurol trylwyr yn seiliedig ar weithiau Deleuze, Lyotard, Lévinas a Rancière a damcaniaeth ffilm.




## Seals and their Context in the Middle Ages

**Phillipp R Schofield,**

**Hanes a Hanes Cymru**


Câi'r sêl ei defnyddio ym mhob rhan o gymdeithas yr oesoedd canol mewn amryw helaeth o gyd-destunau: llywodraethol, eglwysig, cyfreithiol, ym myd masnach ac ar lefel unigol a phersonol. Mae'r papurau a gyflwynir yma, o gynhadledd a gynhaliwyd yn Aberystwyth yn 2012, yn canolbwyntio ar hanes seliau, eu defnydd, eu cynllun, pwy oedd yn eu defnyddio, a'u harwyddocâd.



## The Basics of Geomorphology: Key Concepts

**John Lewin, Geography and Earth Sciences**

Ceir yma ddisgrifiadau a dadansoddiadau manwl o'r cysyniadau a'r syniadau allweddol sy'n llywio geomorffoleg; caiff gwyddor tirffurfiau sylfaenol ei hesbonio mewn 20 cysyniad, a cheir cofnod sylweddol wedi'i groesgyfeirio i bob un. Defnyddir syniad y 'system geomorffig' i drefnu'r cofnodion yn 4 adran, a darperir adnoddau helaeth ar y we ar gyfer pob un





## The Cunning House

**Richard Marggraf-Turley,**

**Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol**

Llundain 1810. Mae'r cyfreithiwr ffuglennol Wyre wedi'i ddal rhwng dau ddigwyddiad hanesyddol a chaiff ei dynnu i mewn i rwydwaith o gynghreiriau tywyll sydd fel petaent yn cysylltu'r digwyddiadau hyn â Rhyfel Napoleon sy'n mynd rhagddo ar y pryd. Mae'r nofel hon yn archwilio dinas labyrinthaidd sy'n llawn mannau tywyll, cyfrin lle nad oes dim yn gyson ond chwant gwaharddedig.




## The Nature of Crops: How We Came to Eat the Plants We Do

**John Warren,**

**Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig**

Ydych chi erioed wedi meddwl tybed pam ein bod yn bwyta gwenith, tatws a chasafa? Neu pam ei bod yn well gennym almonau na mes? Mae'r llyfr hwn yn ateb y cwestiynau hyn a mwy, ac yn mynd â chi ar siwrnai trwy ein hanes drwy drefnu cnydau yn ôl themâu cylchol i gofnodi hanes a bioleg dros 50 o gnydau.




## The Theatre and Films of Jez Butterworth

**David Rabey,**

**Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu**

Dyma'r llyfr cyntaf i ymdrin â holl weithiau ffilm a theatr Jez Butterworth, dramodydd newydd Prydeinig mwyaf llwyddiannus yr 21ain ganrif, a'r uchaf ei glod ymhlith y beirniaid. Ymdrinnir ag apêl ei weithiau a cheir yma gyfweliadau a dadansoddiadau trylwyr ohonynt.





## Your Servants and Your People (The Walkin' Trilogy)

**David Phillip Townsey,**

**Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol**

Y diweddaraf yn nhrioleg Walkin'. Saith mlynedd ar ôl i Thomas ddod yn ôl fel Walkin', mae'r teulu McDermott yn ceisio bywyd newydd, ond nid mater hawdd yw ymwrthod â dysgeidiaeth J S Barkley – mae rhai am i'r pechaduriaid farw, ac maent yn agosáu'n araf bach.





## An Introduction to Political Geography: Space, Place and Politics

**Deborah Dixon, Matthew Hannah, Martin Jones, Rhys Jones, Mark Whitehead, Michael Woods,**

**Geography and Earth Sciences**

Mae'r testun hwn yn ymdrin â holl ystod daearyddiaeth wleidyddol gyfoes, ac yn trafod ystyriaethau traddodiadol megis y wladwriaeth a geowleidyddiaeth; ond mae hefyd yn trafod meysydd sydd ar flaen y gad ac yn dod yn fwyfwy pwysig o ran ymchwil ym maes daearyddiaeth wleidyddol megis globaleiddio a daearyddiaeth rheoleiddio a llywodraethu, a themâu sydd wrth groestorfan daearyddiaeth wleidyddol a diwylliannol.





## Food and the Literary Imagination

**Richard Marggraf-Turley, Howard Thomas, and Jayne Elizabeth Archer,**

**Ysgrifennu Creadigol a'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig**

Mae unigolion a sefydliadau'n poeni fwyfwy am ein bwyd, o ble y daw, a'r amgylchiadau lle caiff ei gynhyrchu. Drwy ddarllen llenyddiaeth hanesyddol yn ofalus, mae'r llyfr hwn yn dangos nad yw pryderon o'r fath yn beth newydd a bod ein hymwneud â'n hamgylcheddau gweithiedig yng nghefn gwlad yn digwydd yn aml drwy lygad portreadau llenyddol ymddangosiadol sentimental.




## Soils and Land Use in Central Wales

**William A Adams,**

**Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig**


Drwy ddwyn ynghyd ymchwil ar briddoedd yng Nghymru a wnaed yn Aberystwyth, mae'r gyfrol hon yn disgrifio'r ystod amrywiol o briddoedd a geir yng nghanolbarth Cymru ac yn archwilio'r dewisiadau ar gyfer defnydd tir yn yr ardal ar gyfer amaethyddiaeth, coedwigaeth a chadwraeth natur.

# Teyrngedau

*Gyda thristwch mawr yr ydym yn cofnodi ar y tudalennau hyn golli alumni, myfyrwyr, Cymrodyr ac aelodau staff, sydd, neu a fu'n astudio yma, ac yr hysbyswyd ni am eu marwolaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theuluoedd a chyfeillion y sawl a restrir yma.*

## CYMRODYR

### Dr Meredydd Evans (1919 – 2015)



Mae yna goel bod galar, fel beichiogrwydd, yn para naw mis.

Naw mis ers colli Merêd mae cymaint o bwyso a mesur i'w wneud o hyd a hynny oherwydd amrywiaeth a hirhoedledd ei gyfraniad. Yn wahanol i lawer sy'n cyrraedd 95 oed, gweithiodd i'r funud olaf ysgwydd yn ysgwydd â'r hen a'r ifanc, y cyffredin a'r ysgolhaig.

Mewn cyfnod a welodd golli lleng o gewri, a heb amharchu'r un ohonynt, rwy'n credu mai maint ac amrywiaeth ei waddol sy'n golygu bod angen clorian go arbennig ar gyfer Merêd.

Yn academaidd fe ddisgleiriodd fel myfyriwr ac athro (Athro'r Flwyddyn yn Boston 1957), cyhoeddodd yn eang ac yn gyson. Ond eto, fe fydd llawer yn mynnu bod ei gyfraniad mor allweddol i sefydlu'r Coleg Cymraeg nes bod hwnnw'n gofeb iddo.

Fel perfformiwr, disgleiriodd fel unawdydd, aelod o driawd, fel cyfansoddwr (cofiwch mai fo piau alaw 'Colli Iaith', Heather Jones/Harri Webb) ac fel darlledwr, cynhyrchydd a phennaeth ysbrydoledig mewn cyfnod ffurfiannol. Ond eto, fe fydd llawer yn mynnu bod ei gyfraniad fel ymgyrchydd yn ogystal â chynhyrchydd yr un mor allweddol i sefydlu'r Sianel a chynnal ei safonau hi a Radio Cymru wedi hynny.

Fel ymgyrchydd, disgleiriodd o'i lyfrgell yn rhoi sail athronyddol i ymgyrchoedd y mudiad iaith. Ond eto, baeddodd ei ddwylo yn y frwydr. Er mor gyfforddus oedd o ar lwyfannau cenedlaethol a rhyngwladol, gweithiodd yn dawel a diflino yng Nghwmystwyth. Roedd o'n un o dîm y papur bro lleol, gweithiodd i gynnal y capel a'r gymdeithas ddiwylliannol, i ailsefydlu'r eisteddfod ac i ddysgu Cymraeg i fewnfudwyr. Hyn, fel cymaint o bethau eraill, yn deillio o ddylanwad hanfodol ei fagwraeth yn Nhanygrisiau.

Wrth gwrs, nid *Y Ddolen* oedd y papur bro cyntaf iddo fo ymwneud ag o. Roedd Merêd yn ei chanol hi yn sefydlu'r papur bro cyntaf un, *Y Dinesydd*, yng Nghaerdydd, yn 1973. Cofeb fyw arall?

Gallai'r gwaith o bwyso a mesur cyfraniad Merêd ddigwydd mewn llyfrgell ac archif ond, er bod yr archif yn fawr mae'r gwaddol yn fwy ac yn fyw. Dyna pam, naw mis yn ddiweddarach, bod angen clorian go arbennig arnom.

A beth bynnag am y cofebau mawr hyn, y byddai o'n troi yn ei fedd o gysylltu ei enw â nhw fel hyn, y deyrnged fwyaf iddo yw'r cof amdano fydd yn byw yn hir ac yn annwyl ymysg lleng o bobl ifanc yr oedd o wedi rhannu a chydweithio â hwy i'r diwedd. Prawf o'r hyn oedd yn ei wneud o'n arbennig – y cyfuniad hwnnw o athrylith, dycnwch, haelioni ac anwyldeb – a'r mwyaf o'r rhai hyn yw anwyldeb.

*Arwel Jones*

## Yr Athro Geraint Gruffydd (1928 – 2015)



Ymunodd yr Athro Gruffydd ag Adran y Gymraeg Prifysgol Aberystwyth yn 1970 yn dilyn ei benodiad i Gadair Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg. Yn 1974 cafodd ei benodi'n Ddeon y Celfyddydau, ac yn 1979 cafodd ei benodi'n Llyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Roedd yn raddedig o Brifysgol Bangor a Choleg yr Iesu Rhydychen. Wedi iddo raddio bu'n Olygydd Cynorthwyol gyda Geiriadur Prifysgol Cymru am ddwy flynedd ac yna'n Ddarlithydd yn Adran y Gymraeg Prifysgol Bangor, tan iddo ymuno â Phrifysgol Aberystwyth yn 1970.

Yn 1985 cafodd ei benodi'n Gyfarwyddwr y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, ac wedi hynny gwasanaethodd fel Is-Lywydd Prifysgol Aberystwyth. Cafodd ei benodi yn Athro Emeritws yma yn Aberystwyth yn 1993, a'i urddo'n Gymrawd gan y Brifysgol yn 2004.

Meddai Dr Bleddyn Huws, Uwch Ddarlithydd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth: "Mae'n amheus a oedd unrhyw gyfnod yn hanes llenyddiaeth Gymraeg nad oedd yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd yn hyddysg ynddo. Er mai gweithiau awduron rhyddiaith oes Elisabeth I oedd pwnc ei draethawd ymchwil DPhil yn Rhydychen - ac ar sail hynny y datblygodd yn un o'n hawdurdodau pennaf ar lenyddiaeth cyfnod y Dadeni - cyfrannodd yn helaeth hefyd i faes barddoniaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol. Roedd yn awdurdod ar ganu Beirdd y Tywysogion a gwaith Dafydd ap Gwilym a'r Cywyddwyr. Roedd yn ysgolhaig Cymraeg cyfanddysg. Rhagorai fel beirniad llenyddol am fod ei wybodaeth am lenyddiaeth ym mhob canrif mor eang a chyfoethog, ac am fod ei gyneddfau beirniadol mor braff. Roedd yn werth darllen ysgrifau beirniadol Geraint petai ond er mwyn gwerthfawrogi ei arddull goeth ac edmygu ei feistrolaeth ar yr iaith.

Fel Pennaeth Adran a gweinyddwr a chyfarwyddwr ymchwil, roedd yn hynod foneddigaidd a chymwynasgar, yn ŵr bonheddig ym mhopeth a wnâi. Mae amryw byd o ysgolheigion Cymraeg a Cheltaidd heddiw mewn sawl gwlad yn dra dyledus iddo am ei gyfarwyddyd a'i gefnogaeth a'i arweiniad diogel a hael ar hyd y blynyddoedd."

Mae'r Athro Gruffydd yn gadael gweddw Luned, a'i blant Siân, Rhun a Phyrs.

## Kenneth Young CBE (1931 – 2015)



Magwyd Kenneth Middleton Young yng Nglyn-nedd a mynychodd Ysgol Ramadeg Castell-nedd. Oddi yno daeth i Aberystwyth i astudio hanes yn 1949 dan yr Athro Treharne. Gwnaeth ei wasanaeth cenedlaethol fel peilot-swyddog o gyfeiriwr yn yr Awyrlu Brenhinol, cyn mynd yn ei flaen i gael gyrfa ym maes rheoli personél.

Bu Ken, fel y cyfeirid ato'n annwyl ac yn eang, yn dal swyddi gweithredol mewn nifer o gwmnïoedd mawr yn cynnwys GEC, Smiths Industries, Massey Ferguson ac Elliot Automation, ac yn 1989 daeth yn Gadeirydd Girobank ccc. Arweiniodd hynny at swyddi fel Cadeirydd Cownteri Swyddfa'r Post Cyf yn 1990 a Rheolwr-Gyfarwyddwr Parseli'r Post Brenhinol a Dirprwy Gadeirydd y Swyddfa Bost. Yn dilyn hynny fe'i penodwyd yn Gadeirydd dros dro am gyfnod o 1989 ac roedd yn aelod o'r tîm a drawsnewidiodd Swyddfa'r Post yn fusnes masnachol, un o'r newidiadau mwyaf yn ei hanes ar y pryd. Yn wir, roedd perswadio pobl i gydweithio yn brif nodwedd o'i yrfa hir a nodedig!


Nid yw'n syndod, felly, fod mawr alw ar Ken Young yn dilyn ei ymddeoliad o Swyddfa'r Post. Yn ogystal â'i swydd heriol fel Cadeirydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr newydd, daeth yn gadeirydd Cyngor Athrofa Roehampton a ffurfiwyd yn sgil uno pedwar coleg. Eto, mae'n dyst i'w sgiliau negodi iddo allu cyfryngu nifer o benderfyniadau anodd, a chanfod llwybr cyffredin a chonsensws barn rhwng pedwar traddodiad academaidd a gweithrediadol gwahanol.

Dyrchafwyd Ken yn CBE yn 1977, ac yn 1991 fe'i hurddwyd yn Gymrawd Anrhydeddus o Brifysgol Aberystwyth. Fe'i cyflwynwyd gan Syr David Nicholas, CBE, un o'i gyfoedion yn Ysgol Ramadeg Castell-nedd ac un arall o gyn-fyfyrwyr Aberystwyth, a ddywedodd, "Chwaraeodd Aberystwyth ran fawr ym mywyd personol Kenneth. Nid yn unig y daeth o hyd i yrfa yma, ond cafodd wraig yn ogystal, sef Brenda, a raddiodd o'r adran Ffrangeg."

Parhaodd y Brifysgol i chwarae rhan ym mywyd Ken ac ef oedd Cadeirydd cyntaf Clwb Busnes Aberystwyth yn 1993 - daeth yn rhan ohono'n rhannol oherwydd ei gred ddiysgog yng nghryfder Aber fel prifysgol ac yn rhannol oherwydd, 'os ydym ni, fel cyn-fyfyrwyr, yn mynd i helpu Aber, rhaid i ni ysbrydoli cydweithredu'. Gwnaeth Ken Young hynny trwy ddwyn cyn-fyfyrwyr tebyg o Aber at ei gilydd i roi o'u hegni, eu cysylltiadau a, lle'r oedd hynny'n briodol, eu harian. Yn dilyn ei waith gyda Chlwb Busnes Aberystwyth, daeth yn Llywydd Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr rhwng 1998 a 2000; daeth â llawer o hiwmor a phwrpas clir ac effeithiolrwydd i'r swydd hon. Wrth ofyn i Ken ymgymryd â swydd, gwyddech y byddai'n ei chyflawni'n drylwyr a chyda steil. Bu'n gefnogwr angerddol i rygbi Cymru gydol ei oes drwy'r adegau da, a'r cyfnodau llai llewyrchus. Ni châi cyfarfodydd Pwyllgor Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr gyd-daro â gêm rygbi rhyngwladol i Gymru!

Roedd Ken hefyd yn ddyn teulu, yn briod cwbl ffyddlon i Brenda ac wrth ei fodd yng nghwmni ei blant, Pam a Mike, a'i wyrion Nicolas, Harry a Jessica.

## Yr Athro Trefor M Owen (1926 – 2015)



Roedd Trefor M Owen, Cymrawd Anrhydeddus a raddiodd o'r Adran Ddaearyddiaeth ac Anthropoleg, ac a fu farw ym mis Chwefror 2015 yn 88 oed, yn ffigwr amlwg yn natblygiad astudiaethau gwerin ym Mhrydain. Roedd yn ddyn llai cyhoeddus na'i ragflaenydd Iorwerth C Peate a'i olynydd J Geraint Jenkins, y ddau yn raddedig o'r un adran, ond fel Curadur (Cyfarwyddwr yn nherminoleg yr oes sydd ohoni), sicrhaodd enw da yn academaidd i Amgueddfa Werin Cymru (Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru bellach) a gwnaeth gyfraniad arloesol i astudiaethau ethnoleg a llên gwerin.

Treuliodd dair blynedd dan ddaear fel un o Fechgyn Bevin cyn dychwelyd i addysg amser llawn. Dan ddylanwad Alwyn D Rees (awdur *Life in a Welsh Countryside*), astudiaeth gymdeithasegol o gymuned yng ngogledd Cymru oedd testun ei MA. Fe'i penodwyd i'r Amgueddfa Werin yn 1953, a gwneud enw iddo'i hun gyda chyhoeddi *Welsh Folk Customs* (1959), hanes cyd-destun cymdeithasol arferion traddodiadol. Fe'i penodwyd yn ddarlithydd Theori a Mudiadau Cymdeithasol ym Mangor yn 1966 oherwydd ei ddiddordeb cynyddol yn fframwaith diwylliannol ehangach gorffennol Cymru; yno ef oedd un o'r cyntaf i ddysgu Cymdeithaseg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Pan ymddeolodd Peate yn 1971, penodwyd Trefor yn olynydd iddo. Treuliodd un mlynedd ar bymtheg yn y swydd hon; yn ystod y cyfnod hwn gwelwyd y twf mwyaf erioed ym maint ac amlygrwydd academaidd y sefydliad, a'i Gadeirydd yno am lawer o'r cyfnod oedd daearyddwr arall o Aber, Dr Elwyn Davies, sef un o'r prif arbenigwyr ar drawstrefa yng Nghymru. Meithrinodd Trefor Owen ddiwylliant a welodd staff yn cyhoeddi nifer o gyfraniadau pwysig mewn amrywiaeth eang o feysydd. Trwy gyfrwng dau lyfr a thua 65 o bapurau academaidd, gwnaeth gyfraniad arloesol i'r astudiaeth o fywyd gwerin (fel y cyfeiriai Peate ato) neu ethnoleg (yn ei farn ef) yng Nghymru. Yn wahanol i Peate, ystyriai fod y trigolion wedi cael mwy o ddylanwad ar ddiwylliant materol na'r tir. Roedd ganddo ddiddordeb arbennig mewn arferion, diwylliant tlodi, a hanes a methodoleg ei bwnc. Ymddeolodd yn 1987 yn drigain oed. Ysgrifennodd ei gyhoeddiad mwyaf cynhwysfawr, *The Pocket Guide to the Customs and Traditions of Wales* (1991), yn ystod ei ymddeoliad ac roedd yn gywasgiad rhyfeddol.

Wedi ymddeol, bu'n Warden Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru, ac yn un o sylfaenwyr yr Adran Ethnoleg a Bywyd Gwerin, gan ddod yn Gadeirydd ac yn Llywydd arni. Cydweithiodd â Choleg Prifysgol Caerdydd i sefydlu cwrs gradd Meistr mewn Astudiaethau Gwerin Cymru, a daeth yn Athro Anrhydeddus yno. Roedd hefyd yn Gymrawd Anrhydeddus Prifysgol Bangor, Is-Lywydd Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, a Chadeirydd cymdeithasau hanesyddol sirol Sir Gaernarfon a Sir Feirionnydd. Roedd ef a'i wraig Gwen, y cyfarfu â hi yn Aber, yn aelodau ffyddlon o Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr; bu farw Gwen ryw 18 mis cyn ei gŵr ar ôl 59 mlynedd o briodas. Mae'n gadael dau fab a merch; mae wyres iddo yn gweithio yn Sain Ffagan.

*Eurwyn Wiliam*

# STAFF A CHYN-AELODAU

## David Blumfield "Blummers" (1962 – 2015)



Fel "Blummers" y byddai ei fyfyrwyr yn cyfeirio'n annwyl at David Blumfield, ac roedd y teyrngedau lu a ymddangosodd ar y cyfryngau cymdeithasol ar ôl clywed am ei farwolaeth yn dangos cynifer o fywydau a gyfoethogodd, a dylanwadu arnynt.

Magwyd David yn Bournville ar stad Cadbury, ac yma y darganfu ei gariad at ddrama. Y cariad hwn a'i hysgogodd i ymuno â Theatr Ieuenctid Birmingham lle cyfarfu â'i gariad cyntaf, ei ffrind gorau a'i bartner oes Lindsay Barker; priodwyd y ddau ar Fedi 17eg 1983.

Ar ôl graddio o Fangor yn 1990, symudodd David a Lindsay i Aberystwyth ac ymuno â Chwmni Theatr Castaway yr un flwyddyn. Aeth y ddau â nifer o gynyrchiadau Castaway ar daith ac ennill y Ddrama Orau yng Ngŵyl Theatr Prydain yn 1992 yng nghategori'r Ddrama Un Act am eu perfformiadau gwych yn *After Liverpool.*

Yn 1997, daeth Dave yn gyfarwyddwr artistig Castaway a ddaeth yn ddiweddarach yn gwmni theatr Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Fel actor, rhoddodd Dave rai o'r perfformiadau gorau a welodd y dref hon erioed, a bydd llawer yn cofio amdano fel y dihiryn ym mhantomeim blynyddol y Wardeniaid, un o uchafbwyntiau calendr Dave. Bydd Dave yn cael ei gofio'n bennaf fel tiwtor, cyfarwyddwr ac ymarferwr gwych a fu'n ysbrydoli ei fyfyrwyr yn yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu.


Bydd yn cael ei gofio'n annwyl gan filoedd – boed fel cyfarwyddwr theatr gymunedol, fel mentor i fyfyrwyr, ffrind neu aelod o'r teulu, bu ei ddylanwad ar bob un ohonom yn ddwfn a gwelir ei eisiau yn fawr.

## Dr Julian Broadbent (1939 – 2014)

Ganwyd Julian yn Keighley, Swydd Efrog, a bu'n astudio Peirianneg Gemegol yn Sefydliad Gwyddoniaeth a Thechnoleg Prifysgol Manceinion (UMIST). Wedi iddo raddio yn 1962, bu'n astudio yn Adran Fathemateg UMIST fel ymchwilydd ôl-raddedig ac yna ymchwilydd cyswllt, ac yn 1968 dyfarnwyd iddo ddoethuriaeth am ei draethawd "An Investigation of Normal Stress Difference in Polymer Solutions in Steady Shear Flow".

Ymunodd Dr Broadbent ag Adran Fathemateg Aberystwyth yn 1967 fel ymchwilydd cyswllt a bu'n gweithio ym maes Rheoleg. Yn 1976 cafodd ei benodi'n Swyddog Diogelwch y Brifysgol, swydd a gyflawnodd tan ei ymddeoliad ym mis Medi 2000.

## Dr Geoffrey Brown (1926 – 2015)



Ganwyd Dr Geoffrey Brown yn Aberdâr yn 1926, a graddiodd o Goleg Peterhouse Caergrawnt. Fe'i penodwyd yn Ddarlithydd Ffiseg ym Mhrifysgol Aberystwyth yn haf 1959. Enillodd radd MSc o Brifysgol Cymru yn 1949 am ei draethawd "Excitation, Dissociation, and Ionization in the Terrestrial Atmosphere" a dyfarnwyd MA (Cantab) iddo yn 1950.


Ar adeg ei benodi roedd yn Aelod Cyswllt o'r Sefydliad Ffiseg, yn Gymrawd y Gymdeithas Astronomeg Frehinol a'r Gymdeithas Ffisegol. Daeth i Aberystwyth o Brifysgol Abertawe lle bu'n darlithio am 10 mlynedd.

Fe'i dyrchafwyd yn Uwch Ddarlithydd yn 1965, a dyfarnwyd iddo DSc gan Aberystwyth yn 1975, a'i ddyrchafu'n Ddarllenydd yn 1977. Bu hefyd yn Is-Ddeon Cyfadran y Gwyddorau yn y 1970au cynnar.

Roedd yn adnabyddus yn rhyngwladol ym maes ïonosffer a geomagneteg, nid yn unig am ei gyhoeddiadau ymchwil ond hefyd yn sgil ei gyfraniad fel golygydd nifer o gyhoeddiadau yr *International Union of Radio Science*.

Ym Mehefin 2014, ar achlysur ei ben-blwydd yn 88 oed, dychwelodd Geoffrey i Aberystwyth i nodi 50 mlwyddiant graddio carfan o'i gyn-fyfyrwyr, a'u hannerch yn y brif theatr ddarlithio Ffiseg, yn union fel ag y byddai wedi gwneud dros 50 mlynedd yn ôl.

## Dr John Davies (1938 – 2015)




Roedd Dr John Davies (i lawer), John Bwlchllan (i lawer mwy) yn hanesydd a darlledydd nodedig, a addysgwyd yng Nghaergrawnt a Chaerdydd, a'i benodi yn ddarlithydd Hanes Cymru yn Aberystwyth yn 1973. Rhwng 1974 a 1985 ef oedd Warden Neuadd Pantycelyn a oedd, yn ei eiriau ef, 'y cartref Cymraeg mwyaf a hyfrytaf yn y byd'.

Yn ystod y deunaw mlynedd y bu John yn warden yno, creodd awyrgylch anhygoel. Roedd ganddo ddealltwriaeth arbennig o dda o bobl ifainc; roedd bob amser yn barod i ymddiried ynddynt a rhoi'r rhyddid iddynt feithrin eu galluoedd, canfod eu doniau, a llwyddo. I lawer, Pantycelyn, yn anad dim arall, oedd llwyddiant pennaf John. Yn y neuadd breswyl honno, fe greodd John, gyda chymorth Janet, ei wraig, a'u plant – Anna, Beca, Guto ac Ianto – gartref estynedig mawr.

Fel darlledwr, darlithydd, un o sylfaenwyr Cymdeithas yr Iaith, a'i hysgrifennydd cyntaf, ac fel ffigwr amlwg ym mywyd cyhoeddus a diwylliannol Cymru, gwnaeth John gyfraniad enfawr i'r genedl a garai'n ffyddlon. Fel hanesydd, mae ei gyfrolau ar hanes Caerdydd, perchenogaeth tir yng Nghymru, y BBC, *The Making of Wales, Hanes Cymru* ac *A History of Wales* yn gyfraniadau enfawr i hanes ein cenedl.

## Yr Athro John Rowlands (1938 – 2015)



Yn wreiddiol o Drawsfynydd yng Ngwynedd, graddiodd yr Athro Rowlands o Brifysgol Bangor gyda gradd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg yn 1959, ac yna MA. Derbyniodd Gymrodoriaeth i astudio yng Ngholeg yr Iesu Rhydychen, a dyfarnwyd iddo radd DPhil.

Wedi cyfnodau yn darlithio ym Mhrifysgol Abertawe, Coleg y Drindod Caerfyrddin a Choleg Prifysgol Dewi Sant Llanbedr pont Steffan rhwng 1963 a 1974, cafodd ei benodi'n Ddarlithydd yn Adran y Gymraeg yn Aberystwyth yn 1975. Cafodd ei ddyrchafu'n Uwch Ddarlithydd yn 1976, yn Ddarllenydd yn 1992 ac yn Athro yn 1996. Parhaodd i weithio ym Mhrifysgol Aberystwyth tan ei ymddeoliad yn 2003.

Wrth dalu teyrnged i'r Athro Rowlands, dywedodd Dr Robin Chapman: "Gallai sawl un ymffrostio'n gwbl gyfiawn mewn cyfran fechan o'i gyraeddiadau. Roedd yn bianydd dawnus (cofir yn hir gan bawb amdano'n cyfeilio'r canu mewn partïon Nadolig adrannol). Gwyddai am fwyd a gwin. Roedd yn nofelydd arloesol – bron yr unig enghraifft o'r Angry Young Men mewn llenyddiaeth Gymraeg ar ddechrau ei yrfa ac yn feistr ar gomedi a thrasiedi wedi hynny. Fel darlithydd ac athro, roedd yn fawr ei ddylanwad ar ddwsinau o lenorion ac academyddion amlwg Cymru ac roedd hefyd, wrth gwrs, yn ŵr ac yn dad cariadus."

## Dr Suresh Swain (1966 – 2015)

Bu farw Dr Suresh Swain o'r Athrofa Gwyddorau Biolegol ac Amgylcheddol ar Ionawr 6ed 2015 ar ymweliad â'i deulu yn India. Talwyd teyrnged iddo gan yr Athro Mike Gooding, Cyfarwyddwr IBERS:

"Ymunodd Suresh ag IBERS yn 2010 i weithio ar raglen ôl-ddoethurol a oedd yn cael ei ariannu gan y BBSRC, a hynny ar ôl treulio cyfnodau yn Ysgol y Biowyddorau, Prifysgol Caerdydd ac Ysgol y Gwyddorau Biofeddygol, Coleg King's, Llundain. Ar ôl cwblhau ei waith ôl-ddoethurol, daeth Suresh yn aelod o'r tîm biowybodeg craidd yn IBERS, gan arbenigo ar ddadansoddi a chydosod dilyniannau genomau a thrawsgrifomau. Gwnaeth Suresh gyfraniad sylweddol ac unigryw i'r gwaith o ddatblygu cydosodiad genomau drafft ar gyfer rhygwellt parhaol ac oherwydd ei ymdrech ef y mae llawer o'r diolch am y gwelliannau diweddar yn y maes hwn.

Roedd Suresh yn arbennig o frwd am ei waith, ac yn cymryd pleser mawr wrth ddatblygu ei sgiliau ei hun a galluogi a chynorthwyo cydweithwyr yn yr adran i gyrraedd eu nodau ymchwil eu hunain. Roedd bob amser yn siriol ac yn barod ei gymwynas, ac yn ŵr bonheddig y gwelir ei eisiau'n fawr gan ei gyfeillion a'i gydweithwyr. Mae'n gadael gwraig, Rajashree, a dwy ferch fach; rydym yn meddwl amdanynt."

## Yr Athro Lance Thomas (1930 – 2015)




Datblygodd Lance Thomas, a raddiodd o Goleg Prifysgol Cymru Abertawe, enw da iddo'i hun yn rhyngwladol am ei waith arloesol ym maes ffiseg yr atmosffer. Fe'i penodwyd yn aelod o staff Gorsaf Ymchwil Radio yn Slough, a ddaeth yn Labordy Appleton yn ddiweddarach. Dychwelodd i Gymru yn 1981 fel Pennaeth yr Adran Ffiseg yn Aberystwyth, swydd y gwnaeth ei chyflawni'n rhagorol tan ei ymddeoliad ar ddiwedd 1994.

Roedd ei waith ymchwil yn bellgyrhaeddol, a'i waith arbrofol yn rhychwantu technegau radio, lidar a radar. Bu'n ymwneud â datblygu'r defnydd o laser i astudio'r uwch-atmosffer ac roedd yn gyfrifol am sefydlu Cyfleuster Radar Meosffer Stratosffer Thermosffer y DU yng Nghapel Dewi ger Aberystwyth; ef oedd Prif Ymchwilydd y prosiect hwn. Cafodd ei enw da ei gydnabod gan y Sefydliad Ffiseg yn 1991 pan ddyfarnwyd iddo Fedal a Gwobr Chree. Daeth yn Gymrawd Anrhydeddus Prifysgol Abertawe yn 1998 a chafodd ei ethol yn Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn 2014.

Chwaraeodd rôl genedlaethol wrth weinyddu gwyddoniaeth, ar bwyllgorau'r Cynghorau Ymchwil a hefyd gorff llywodraethol y Sefydliad Ffiseg.

Roedd yn ddyn gonest a chywir iawn, a oedd yn uchel ei barch ac yn cael ei gofio'n annwyl gan ei fyfyrwyr, ei gydweithwyr a'i gyfeillion.

## Yr Athro David Trotter (1957 – 2015)



Bu farw'r Athro Trotter, pennaeth yr Adran Ieithoedd Ewropeaidd, yn Awst 2015.

Graddiodd David Trotter o Goleg y Frenhines Rhydychen (DPhil), ac roedd yn un o brif arbenigwyr y wlad ar Eingl-Normaneg. Cafodd ei benodi i Gadair y Ffrangeg yn Aberystwyth yn 1993, gan ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol Pennaeth Adran ar yr un pryd, swydd y bu'n ei chyflawni trwy gydol ei yrfa yn Aberystwyth.

Roedd ymchwil yr Athro Trotter yn rhychwantu ieithyddiaeth Ffrangeg hanesyddol, Ffrangeg y canoloesoedd, tafodieitheg ganoloesol, ac yn arbennig Ffrangeg y dwyrain. Ef hefyd oedd yn arwain y *Geiriadur Eingl-Normaneg* sy'n cael ei ariannu gan Gyngor Ymchwil y Dyniaethau a'r Celfyddydau (AHRC) ac sydd wedi'i leoli ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Roedd yn Llywydd y *Société de Linguistique Romane* (2013-16), yn gyfrannwr (ar Ocsitaneg) i'r *Romanische Bibliographie* (De Gruyter), yn aelod o Goleg Adolygu gan Gydweithwyr yr AHRC ac yn Adolygydd Strategol ar gyfer yr AHRC.

Roedd yn un o olygyddion y *Journal of French Language Studies* (CUP), a gwasanaethodd ar fyrddau ymgynghorol *Romance Studies*, *Zeitschrift für romanische Philologie*, *Revue de Linguistique romane*, *Quaderni di Filologia Romanza, Revue Internationale de Linguistique Française*, a chyfres *Romanische Texte des Mittelalters Winter Verlag* (Heidelberg).

Wrth dalu teyrnged i'r Athro Trotter, dywedodd yr Athro April McMahon: "Mae marwolaeth annhymig yr Athro David Trotter yn golled enfawr i ymchwil ac ysgolheictod. Roedd ganddo enw da rhagorol a haeddiannol fel hanesydd o'r Ffrangeg, ac roedd yn arbennig o adnabyddus am ei brosiect Geiriadur Eingl-Normaneg, a enillodd gyllid a chydnabyddiaeth sylweddol.

"Fodd bynnag, mi fydd y rhai ohonom a fu'n gweithio gydag ef ym Mhrifysgol Aberystwyth, lle'r oedd yn un o'n Penaethiaid Adran hiraf ei wasanaeth, yn gweld eisiau David y dyn hyd yn oed yn fwy na David yr ymchwilydd. Roedd ganddo ffordd hyfryd o siarad, a medrai fywiogi'r cyfarfod mwyaf di-liw mewn modd a fyddai ar adegau'n ddiddorol ac annisgwyl, ac roedd yn ddoeth, gonest a chefnogol bob amser; byddaf innau a'i gydweithwyr a'i fyfyrwyr yn gweld ei eisiau'n aruthrol".

## Estynnwn gydymdeimlad â theuluoedd a chyfeillion y canlynol:

*(* aelod o Gymdeithas y Cyn-Fyfyrwyr)*

**Andrews**, Mr Glyn Llewellyn*, bu farw Rhagfyr 2014, (1966)

**Bevan**, Yr Athro Edward Alan*, bu farw Mehefin 2015, (Botaneg Amaethyddol 1947)

**Burgess**, Mrs Audrey Elizabeth, (née Edwards)*, bu farw Mehefin 2015, (Mathemateg 1946)

**Carpenter,** Mrs Gillian Annette, (née Boyson), bu farw Mai 2015, (Amaethyddiaeth 1978)

**Cowell,** Mrs K Margaret, (née Robyns-Owen)*, bu farw Mehefin 2015, (1952)

**Davies,** Mr Murray Roger, bu farw Medi 2014, (Hanes 1970)

**Davies,** Mr Peter, bu farw Tachwedd 2014, (Hanes 1948)

**Diment,** Dr Anthony Richard, bu farw Ionawr 2015, (Ffiseg 1967)

**Evans**, Mr David Daniel*, bu farw Gorffennaf 2015, (Ffiseg 1948)

**Geier,** Mr Gunnar, bu farw Hydref 2015, (Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff 2008)

**Hamilton Jones,** Dr Anthony, bu farw Mawrth 2015, (Cemeg 1957)

**Hill,** Mr Michael Andrew, bu farw Tachwedd 2014, (Daearyddiaeth 1997)

**Jones,** Mr Islwyn*, bu farw Mai 2015, (1955)

**King,** Mrs Cheryl Ann, (née Knight), bu farw Rhagfyr 2014, (Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgell 2003)

**Langtry-Lynas,** Mrs Stella, (née Pennington)*, bu farw Mawrth 2015, (Hanes 1948)

**Lawson,** Mr John Howard, bu farw Awst 2015, (Daearyddiaeth 1977)

**Lewis,** Yr Athro Gwynne, bu farw Rhagfyr 2014, (Hanes 1959)

**Manton,** Mr Michael, bu farw Chwefror 2015

**Morgan,** Dr Eric Raymond*, bu farw Chwefror 2015, (Addysg 1955)

**Morris,** Mr Griffith Hubert Williams*, bu farw Tachwedd 2014, (Addysg 1955)

**Owen,** Mr Dewi Vaughan*, bu farw Mai 2015, (Y Gyfraith 1977)

**Parri-Huws**, Ms Sian, bu farw Tachwedd 2015, (Gwleidyddiaeth Ryngwladol 1982)

**Prout,** Mr Thomas Clive Davies*, bu farw Hydref 2015, (Daearyddiaeth a Daeareg 1957)

**Rees,** Mr Roland, bu farw Medi 2015, (Hanes ac Athroniaeth 1963)

**Rees,** Mr Eric Vaughan, bu farw Awst 2015, (Hanes 1999)

**Rich,** Mr Peter Anthony*, bu farw Mai 2015, (1967)

**Roberts,** Miss Davida L*, bu farw Ebrill 2015, (1954)

**Rudden,** Yr Athro Bernard Anthony, bu farw Mawrth 2015, (Y Gyfraith 1965)

**Seymour,** Yr Athro John Albert*, bu farw Mawrth 2015, (Daeareg 1952)

**Simmonds,** Mrs Gloria Mary, (née Tatchell)*, bu farw Chwefror 2015, (1958)

**Thompson,** Dr Laurence Arthur, bu farw Mehefin 2015, (Almaeneg a Rwsieg 1979)

**Tudur,** Mr Dafydd, bu farw Mawrth 2015, (Ymarfer y Gyfraith 2010)

**Waters,** Mr Andrew*, bu farw Medi 2014, (Daearyddiaeth 1969)

# Cicio'r Bar

## *Straeon glannau'r afon | Russell Davies*



"Dyddiau dyn sydd fel glaswelltyn," meddai'r Beibl yn ei ryfeddod arferol. Llwyddodd y *Guns n' Roses* (tybed pam mai bandiau metal trwm sydd â'r baledi hyfrytaf?) i grisialu byrhoedledd arglwyddiaeth fydol gyda'u geiriau eiconig, "*Nothing lasts forever, even cold November rain*". Er y byddai rhywun yn sicr yn amau hynny ar ôl haf 2015 a'r glaw wedi syrthio'n ddi-baid ar diroedd garw Pumlumon.

Nid oes angen troi at dudalennau eglwysig neu at Sant Awstin neu Gibbon i gael darlun o fyrhoedledd ymdrechion pobl. Wrth hel atgofion am ei yrfa, nododd y diweddar Athro L J Williams ei fod wedi gwasanaethu mewn saith adran wahanol ond nad oedd hyd yn oed unwaith wedi newid swyddfa. Mae record athletwyr yn cwympo hyd yn oed yn gyflymach nag adrannau academaidd, wrth i athletwyr ymdrechu i fynd ymhellach ac yn gyflymach ac yn gryfach na'u rhagflaenwyr neu gyfoedion. Yn 1965, ymddengys bod Dick Fosbury wedi cyfiawnhau ei enw cyntaf yng nghamp y naid uchel ond cafodd ei naid wysg ei gefn ei enw ef yn y llyfrau record. Gyda'r un dechneg, roedd eraill yn fuan wedi neidio'n uwch. Dair blynedd yn ddiweddarach neidiodd Bob Beaman y naid hir gyda'r nos ym Mecsico, ac ymddengys mai dim ond yn ddiweddar iawn y mae wedi dod yn ôl i lawr i'r ddaear. Ond roedd eraill, yn y pen draw, wedi neidio hyd yn oed yn bellach. Mae sawl record o Ddwyrain Ewrop a gyflawnwyd gan robotiaid dan ddylanwad steroid bellach wedi'u dileu o'r llyfrau record. Yn yr un modd, mae saith buddugoliaeth Lance Armstrong yn olynol yn Tour de France wedi'u bwrw i lyfrau hanes anfadrwydd.

Ond mae un record yn parhau ers 1933. Nid oedd unrhyw sylweddau gwella perfformiad yn agos at yr hanes – ac eithrio mint bach efallai. Fe'i cyflawnwyd ger pentref bach yn Sir Gaerfyrddin, sef yr un pentref ag y gadawodd fy nghyndadau i ddilyn yr enfys i chwilio am ffortiwn. (Os daethant o hyd iddo, wnaeth y cnafon erioed roi gwybod i mi.) Yn ystod haf hirfelyn tesog 1933, agorodd gwersyll Dachau a llosgodd y Reichstag, cyfarfu Fay Wray â King Kong, cafodd F D Roosevelt sgwrs cil pentan â'i bobl, ac fe wnaeth pobl Cymru yr hyn a wna llawer mewn cyfnod cythryblus – aethant i bysgota.

Nid yw Nantgaredig yn lle sy'n cael ei gysylltu'n aml â thorri record. Mae'r athletwr elitaidd a dorrodd y record hyd yn oed yn fwy annhebygol. Roedd Alec Allen yn 5 troedfedd 2 fodfedd, ac yn werthwr offer pysgota 42 mlwydd oed o Benarth.

Mae genweirwyr, nid pysgotwyr, yn gweddïo i Sant Zeno:

"O Arglwydd, rhoi i mi ras i ddal pysgodyn mor fawr, fel na fydd yn rhaid i hyd yn oed fi,
Wrth sôn am yr hanes wedyn, fyth orfod dweud celwyddau."

Ar 28 Gorffennaf 1933, atebodd Zeno weddi Allen – ac am ffordd i wneud hynny. O ddyfroedd afon Tywi fe dynnodd Allen bysgodyn stwrsiwn (*sturgeon*) Ewropeaidd oedd yn pwyso 388 pwys. Dyma'r pysgodyn mwyaf ei faint a ddaliwyd mewn afon ym Mhrydain hyd heddiw (o dros 200 pwys). Mae ffotograff i brofi nad ryw stori anhygoel a luniwyd ar lan yr afon mo hon, nad yr un a ddihangodd oedd y pysgodyn hwn. Yn y llun mae'r pysgodyn 9 troedfedd 2 fodfedd, gyda'i fol 59 modfedd, yn edrych yn gawraidd yn ymyl Allen bach.

Wrth i Alec Allen gerdded ar hyd glannau afon Tywi gwelodd rhywbeth a oedd yn edrych fel darn o bren yn symud i fyny'r afon. Gwyddai Allen nad yw boncyffion yn symud ar i fyny mewn dŵr felly dechreuodd bysgota.

I'r rheiny ohonoch sydd wedi astudio Bioleg Ddyfrol, fe wyddoch nad oes ceg gan bysgodyn stwrsiwn, mae'n fwy fel rhyw fath o seiffon, ac eto rywsut fel aeth bachyn Allen yn sownd yn y bwystfil. Ac yntau wedi'i gynddeiriogi'n lân, neidiodd y Lefiathan o'r dyfroedd. Yn ôl pob sôn rhedodd y bobl oedd yn gwylio oddi yno, wedi dychryn yn lân. Bu'n rhaid i Allen ladd y bwystfil â charreg.

Er mwyn ei gludo o lan yr afon, aeth Allen i fferm leol i ofyn a fyddai modd iddo gael benthyg ceffyl a throl. Mae ffermwyr yn naturiol chwilfrydig, a hyd yn oed yn fwy felly pan fo dieithriaid yn gofyn am fenthyg eu hoffer, felly gofynnodd y ffermwr "pam?". Mae rhyw dinc o gomedi swrrealaidd i'r ateb "Rwy newydd ddal pysgodyn".

Daliodd Allen ati i bysgota hyd ei farwolaeth yn 1972, ond ni wnaeth ef, na neb arall chwaith, ddal y fath gawr eto. Yn ei ewyllys gofynnodd i'w ffrindiau wasgaru ei lwch i'r afon yn yr union fan lle daliodd y Lefiathan. Yn ôl atgofion un ohonynt, Ronald Jones, sy'n sicr yn ffynhonnell ddibynadwy ac yntau cyn hynny yn Brif Gwnstabl Dyfed, ac yn ddyn heb natur sentimental ynddo:

'Wrth i ni wasgaru'r llwch i'r dyfroedd, gwelais frithyll yn neidio i'r awyr yn union lle roedd y llwch yn mynd gyda'r llif. A dywedais wrth Dai, "Edrych, dacw Alec yn fan'cw!"'



*Golygfa o'r Hen Goleg o'r Castell gan Scott Nisbet, 1950au. Olew ar fwrdd, 55 x 75 cm. Casgliad: Prifysgol Aberystwyth, Oriel ac Amgueddfa'r Ysgol Gelf.*

Trwy gydol ei hanes, mae **Prifysgol Aberystwyth** wedi elwa o roddion a adawyd iddi mewn ewyllys gan gyn-fyfyrwyr a chyfeillion. Mae cymynroddion yn sicrhau bod enw da Aber yn cael ei hyrwyddo ledled y byd a'i bod yn ffynnu, fel man dysg ac ymchwil, ar gyfer yr oesoedd a ddel.

---

**I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â gadael rhodd i Aber, cysylltwch â:**

Cathy Piquemal, Swyddog Cymynroddion a Rhoddion Sylweddol
Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni
Prifysgol Aberystwyth,
Aberystwyth, SY23 3EB

Ffôn: 01970 621568
Ebost: crp@aber.ac.uk
www.aber.ac.uk/supporters

*"Ffordd hawdd a di-boen o roi rhywbeth nôl."*
**Alumnus 1982**

*"Ni all geiriau fynegi fy niolch i'r rhai a sefydlodd yr Ysgoloriaeth. Nid yn unig yr ydw i wedi cael sefydlogrwydd ariannol trwy gydol fy nghwrs ond yn bwysicach na dim rydw i wedi cael cyfle i fod yn rhan o gymuned academaidd wych Aber."*
**Myfyriwr israddedig ar hyn o bryd**

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Sefydlwyd ym
1872
Dros 140 mlynedd o ragoriaeth

# Ydych chi'n cofio bod mewn Byd arall

## Dewch i'n gweld ni



## Diwrnodau Agored

**Israddedig ac Uwchraddedig 2016**

Dydd Mercher 29$^{ain}$ o Fehefin
Dydd Sadwrn 17$^{eg}$ o Fedi
Dydd Sadwrn 15$^{fed}$ o Hydref
Dydd Sadwrn 12$^{fed}$ o Dachwedd

Diwrnodau Agored **Rhithiol**

Dydd Mawrth 26$^{ain}$ o Ebrill
Dydd Mercher 27$^{ain}$ o Orffennaf
Dydd Iau 8$^{fed}$ o Ragfyr

I gael rhagor o wybodaeth:

**www.aber.ac.uk/diwrnodagored**

01970 622065 | diwrnodagored@aber.ac.uk

@PrifAber_IR | @Prifysgol_Aber | #DiwrnodAgoredAber
www.facebook.com/PrifysgolAberystwythDarparFyfyrwyr/
youtube.com/PrifysgolAberystwyth